

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019/20

(ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020)

HC 715



Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol **Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019/20**

(ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020)

Cyflwynir i'r Senedd yn unol â pharagraffau 11(4) a 15(3) Atodlen 1ZA Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol 2012 a Deddf Gwasanaethau Ariannol (Diwygio Bancio) 2013

Gorchmyrwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 10 Medi 2020

HC 715

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	6
Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr Dros Dro	8
Uchafbwyntiau 2019/20	12
Adroddiad Strategol	
1 Ein Rôl	14
2 Ymateb i Coronafeirws	22
3 Ymadael â'r UE ac ymgysylltu rhyngwladol	25
4 Ein blaenoriaethau traws-sectorol	28
5 Blaenoriaethau ein sector	49
6 Ein datganiad adran 172	73
7 Trosolwg gweithredol o'r Grŵp	80
Datganiadau ariannol a llywodraethu corfforaethol	
8 Adroddiad y cyfarwyddwyr a datganiad llywodraethu corfforaethol	92
9 Datganiadau ariannol yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben	115
Atodiadau	
1. Gweithredu pwerau is-ddirprwyedig gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol dan Ddeddf (Ymadael) Undeb Ewropeaidd 2018	156
2. Defnyddio ein pŵer adran 166	158
3. Adolygiad Blynyddol RDC o'r flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020	160
4. Adroddiad Cynaliadwyedd	168

© Hawlfraint yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol 2020

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored 3.0 oni bai lle nodir yn wahanol. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Os ydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael cadarnhad gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r cyhoeddiad hwn atom yn

Financial Conduct Authority

12 Endeavour Square

London

E20 1JN

ISBN 978-1-5286-2110-6

CCS0320285804 09/20

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Wedi'i argraffu yn y DU gan APS Group ar ran Rheolydd Gwasg Ei Mawrhydi



Charles Randell
Cadeirydd

Rhagair y Cadeirydd

Roeddem yn barod am newid a her yn 2019/20, a – hyd yn oed cyn y pandemig coronafeirws – daeth y flwyddyn yn sicr â'r ddau. Ymhlith y newidiadau a gyflawnwyd gennym y mae ymestyn y Gyfundrefn Uwch Reolwyr ac Ardystio, er mwyn sbarduno newid yn niwylliant cwmnïau ariannol; a newidiadau i'r rheolau i atal niwed mewn cynhyrchion credyd defnyddwyr cost uchel fel rhentu i brynu. Ymhlith yr heriau yr ydym yn parhau i fynd i'r afael â hwy y mae prisio annheg mewn yswiriant cyffredinol; a mynd i'r afael â marchnata buddsoddiadau risg uchel a sgam anaddas ar y rhyngwyrdd, sy'n achosi cymaint o drallod i'r rhai sy'n cofrestru. Ochr yn ochr â hyn i gyd, a'r her ddyddiol o oruchwyltio tua 60,000 o gwmnïau, rydym wedi bod yn paratoi ar gyfer amrywiaeth o ganlyniadau yn y ffordd y mae'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeidd a'i pherthynas newydd â'r UE.

Tua diwedd y flwyddyn ariannol, ymunodd y pandemig coronafeirws â'r heriau hyn. Ers i'r pandemig ddechrau, mae cwmnïau gwasanaethau ariannol, rheoleiddwyr, y Llywodraeth a'r sector gwirfoddol wedi bod yn cydweithio i gadw'r system ariannol ar waith. Hoffwn dalu teyrnged i'r degau o filoedd o bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau ariannol ar reng flaen yr ymateb hwn: staff y banciau sy'n cadw canghennau a pheiriannau ATM ar agor, yr arian yn cylchdroi, a'r taliadau'n llifo; y rhai sy'n staffio'r ffonau, o dan bwysau enfawr wrth i ddefnyddwyr a busnesau geisio cymorth; staff yr elusennau cyngor ar ddyledion sy'n ymateb i anghenion brys a chynyddol pobl sy'n cael trafferth yn ariannol; a'r dechnoleg a staff y swyddfa gefn

sy'n cynnal cadernid systemau.

Mae eisoes yn amlwg y bydd effaith economaidd coronafeirws yn sylweddol, gan effeithio ar fenthycwyr, cynilwyr, cwmnïau ariannol a busnesau eraill yn fawr ac yn fach. Bydd disgwyl i'r FCA sicrhau triniaeth deg i ddefnyddwyr a busnesau bach sy'n ei chael hi'n anodd tra'n sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda ar gyfer yr adferiad.

Er mwyn sicrhau bod yr FCA yn gallu ymateb i'r heriau hyn, byddwn yn parhau i drawsnewid ein sefydliad ein hunain, gan ddatblygu rheoleiddiad sy'n addas ar gyfer y dyfodol a'r systemau a'r galluoedd y bydd eu hangen. Bydd y trawsnewid hwn yn galluogi i ni oruchwyltio 60,000 o



Byddwn yn parhau i drawsffurfio ein sefydliad ein hun



gwmnïau awdurdodedig yn well, ac er na fyddwn byth yn atal methiant pob cwmni, ein huchelgais yw bod yn gyflymach i adnabod niwed ac ymyrryd yn gyflymach.

Rydym eisoes wedi dangos yn ystod 6 mis cyntaf yr argyfwng hwn yr hyn y gallwn ei gyflawni gyda ffyrdd newydd o weithio. Hoffwn ddiolch i gydweithwyr yr FCA sydd wedi addasu i'r amodau digynsail sy'n deillio o'r pandemig. Maent wedi parhau â'u gwaith hanfodol presennol ynghyd ag wedi datblygu ystod o ymyriadau mawr a fwriadwyd i sicrhau cysondeb wrth drin defnyddwyr, y mae'r economi'n effeithio arnynt, yn deg. Mae'r ymyriadau hyn wedi cynnwys gohirio taliadau ar draws amrywiaeth o gynhyrchion credyd, o forgeisi i wystlo. Yn y gwaith hwn, fe'n cefnogwyd gan ein paneli annibynnol, y mae eu cyngor yn bwysicach nag erioed wrth i ni weithio'n gyflym, gan ategu'r adborth a gawn o ymgynghoriad cyhoeddus a'n hymgyssylltiad â rhanddeiliaid eraill.

Mae profiad y 6 mis diwethaf yn fy ngwneud yn optimistaidd iawn ynghylch y buddion a ddaw yn sgil trawsffurfio'r FCA. Bydd y trawsnewid hwn yn mynd rhagddo o dan arweinyddiaeth ein Prif Weithredwr newydd, Nikhil Rathi, y croesawn i'r FCA wrth iddo ymgymryd â'i rôl ar 1 Hydref 2020. Bydd yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd eisoes gan Chris Woolard, sydd wedi arwain yr FCA yn egniol ac yn fedrus ers mis Mawrth 2020, ac Andrew Bailey, a wnaeth gymaint i sefydlogi'r FCA pan gymerodd yr awenau yn 2016 a gosod y cwrs ar gyfer ei drawsnewid. Yr wyf wedi bod yn ffodus i weithio gyda'r arweinwyr hyn a diolch iddynt ar ran yr FCA am eu gonestrwydd a'u gwytnwch yn un o'r swyddi mwyaf heriol ym myd gwasanaethau cyhoeddus.



Mae profiad y chwe mis diwethaf yn fy ngwneud yn optimistaidd iawn ynghylch y buddion a ddaw yn sgil trawsffurfio'r FCA



Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, rwyf wedi bod yn falch o groesawu Liam Coleman, Bernadette Conroy, Jeannette Lichner a Tommaso Valletti fel cyfarwyddwyr anweithredol. Hoffwn ddiolch i Amelia Fletcher a Nick Stace, a ymddiswyddodd fel cyfarwyddwyr anweithredol yn 2019/20 a Catherine Bradley, a ymddiswyddodd ddiwedd mis Gorffennaf, am eu cyfraniadau i'n gwaith.

Charles Randell
Chair
Financial Conduct Authority



Christopher Woolard
Prif Weithredwr Dros
Dro

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr Dros Dro

Ers y gwanwyn, mae effaith coronafeirws wedi dominyddu'r ffordd yr ydym yn byw ein bywydau ac yn cael effaith economaidd sylweddol. Mae ymateb iddo wedi gofyn am weithredu digynsail gan y llywodraeth a rheoleiddwyr i helpu i reoli'r effaith ar gyllid pobl a'r system ariannol.

Gyda Banc Lloegr a'r Llywodraeth, symudodd yr FCA yn gyflym i helpu defnyddwyr a busnesau yr effeithiwyd arnynt gan ganlyniadau economaidd coronafeirws.

Yn ystod yr argyfwng, manteisiodd dros 3.4 miliwn o bobl ar y seibiannau talu a sefydlwyd gennym ar forgeisi a chynhyrchion credyd eraill i'r rhai yr oedd ei angen arnynt.

Darparwyd lle i'r cwmnïau a reoleiddir gennym i ganolbwyntio eu hadnoddau, a oedd wedi'u hymestyn gan effaith y feirws, ar wasanaethu eu cwsmeriaid.

Gwnaethom gefnogi'r busnesau hynny a'u cynghorwyr yr oedd angen iddynt roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w buddsoddwyr neu i gael mynediad i farchnadoedd cyfalaf. A buom yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr ledled y byd i gadw'r marchnadoedd hyn – y mae cynifer o swyddi'n dibynnu arnynt – yn agored ac yn drefnus.

Dechreuwyd achos prawf cyfreithiol gennym i gael eglurder i 370,000 o ddeiliaid polisi a'u hyswirwyr ynghylch pa bolisiau tarfu ar fusnes ddylai dalu allan.

Ein nod fu sicrhau bod cynifer o bobl a busnesau yn cyrraedd ochr arall i effaith uniongyrchol coronafeirws, pryd bynnag y bydd hynny a sut bynnag y bydd hynny'n edrych, mewn cyflwr cystal ag sy'n bosibl.

Er bod llawer o'r gwaith hwn y tu allan i'r cyfnod adrodd, wrth i coronafeirws barhau i effeithio ar fywydau bob dydd gyda dylanwad dilynol ar yr economi a'r cwmnïau ariannol sy'n ei wasanaethu, mae'n bwysig egluro y bydd llawer o ffocws yr FCA yn parhau ar gefnogi defnyddwyr a chwmnïau drwy'r argyfwng. Bydd y dull pendant a fabwysiadwyd gennym pan ddechreuodd coronafeirws ledu yn parhau wrth i ni ystyried sut bydd marchnadoedd ariannol a'u cwsmeriaid yn addasu i sioc economaidd ddofn.

Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn caniatáu i ni ystyried y gwaith arall a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.



Bydd y dull pendant a fabwysiadwyd gennym pan ddechreuodd coronafeirws ledu yn parhau wrth i ni ystyried sut bydd marchnadoedd ariannol a'u cwsmeriaid yn addasu i sioc economaidd ddofn



Gwarchod defnyddwyr

Arweiniodd ein hadolygiad eang o gredyd cost uchel at newidiadau helaeth. Roedd y rhain yn cynnwys cap prisiau ar gynhyrchion rhentu i brynu a gwahardd y rhan fwyaf o ffioedd sefydlog ar orddrafftiau. Amcangyfrifwn y gallai'r 30% o ddefnyddwyr cyfrifon cyfredol personol (PCA) sy'n byw yn y cymdogaethau mwyaf difreintiedig yn y DU weld gostyngiad cyfanredol mewn taliadau gorddrafft o tua £101m y flwyddyn.

Canfu ein hastudiaeth marchnad yn 2019 ar brisio yswiriant cyffredinol gystadleuaeth wan wrth adnewyddu ar gyfer cwsmeriaid ffyddlon, ac y gallai tua 1 o bob 3 o'r rhai sy'n talu prisiau uchel fod yn agored i niwed. Canfu ein hasesiad o gyllid moduron fod modelau comisiynu sy'n gysylltiedig â'r cyfraddau llog a godir yn arwain at gostau gormodol i gwsmeriaid. Rydym wedi cwblhau mesurau i sicrhau bod cwmnïau'n sicrhau gwell gwerth yn y contractau hyn. Cyflwynwyd rheolau cyfeirio newydd gennym hefyd yn 2020 i helpu cwsmeriaid sydd â chyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes i gael yswiriant teithio fforddiadwy.

Rydym wedi buddsoddi yn ein hymgyrch ScamSmart i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r risg o dwyll, yn enwedig pan fydd cyfraddau llog isel parhaus yn arwain llawer i chwilio am enillion uwch mewn manau newydd.

Yn 2019/20, gwaharddwyd dros dro farchnata gwarantau caeth hapfasnachol, gan gynnwys bondiau bach hapfasnachol, i fuddsoddwyr manwerthu. Yr haf hwn, rydym yn ymgynghori ar wneud y gwaharddiad yn barhaol. Gwnaethom roi eglurder i ddefnyddwyr ynghylch sut y mae cryptoasadau yn ffitio o fewn y fframwaith rheoleiddio a bennwyd ar ein cyfer gan y Senedd, a'r risgiau y maent yn eu rhedeg os penderfynant fuddsoddi.



Gyda Banc Lloegr a'r Llywodraeth, symudodd yr FCA yn gyflym i helpu defnyddwyr a busnesau yr effeithiwyd arnynt gan ganlyniadau economaidd coronafeirws





Rydym wedi buddsoddi yn ein hymgyrch ScamSmart i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r risg o dwyll



Ymddygiad, diwylliant a gwytnwch

Diwylliant o fewn cwmnïau yw'r sylfaen y mae canlyniadau eu cwsmeriaid yn cael eu hadeiladu arni. Dyna pam ym mis Rhagfyr 2019 y gwnaethom ymestyn y Gyfundrefn Uwch Reolwyr ac Ardystio i bron pob cwmni a awdurdodir gan yr FCA. Mae'r estyniad hwn yn rhoi offeryn ymddygiad cyffredinol i ni ddwyn cwmnïau ac unigolion i gyfrif os ydynt yn methu â chyrraedd y safonau hyn, tra'n ymgorffori cyfrifoldeb personol o fewn cwmnïau.

Fe wnaeth y mwyafrif helaeth o gwmnïau addasu'n gyflym i'r symud dros nos i weithio gartref ac roedd hynny'n bosibl yn sgil y ffocws yr ydym ni – ynghyd â'r diwydiant – wedi'i roi ar wydnwch gweithredol ers nifer o flynyddoedd. Parhaodd hynny eleni gydag ymgynghoriad ar y cyd â Banc Lloegr ar welliannau pellach y gall cwmnïau eu gwneud i ymdopi â'r annisgwyl. Hefyd, amlygodd ein hasesiad cyntaf o wydnwch technoleg a seiber bwysigrwydd bod cwmnïau yn mynd i'r afael â materion darparwyr trydydd parti a rheoli newid.

Gadael yr UE

Cyn i'r DU adael yr UE ddiwedd mis Ionawr 2020, dywedodd dros 1,000 o gwmnïau o'r AEE wrthym eu bod am ddefnyddio'r Drefn Caniatadau Dros Dro i barhau â gweithgarwch trawsffiniol yn y DU. Rydym wedi cadarnhau y bydd y Drefn ar gael o ddiwedd y cyfnod pontio.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Trysorlys ar gynnwys y Mesur Gwasanaethau Ariannol, i sicrhau ei fod yn cynnwys mesurau deddfwriaethol angenrheidiol i ddatrys materion sy'n weddill.



Fe wnaeth y mwyafrif helaeth o gwmnïau addasu'n gyflym i'r symud dros nos i weithio gartref ac roedd hynny'n bosibl yn sgil y ffocws yr ydym ni – ynghyd â'r diwydiant – wedi'i roi ar wydnwch gweithredol ers nifer o flynyddoedd



Ein nod fu sicrhau bod cynifer o bobl a busnesau yn cyrraedd ochr arall i effaith uniongyrchol coronafeirws, pryd bynnag y bydd hynny a sut bynnag y bydd hynny'n edrych, mewn cyflwr cystal ag sy'n bosibl



Rheoleiddiwr y dyfodol

Mae ein trawsnewidiad ein hunain i ddod yn rheolydd sy'n addas ar gyfer y dyfodol yn parhau. Yn ystod y llynedd, gwnaethom sefydlu strategaeth ddata newydd. Roedd hyn yn canolbwyntio ar adeiladu'r sgiliau cywir, sicrhau bod technolegau newydd ar gael ac ymgorffori diwylliant sy'n annog meddwl arloesol ar draws y sefydliad. Yn benodol, rydym wedi ceisio adeiladu ein gallu dadansoddi data a'n swyddogaeth ddeallusrwydd i ddyfnhau ein dealltwriaeth o farchnadoedd a'r rhai a wasanaethir ganddynt ac i ganiatáu i ni nodi ac ymateb yn gyflym i faterion cadarn a marchnad. Rydym hefyd yn newid y ffordd rydym yn defnyddio ac yn rheoli ein pobl i sicrhau ein bod yn sefydliad hyblyg, sy'n gallu addasu'n hawdd i newid deinameg y farchnad.

Mae gwelliannau yn y ffordd yr ydym yn delio â chwynion yn tanlinellu bod yn rhaid i ni hefyd ddysgu gwersi lle mae pethau wedi mynd o chwith. Byddwn yn ystyried yn ofalus ganfyddiadau'r adolygiadau sydd ar ddod i Connaught, Cynnyrch Gwarchod Cyfraddau Llog a London Capital and Finance.

Christopher Woolard
Prif Weithredwr Dros Dro
Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Uchafbwyntiau 2019/20

Gweithredu yn erbyn cwmnïau



Gosod **15 o ddirwyon ariannol** gwerth dros **£224m**



Gweithredu a arweiniodd at gwmnïau yn **taludros £135m** i dros **32,500 o gwsmeriaid** am fethiannau mewn gwybodaeth ynghylch opsiynau blwydd-daliadau

Cadw marchnadoedd yn lân ac yn wydn



Rydym yn rheoleiddio ymddygiad bron i **60,000 o gwmnïau**



Wedi ymdrin â dros **1,000 o geisiadau rhyngwladol** am gymorth a datgeliadau



£116m wedi'i ad-dalu i ddiodefwrwr **twyll taliadau gwthio** - i fynu **40%** ers 2018



65 o ymchwiliadau **atal gwyngalchu arian** ar y gweill



Wedi penderfynu ar **4,133 o achosion** ar gyfer awdurdodi cwmnïau newydd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf



952 o gwmnïau rheoli hawliadau wedi cofrestru am ganiatadau dros dro



Wedi agor **415 o adolygiadau cychwynnol** i mewn i gam-drin y farchnad



Dros **1,000** o gwmnïau AEE wedi rhoi gwybod i ni eu bod am ddefnyddio'r **Drefn Caniatadau Dros Dro**



Wedi derbyn dros **1,100** o ddatageliadau chwythu'r chwiban unigol, yn ymdrin â bron i **3,000** o gyhuddiadau unigol



Wedi asesu **824 o adroddiadau digwyddiadau** – yr oedd **790** yn ymwneud â seiber neu dechnoleg



57 o gyfranogwyr byd-eang yn y **Rhwydwaith Arloesedd Ariannol Byd-eang** – a gadeirir gan yr FCA – i fyny o 29 yn 2018/19

Gwarchod defnyddwyr



Wedi cyhoeddi **715 o rybuddion defnyddwyr** ynghylch cwmnïau anawdurdodedig



Dros **1.8m ohiriadau taliadau morgais** a dros **1.6m o ohiriadau taliadau cardiaid credyd a benthyciadau personol** i'r rheini sydd wedi'u heffeithio gan coronafeirws



324,000 wedi gwylio ein **hymgyrch ScamSmart** diweddaraf



71% o'n cynulleidfa darged yn ymwybodol o'n **hymgyrch PPI** erbyn iddi ddod i ben



Wedi cyflwyno **rheolau newydd** i helpu i sicrhau gwerth am arian a gwella cystadleuaeth ar gyfer y **74% o oedolion y DU** sydd â phensiwn preifat

1 Ein rôl

Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2019/20 yn rhoi cofnod o'r hyn y mae'r FCA wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad yn dangos cylch gwaith eang ein gwaith i gyflawni'r amcanion strategol a gweithredol y mae'r Senedd wedi'u gosod arnom. Mae maint ein rôl yn golygu bod yn rhaid i ni wneud dewisiadau ynghylch ble rydym yn canolbwyntio ein hadnoddau i sbarduno'r canlyniadau cywir i ddefnyddwyr gwasanaethau ariannol.

Sut rydym yn rheoleiddio

Diffinnir ein gwaith a'n diben gan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000 (FSMA). Ein hamcan strategol yw sicrhau bod y marchnadoedd perthnasol yn gweithio'n dda. Er mwyn cyflawni hyn, mae FSMA yn rhoi 3 amcan gweithredol i ni. Y rhain yw:

- sicrhau rhywfaint o warchodaeth priodol i ddefnyddwyr
- diogelu a gwella cyfanrwydd system ariannol y DU
- hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr

Mae'r sector ariannol yn chwarae rhan hollbwysig ym mywydau pawb yn y DU. Mae marchnadoedd sy'n gweithio'n dda yn rhoi budd uniongyrchol i'r economi a'r cyhoedd yn gyffredinol. Rhaid i ddefnyddwyr fod â hyder yn y gwasanaethau a ddarperir a'r cwmnïau sy'n eu darparu. Maent yn disgwyl i'r farchnad fod yn deg, yn agored ac yn gystadleuol.

Fel corff cyhoeddus, mae ein rheoleiddio'n gwasanaethu'r cyhoedd drwy wella'r ffordd y mae marchnadoedd ariannol yn gweithredu a sut mae cwmnïau'n cynnal eu busnes. Rydym yn defnyddio ein pwerau i gyflawni rheolau cadarn ac ymarferol ac yn darparu fframwaith y gall marchnadoedd weithredu'n dda oddi mewn iddo. Mae ein mandad cystadleuaeth yn ein hawdurdodi i hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr a nodi a mynd i'r afael â phroblemau cystadleuaeth. Mae hefyd yn gwneud i ni weithio i gynnal amgylchedd rheoleiddio sy'n helpu defnyddwyr a chwmnïau i wneud y gorau o'r cyfleoedd y mae cystadleuaeth yn eu cynnig.

Mae ein Cenhadaeth yn darparu'r fframwaith ar gyfer y penderfyniadau strategol a wnawn. Rydym yn canolbwyntio ein hadnoddau ar y marchnadoedd a'r cwmnïau sydd fwyaf tebygol o achosi niwed i ddefnyddwyr, niweidio cyfanrwydd y farchnad neu wanbau cystadleuaeth. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith rydym wedi'i wneud mewn sectorau allweddol ac ar eu traws i leihau niwed yn ystod 2019/20. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith y gwnaethom ymrwymo i'w wneud yn ein Cynllun Busnes.

Mae ein Cenhadaeth yn amlinellu 5 categori o niwed, sy'n adlewyrchu ein hamcanion gweithredol. Ein nod yw defnyddio ein dulliau'n effeithlon ac yn effeithiol i leihau neu atal y niwed hwn, sicrhau'r gwerth mwyaf i'r cyhoedd ac felly er budd y cyhoedd.

Math o niwed	Amcanion gweithredol perthnasol yr FCA
Hyder a chyfranogiad mewn marchnadoedd wedi'u bygwth gan ymddygiad annerbyniol megis camddefnyddio'r farchnad, perfformiad annibynadwy neu fethiant afreolus	Cyfanrwydd y farchnad Gwarchod defnyddwyr Cystadleuaeth effeithiol
Defnyddwyr yn prynu cynnyrch anaddas, neu cynnyrch yn cael eu cam-werthu iddynt; gwasanaeth/triniaeth wael o gwsmeriaid	Gwarchod defnyddwyr Cystadleuaeth effeithiol
Nid yw anghenion pwysig defnyddwyr yn cael eu bodloni oherwydd bylchau yn yr ystod bresennol o gynnyrch, eithrio defnyddwyr, diffyg gwytnwch y farchnad	Gwarchod defnyddwyr Cystadleuaeth effeithiol
Prisiau'n rhy uchel, neu'r ansawdd yn rhy isel	Cystadleuaeth effeithiol Gwarchod defnyddwyr
Risg o sgil-ffeithiau niweidiol sylweddol ar farchnadoedd ehangach, economi'r DU a chymdeithas yn ehangach e.e. trosedd/terfysgaeth	Cyfanrwydd y farchnad Gwarchod defnyddwyr

Ein hegwyddorion a'n swyddogaethau rheoleiddio

O dan FSMA, mae gennym nifer o swyddogaethau. Mae'r rhain yn cynnwys gwneud rheolau a rhoi arweiniad cyffredinol, yn ogystal ag awdurdodi a goruchwyllo cwmnïau.

Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn, rydym yn ystyried yr egwyddorion a ganlyn ar gyfer rheoleiddio da:

- effeithlonrwydd ac economi
- cymesuredd
- twf cynaliadwy
- cyfrifoldeb defnyddwyr eu hunain
- cyfrifoldeb uwch reolwyr cwmnïau i gydymffurfio â'r fframwaith rheoleiddio
- cydnabod y gwahaniaethau mewn gwahanol fathau o fusnesau
- bod yn agored a datgelu
- tryloywder

Mae'r egwyddorion hyn yn sail i'n holl waith ac maent i gyd yr un mor bwysig. Fel sy'n ofynnol gan FSMA, rydym yn cynnwys datganiad cydnawsedd yn ein papurau ymgynghori. Mae hyn yn esbonio pam ein bod yn credu bod ein cynigion yn gydnaws â'n dyletswydd i ystyried yr egwyddorion hyn, gan gydnabod y gallai mwy nag un egwyddor fod yn gysylltiedig ag achos ac na fydd yr holl egwyddorion bob amser yn berthnasol ym mhob achos.

Rydym hefyd yn gyfrifol am gofrestru cymdeithasau cydfuddiannol. Cewch hyd i'n diweddariad ar y swyddogaeth cofrestru cymdeithasau cydfuddiannol yn 2019/20 [yma](#).

Mesur perfformiad

Mae ein Cenhadaeth yn esbonio'r dull 3 haen a ddefnyddiwn i fesur ein perfformiad:

Haen 1: Effeithlonrwydd prosesau mewnol

Rydym yn defnyddio diffiniad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o werth am arian fel 'y defnydd gorau posibl o adnoddau i sicrhau canlyniad a fwriedir'. Rydym yn parhau i wella'r ffordd rydym yn mesur gwerth am arian yn ein prosesau a'r ffordd rydym yn gweithio. Gwyddom fod bod yn effeithlon gyda'n hadnoddau hefyd yn cynnwys sut rydym yn gwneud y defnydd gorau o'r data a'r wybodaeth sydd ar gael i ni i fesur effaith ein gweithredoedd.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau gwerth am arian pan fyddwn yn mynd i'r afael â niwed ac yn cyflawni ein hamcanion. Mae ein llwyddiant o ran sicrhau gwerth cyhoeddus hefyd yn dibynnu ar reoli risgiau mewnol allweddol. Rydym yn gwneud hyn yn rhannol drwy gael y cydweithwyr cywir sydd â'r sgiliau cywir yn canolbwyntio ar y gweithgaredd cywir. Rydym yn egluro sut rydym yn rheoli ein risgiau mewnol yn y Bennod ar Lywodraethu Corfforaethol.

Mae ein mesurau Safonau Gwasanaeth yn cynnwys cymysgedd o ymrwymadau gwirfoddol a rhwymedigaethau statudol. Mae'r safonau hyn yn cwmpasu meysydd gan gynnwys ymholiadau dros y ffôn, ceisiadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a sut rydym yn ymateb iddynt, a llythyrau ASau.

Haen 2: Effaith ein hymyriadau

Rydym yn mesur effaith debygol ein gweithredoedd cyn i ni ymyrryd. Rydym wedi cynhyrchu grŵp o gyhoeddiadau i roi darlun clir o sut rydym yn gwneud hyn. Mae hyn yn cynnwys ein dull o ddadansoddi cost a budd, pryd a sut rydym yn defnyddio treialon maes a sut rydym yn amcangyfrif manteision ymyriadau.

Rydym wedi parhau i wella'r ffordd rydym yn mesur cynnydd, yn unol â'n Cenhadaeth. Rydym yn canolbwyntio mwy ar y canlyniadau a gyflawnir gan ein hymyriadau unigol a hefyd ar draws y sectorau gwasanaethau ariannol rydym yn eu rheoleiddio. Lle maent ar gael, a'i bod yn gymesur gwneud hynny, rydym yn dechrau monitro canlyniadau gan ddefnyddio metrigau meintiol. Defnyddir tystiolaeth ansoddol lle nad oes data meintiol ar gael.

Yn aml, mae bwlch amser rhwng pan fyddwn yn ymyrryd mewn marchnad, pan fydd ymyriadau'n dechrau dod i rym, a phan fydd data ar gael i fonitro cynnydd. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymyriadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn byddwn yn dechrau casglu tystiolaeth dros y flwyddyn i ddod. Rydym hefyd wedi ymrwymo i adolygiadau ar ôl gweithredu ar rai o'n hymyriadau polisi e.e. credyd a'r adolygiad o ganlyniadau ymddeol a byddwn yn adrodd ar y canfyddiadau unwaith y byddant wedi'u cwblhau.

Mae ein rhaglen o gyn-werthuso effaith yn ein galluogi i werthuso ein heffaith yn uniongyrchol drwy ddatblygu gwrthffeithiol (beth fyddai wedi digwydd pe na baem wedi ymyrryd). Hyd yma, rydym wedi cyhoeddi 4 cyn werthusiad effaith i asesu a gyflawnwyd ein canlyniadau arfaethedig.

Ym mis Hydref 2019, fe wnaethom gyhoeddi gwerthusiad o'n hymyriad ym mis Ebrill 2017 i gynyddu tryloywder wrth adnewyddu mewn marchnadoedd yswiriant cyffredinol. Amcangyfrifwyd arbedion o rhwng £39 miliwn a £330 miliwn y flwyddyn i ddefnyddwyr – gydag amcangyfrif cyfartalog o £185 miliwn y flwyddyn – oherwydd ein

hymyriad. Mae hyn yn cael ei osod yn erbyn costau o tua £4 miliwn y flwyddyn. Credwn fod y manteision hyn yn deillio o ffocws cynyddol cwmnïau ar arferion adnewyddu gan arwain at breimymau adnewyddu yn cynyddu llai nag y byddent wedi'i gael fel arall. Roedd hefyd yn ganlyniad i annog defnyddwyr i wneud penderfyniadau mwy gwybodus drwy ymgysylltu a siopa o gwmpas.

Haen 3: Canlyniadau yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio

Rydym yn ystyried canlyniadau mewn sectorau ariannol yn gyffredinol er mwyn nodi sut mae'r marchnadoedd yn perfformio ac i lywio ein dull strategol. Nid yw'r rhain yn rhoi gwerthusiad cyflawn o ba mor effeithiol fu ein gwaith, ac nid ydynt ychwaith yn gosod targedau. Yn hytrach, maent yn dweud wrthym am y cyfeiriad yr ydym yn ei wneud ar gyfer niwed allweddol ac a ydynt yn cynyddu neu'n gostwng. Mae ein Safbwyntiau Sector yn disgrifio ein dealltwriaeth o sut mae pob sector ariannol yn perfformio ac yn nodi'r meysydd lle mae'r niwed mwyaf posibl.

Mae ein Cynllun Busnes diweddaraf yn nodi'r canlyniadau rydym am eu cyflawni dros y 3 blynedd nesaf. Bydd adroddiadau blynyddol yn y dyfodol yn adrodd yn erbyn y canlyniadau hyn a lle maent wedi newid.

Arolwg Financial Lives

Rydym wedi cynnal yr ail arolwg Financial Lives, yn dilyn ein harolwg yn 2017. Mae arolwg 2020, gyda gwaith maes wedi'i gwblhau rhwng mis Awst 2019 a chanol mis Chwefror 2020, yn arolwg ar raddfa fawr o oedolion yn y DU, sy'n rhoi cipolwg ar wahanol fathau o ddefnyddwyr a'u profiadau o gynhyrchion a gwasanaethau ariannol.

Mae'r arolwg yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth i ni ac mae'n sail i'n gwaith diogelu defnyddwyr. Rydym yn rhannu'r arolwg ar ein gwefan, ac rydym wedi sicrhau bod y data crai ar gael i sawl sefydliad drwy wneud cais i archif y Ganolfan Ymchwil Data Defnyddwyr yng Ngholeg Prifysgol Llundain.

Disgrifir ystadegau arolwg Financial Lives 2020 ar 'fod yn agored i niwed' a gyhoeddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol/Adroddiad Amrywiaeth hwn yn ein Papur Ymgynghori ar Ganllawiau Bregusrwydd, a gyhoeddwyd ar 29 Gorffennaf 2020.

Cyfeiriwn at yr arolwg sawl gwaith yn yr adroddiad hwn a byddwn yn rhyddhau canfyddiadau pellach dros y flwyddyn i ddod.

Yr Arolwg Panel Ymarferwyr a'r FCA

Mae ein harolwg ar y cyd yn 2020 o gwmnïau a reoleiddir gan yr FCA wedi'i ohirio yn sgil argyfwng coronafeirws.

Pwy rydym yn ei reoleiddio

Rydym yn rheoleiddio ymddygiad bron i 60,000 o fusnesau yn y DU sy'n gwasanaethu defnyddwyr manwerthu a chyfanwerthu. Mae'r cwmnïau hyn yn amrywio o ran maint, cymhlethdod ac yn eu risg o niwed i ddefnyddwyr a chyfanrwydd y farchnad.

Rydym hefyd yn rheoleiddio pob cwmni'n ddarbodus ar wahân i fanciau, cymdeithasau adeiladu, undebau credyd, yswirwyr a chwmnïau buddsoddi mawr. Rydym yn blaenoriaethu'r meysydd a'r cwmnïau sy'n peri risg uwch i gwsmeriaid, partion i gontract neu sefydlogrwydd y farchnad. Rydym wrthi'n ceisio lleihau effaith methiannau cwmnïau.

Ffiniau rheoleiddio

Mae'r cwmnïau, y gweithgareddau a'r marchnadoedd a reoleiddir gennym wedi'u nodi'n bennaf gan Orchymyn Deddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000 (Gweithgareddau Rheoleiddiedig) (y RAO) a deddfwriaeth berthnasol arall. Mae'r ddedfwriaeth hon yn nodi ffin y gweithgareddau a reoleiddir gennym, a elwir yn 'berimedr FCA' fel arfer.

Mae'r perimedr yn bwysig gan ei fod yn penderfynu ar derfynau ein rheoliad. Mae hefyd yn effeithio ar faint o warchodaeth y gall defnyddwyr ei ddisgwyl pan fyddant yn prynu gwasanaethau a chynhyrchion ariannol. Mae gan wasanaethau a chynhyrchion sy'n dod o fewn ein perimedr lefelau uwch o warchodaeth na'r rhai y tu allan iddo.

Mae llawer o'r materion anoddaf a wynebwn yn cynnwys gweithgarwch ar ochr arall y ffin hon neu drosodd, megis y niwed difrifol diweddar i ddefnyddwyr a achosir gan rai cwmnïau sy'n gweithredu o amgylch y perimedr. Ein nod yw adnabod y gweithgareddau hyn yn gyflym a gwneud argymhellion priodol i'r Llywodraeth a'r Senedd ynghylch yr hyn y dylem ei reoleiddio.

Adolygiadau annibynnol

Cynhelir adolygiadau annibynnol parhaus o'n goruchwyliaeth o London Capital and Finance, the Connaught Income Fund Series 1 a chwmnïau cysylltiedig a chynhyrchion gwarchod cyfraddau llog. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi casgliadau amserol yr ymchwiliadau hyn a sicrhau bod gan yr Adolygwyr yr holl wybodaeth a dogfennau perthnasol i'w galluogi i ddod i'w casgliadau.

Er y bu rhywfaint o oedi oherwydd anawsterau o ran adalw a darparu data, yn ogystal â heriau a achosir gan coronafeirws, disgwylir i'r adolygiadau hyn ddod i ben erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2020/21. Byddant yn adnabod lle mae gwersi i ni a byddwn yn ymateb i'w canfyddiadau a'u hargymhellion.

Ein gwaith craidd

Er mwyn cyflawni ein hamcanion, rhoddod y Senedd amrywiaeth o ddulliau inni, a phwerau annibynnol i benderfynu ar y ffordd orau o'u defnyddio. Mae angen i ni ddefnyddio ein holl bwerau a swyddogaethau (gan gynnwys awdurdodi, goruchwyllo, gorfodi a chystadleuaeth) i gyflawni ein hamcanion, gan ddefnyddio cyfuniad ohonynt weithiau i fynd i'r afael â mater.

Rydym bob amser yn anelu at fod yn agored ac yn dryloyw ynglŷn â sut rydym yn rheoleiddio ac yn gwneud penderfyniadau. Rydym yn rhoi mwy o fanylion am ein dull o gyflawni ein swyddogaethau yn ein dogfennau dull gweithredu.

Awdurdodiad

Rydym yn defnyddio awdurdodiad fel arf i atal niwed rhag digwydd. Rydym yn pennu'r egwyddorion, y rheolau a'r safonau y mae'n rhaid i gwmnïau eu bodloni i fynd i farchnadoedd ariannol neu eu gweithredu er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn cael bargaen deg.

Rhaid i bob cwmni ac unigolyn a reoleiddir fodloni - a pharhau i fodloni – set gyffredin o safonau. Nid ydym yn caniatáu i'r rheini nad ydynt yn bodloni neu na fyddant yn parhau i fodloni'r safonau hyn, a elwir yn Amodau Trothwy, ymuno â'r farchnad ariannol berthnasol. Wrth awdurdodi, rydym yn asesu amrywiaeth o ffactorau i sicrhau bod ein gofynion sylfaenol yn cael eu bodloni. Er enghraifft, edrychwn yn ofalus ar p'un a oes gan gwmni adnoddau ariannol digonol ar gyfer y gweithgareddau a reoleiddir y mae am

eu darparu. Rydym hefyd yn ystyried a oes risgiau o niwed ym model neu ddiwylliant busnes cwmni.

Goruchwyllo

Mae ein dull o oruchwyllo yn edrych ymlaen ac yn golygu llunio barn. Rydym yn goruchwyllo cwmnïau ac unigolion i leihau niwed gwirioneddol a phosibl i ddefnyddwyr a marchnadoedd. Rydym yn cymhwysio fframwaith o egwyddorion a rheolau i sbarduno ymddygiad da ac yn helpu cwmnïau i gyrraedd safonau. Disgwylwn i gwmnïau ac unigolion gyrraedd y safonau hyn ac rydym yn eu dwyn i gyfrif pan nad ydynt yn gwneud hynny. Credwn fod diwylliant a llywodraethu cwmnïau yn dylanwadu'n sylweddol ar y ffordd y mae cwmnïau'n ymddwyn tuag at eu cwsmeriaid a'r marchnadoedd y maent yn gweithredu ynddynt. Felly, rydym yn edrych yn ofalus ar yr hyn sy'n sbarduno diwylliant gan gynnwys arweinyddiaeth, diben, llywodraethu a dull cwmnïau o reoli a gwobrwyo eu gweithwyr.

Gorfodi

Ein dull o orfodi yw sicrhau canlyniadau teg a chyfiawn lle rydym yn adnabod camymddwyn difrifol. Os na ellir mynd i'r afael â chamymddwyn difrifol, mae'n achosi colli ymddiriedaeth yn ein marchnadoedd yn ogystal â cholledion ariannol i ddefnyddwyr a chwmnïau. Ein nod yw canfod camymddwyn difrifol yn gynnar fel y gallwn ymyrryd ac atal niwed rhag parhau. Pan fyddwn yn amau bod camymddwyn difrifol eisoes wedi digwydd, rydym yn ymchwilio'n effeithlon ac yn deg i ddarganfod y ffeithiau a phenderfynu pa gamau y dylem eu cymryd. Mae gennym ystod o bwerau ataliol ac adferol i unioni pethau.

Yn ystod 2019/20 gwelsom gynnydd yn nifer yr achosion o gwmnïau ac unigolion yn ceisio cyflawni busnes heb ein hawdurdodaeth. Cawsom 20,326 o adroddiadau, y nifer uchaf a gawsom mewn un flwyddyn a chynnydd o 11% ers 2018/19. Mae'r rhain wedi arwain at amrywiaeth o ganlyniadau, gan gynnwys:

- cyhoeddi rhybuddion – 715 o rybuddion wedi'u cyhoeddi yn ystod 2019/20 – cynnydd o 37% ers 2018/19
- agor ymchwiliadau troseddol a sifil
- datrys y mater drwy fesurau gwirfoddol y cytunwyd arnynt gyda'r cwmni neu'r unigolyn
- cyfeirio materion at asiantaethau eraill lle'r oeddent yn y sefyllfa orau i weithredu neu lle'r oedd yr ymddygiad sylfaenol allan o'n cwrmpas

Roedd un o'n treialon yn cynnwys cyfarwyddwyr Our Price Records (OPR), Venor Associates Ltd (Venor), a Miller & Osbourne Associates Ltd (M&A). Roedd Our Price Records yn gwmni newydd yn ymwneud â marchnata cysylltiedig. Roedd yn codi arian drwy werthu cyfranddaliadau i'r cyhoedd gyda chymorth asiantau marchnata, gan gynnwys VAL a MOA. Cododd OPR dros £3.6m gan 259 o fuddsoddwyr y DU ond aeth i mewn i weinyddiaeth. Canfu'r llys fod OPR wedi marchnata ei gyfranddaliadau drwy ymgyrchoedd hyrwyddo ariannol ffug a chamarweiniol nad oeddent wedi'u cymeradwyo gan gwmni awdurdodedig ac gorchmynnodd i'r diffynyddion dalu'r swm hwn yn ôl mewn iawndal.

Ceir rhagor o ddata sy'n ymwneud â'n swyddogaeth orfodi [yma](#).

Cystadleuaeth

Ein hymagwedd tuag at gystadleuaeth yw sicrhau bod ein rheoliad yn sicrhau manteision cystadleuaeth mewn marchnadoedd gwasanaethau ariannol. Pan fydd cystadleuaeth yn gweithio'n dda, gall leihau costau a phrisiau, codi safonau gwasanaeth a gwella mynediad at wasanaethau ariannol. Gall hefyd ysgogi arloesedd, cynhyrchiant a thwf economaidd.

Mae ein hamcan cystadleuaeth a'n dyletswydd cystadleuaeth yn golygu bod cystadleuaeth yn rhan annatod o'n meddylfryd ar draws ein holl waith fel ein bod:

- yn cydweithio ar draws gwahanol rannau o'r FCA i feddwl yn ofalus am sut y gallai ein hymyriadau a'n rheoliadau ein hunain effeithio ar gystadleuaeth ac arloesedd
- yn ymchwilio i farchnadoedd i weld pa mor dda y maent yn gweithio i ddefnyddwyr ac ymyrryd lle bo angen i sicrhau bod cystadleuaeth yn llywio canlyniadau da i ddefnyddwyr
- yn cefnogi gallu cwmnïau i ymuno â'r farchnad a darparu cystadleuaeth fuddiol gyda chynhyrchion a gwasanaethau newydd arloesol

Mae gennym bwerau hefyd i orfodi cyfraith cystadleuaeth yr UE a (hyd at ddiwedd y cyfnod trosglwyddo) ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol. Yn ystod 2019/20 fe wnaethom ddefnyddio ein pwerau cystadlu cydamserol i barhau â'n hymchwiliad i gytundebau gwrth-gystadluol tybiedig a agorwyd gennym ym mis Mawrth 2019.

Ein blaenoriaethau

Blaenoriaethau traws-sector

Rydym yn gosod blaenoriaethau i fynd i'r afael â materion sy'n torri ar draws llawer o sectorau. Yn gyffredinol, dyma'r materion mwyaf arwyddocaol mewn gwasanaethau ariannol ac mae mynd i'r afael â hwy yn debygol o gymryd sawl blwyddyn. Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar 7 blaenoriaeth draws-sector a bennwyd gennym yn ystod 2019/20, a'r hyn rydym wedi'i wneud i atal neu leihau niwed ganddynt.

Safbwyntiau'r Sector

Mae ein Safbwyntiau Sector yn disgrifio ein dealltwriaeth o sut mae pob sector ariannol yn perfformio ac yn adnabod y meysydd lle mae'r niwed mwyaf posibl. Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi [crynodedd o'r safbwyntiau hyn](#) gan esbonio'r materion a ganfuwyd gennym. Mae'r dadansoddiad hwn yn cyfrannu at ein Cynllun Busnes a'r penderfyniadau a wnawn sy'n effeithio ar ddefnyddwyr, cyfanwydd y farchnad a chystadleuaeth.

Gweithio gyda'n partneriaid

Rydym yn gweithio'n agos gyda grwpiau defnyddwyr, cymdeithasau masnach a chyrrff proffesiynol, deddfwyr yr UE a llawer o randdeiliaid eraill.

Mae rhywfaint o'n cydweithrediad agosaf â chyrrff cyhoeddus eraill sy'n cwmpasu'r sector ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA), Banc Lloegr, y Rheoleiddiwr Systemau Talu (PSR), yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), y Gwasanaeth Arian a Phensiynau, y Rheoleiddiwr Pensiynau, Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol, y Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol, y Trysorlys a'r paneli statudol (y Panel Defnyddwyr, y Panel Ymarferwyr, y Panel Ymarferwyr Busnes Llai, Panel Ymarferwyr Marchnadoedd) a Phanel Cynghori'r Awdurdod Rhestru.

Mae ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r PRA yn nodi sut rydym yn cydlynu ein gweithredoedd a'n gweithgareddau, ac yn mesur pa mor dda rydym yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau canlyniadau ar y cyd. Gall y PRA roi feto ar ein camau gweithredu lle mae'n ystyried y gallai fygwth sefydlogrwydd ariannol. Ni chafodd y pŵer hwn ei arfer yn ystod 2019/20. Yn ystod y flwyddyn, mae materion polisi rydym wedi'u cydgysylltu yn cynnwys ymadael yr UE a coronafeirws.

Ym mis Mai 2020, fe wnaethom gyhoeddi'r [Grid Menter Reoleiddio](#) cyntaf. Mae hwn yn edrych ymlaen o 12 mis ar fentrau rheoleiddio mawr sy'n effeithio ar y sector gwasanaethau ariannol. Cynhyrchir y Grid gan y Fforwm Mentrau Rheoleiddio Gwasanaethau Ariannol – sy'n cynnwys yr FCA, y PRA, Banc Lloegr, PSR, CMA a'r Trysorlys (fel aelod sylwedydd).

Bydd yn helpu diwydiant, grwpiau defnyddwyr a'r cyhoedd yn ehangach i ddeall a chynllunio ar gyfer y mentrau rheoleiddio sydd ar y gweill a allai gael effaith weithredol sylweddol arnynt. Mae hefyd yn tynnu sylw at y mentrau hynny sydd wedi'u canslo neu eu gohirio i ysgafnhau'r baich ar gwmnïau gwasanaethau ariannol yn ystod yr argyfwng – gan gynnwys prawf straen blynyddol Banc Lloegr yn 2020 a nifer o ymgynghoriadau.

Fel rhan o'n gwaith gorfodi, rydym hefyd yn darparu cefnogaeth sylweddol i reoleiddwyr tramor ac asiantaethau gorfodi cyfraith gyda'u hymchwiliadau a'u gweithgareddau gorfodi eu hunain. Rydym yn chwarae rhan allweddol mewn ymdrechion byd-eang i fynd i'r afael â chamymddwyn yn y gwasanaethau ariannol. Yn 2019/20, cawsom dros 1,000 o geisiadau am gymorth a datgeliadau gan bartion rhyngwladol i gontractau.

Mae gan lawer o'n hymchwiliadau gyrhaeddiad byd-eang, gyda'r camymddwyn sylfaenol yr ydym yn mynd i'r afael ag ef yn cyrraedd ar draws awdurdodaethau lluosog. Mae sicrhau ein bod yn cydweithio'n effeithiol â rheoleiddwyr rhyngwladol ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn hanfodol i sicrhau canlyniadau ac rydym yn neilltuo adnoddau sylweddol i adeiladu, cynnal a chryfhau cydweithredu rhyngwladol.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda grwpiau rhyngwladol fel pwyllgor Comisiwn Sefydliad Rhyngwladol y Diogeliad (IOSCO) ar orfodi a chyfnwid gwybodaeth (C4). Mae C4 yn darparu llwyfan byd-eang i feithrin cydweithrediad a thrafodaeth rhyngwladol ar faterion gorfodi pwysig sy'n dod i'r amlwg. Ni yw Is-gadeirydd C4 ar hyn o bryd, a gwnaethom gynnal cyfarfod C4 ym mis Medi 2019 yn Llundain.

2 Ymateb i Coronafeirws

Mae pandemig coronafeirws wedi cael effaith ddinistriol. Bu farw degau o filoedd, mae gan lawer mwy broblemau iechyd parhaus erbyn hyn ac mae miliynau'n parhau i ddiodeff o'r canlyniadau ariannol. Mae coronafeirws wedi ail-lunio bywydau'r rhan fwyaf o bobl, gan gynnwys eu bywydau ariannol. Er ein bod wedi cymryd camau sylweddol ar ddechrau 2020/21 i helpu i reoli'r effaith ariannol, rydym yn disgwyl y bydd effeithiau'r argyfwng yn parhau i gael eu teimlo am fisoedd lawer. Byddwn yn parhau i addasu ein rheolau ac yn cyhoeddi canllawiau newydd wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

Rydym yn ymateb yn gyflym i oblygiadau ariannol coronafeirws er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu gwarchod a bod marchnadoedd yn parhau i weithredu'n dda. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Llywodraeth, Banc Lloegr, yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus, y Rheoleiddiwr Systemau Talu a chwmnïau ar hyn.

Yn ystod y cyfnod hwn o aflonyddwch ac ansicrwydd aruthrol, mae wedi bod yn bwysicach nag erioed i gyflawni ein hamcanion – gwarchod defnyddwyr, gwarchod a gwella cyfanrwydd marchnadoedd ariannol, a sicrhau bod cystadleuaeth yn chwarae rhan wrth gefnogi defnyddwyr.

Roedd ein [Cynllun Busnes](#), ar gyfer 2020/21, a gyhoeddwyd gennym ym mis Ebrill, yn nodi 5 blaenoriaeth i lywio ein hymateb. Y rhain oedd:

- cefnogi defnyddwyr drwy'r ergydion uniongyrchol a grëwyd gan yr argyfwng
- cadw marchnadoedd yn gweithio ac yn drefnus yn ystod digwyddiad 'ail-brisio' mawr
- cyhoeddi canllawiau brys fel bod cynlluniau'r llywodraeth, er enghraifft, yn helpu cwmnïau bach a deiliaid morgeisi
- cadw mynediad y cyhoedd at wasanaethau bancio hanfodol
- gwarchod y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas

Ein hunig flaenoriaeth oedd delio â goblygiadau coronafeirws yn gyflym ac yn effeithiol. Roedd hyn yn golygu ymyrryd yn gyflym lle gallem wneud gwahaniaeth, gan ganolbwyntio ar gefnogi defnyddwyr a oedd yn wynebu anawsterau, a rhoi'r eglurder rheoleiddiol i gwmnïau ganolbwyntio ar wasanaethu eu cwsmeriaid.

Roedd ein gwaith i ddefnyddwyr a busnesau bach yn rhoi seibiant i'w helpu i addasu i effaith coronafeirws nes bod cymorth tymor hwy gan y llywodraeth ar gael.

Roedd coronafeirws yn ei gwneud yn fwy hanfodol nag erioed y gallai defnyddwyr gael credyd addas a fforddiadwy. Gweithredasom yn gynnar i ddarparu rhyddhad dros dro wedi'i dargedu i ddefnyddwyr cynhyrchion credyd defnyddwyr cyffredin yr effeithiwyd arnynt gan coronafeirws. I ddechrau, fe wnaethom gyhoeddi canllawiau a oedd yn nodi y dylai cwmnïau ganiatáu i gwsmeriaid cardiaid credyd a chwsmeriaid benthyciadau mewn trafferthion ariannol dros dro roi'r gorau i daliadau am 3 mis a chynnig gorddrafftiau o hyd at £500 yn ddi-log i gwsmeriaid oedd a gorddrafftiau a oedd wedi'u trefnu. Yna, fe wnaethom ychwanegu darpariaeth ychwanegol ar gyfer taliadau is am 3 mis arall i ddefnyddwyr a oedd yn parhau mewn trafferthion ariannol. Estynnwyd y cynllun i gefnogi defnyddwyr y gallai coronafeirws effeithio arnynt yn ddiweddarach –

gan ganiatáu i geisiadau newydd am gymorth gael eu gwneud hyd at 31 Hydref 2020. Hefyd, fe wnaethom gyflwyno canllawiau a oedd yn nodi y dylai cwmnïau gynnig rhewi taliadau cyfnod cyfyngedig i gefnogi pobl â chyllid moduron a chytundebau credyd cost uchel yn uniongyrchol, gan gynnwys credyd tymor byr cost uchel (fel benthyciadau diwrnod cyflog), prynu'n awr a thalu'n ddiweddarach, rhentu i brynu a gwystlo. Rydym yn parhau i fonitro datblygiadau yn y farchnad gredyd yn ofalus er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio'n dda i fenthycwyr.

I gefnogi'r cyhoeddiadau a wnaed gan y Llywodraeth, i berchnogion tai a oedd yn ei chael hi'n anodd talu eu morgais oherwydd coronafeirws, fe wnaethom gyhoeddi canllawiau ar argaeledd gohiriadau taliadau morgais 3 mis, neu ohirio taliadau'n rhannol lle gellid gwneud taliadau is. Ym mis Mehefin, diweddarwyd y canllawiau hyn i ymestyn y cyfnod y gellid gofyn am ohirio a hefyd i ganiatáu i'r rhai a oedd eisoes wedi gohirio taliadau morgais ymestyn y gohiriad hwnnw am 3 mis arall. Er mwyn atal y risg i bobl golli eu cartrefi yn ystod y cyfnod hwn, nodasom yn glir ein disgwyliad bod benthycwyr morgeisi yn atal pob cam adfeddiannu, p'un a oedd coronafeirws yn effeithio ar incwm benthycwyr ai peidio. Fodd bynnag, gwnaethom yn glir hefyd efallai nad oedd gohirio taliadau yn iawn i bawb, ac os gallai cwsmeriaid barhau i wneud taliadau, y dylent wneud hynny.

I lawer o bobl, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, mae mynediad at arian parod yn hollbwysig. Buom yn gweithio'n agos gyda diwydiant a'n gwrthran reoleiddiol, yr PSR, i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol i ddefnyddwyr yn dal i gael eu darparu ac i leihau effaith cau peiriannau arian parod a chyfyngiadau'r llywodraeth oherwydd coronafeirws. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r diwydiant wrth i ni symud allan o argyfwng coronafeirws, a defnyddio data i adeiladu ar ein gwaith hyd yma i gynnal mynediad at arian parod.

Yn y farchnad yswiriant gyffredinol, mae coronafeirws wedi effeithio ar y gwerth a ddarperir gan lawer o gynhyrchion. Gofynnwyd i gwmnïau ystyried yn ofalus lle'r effeithiodd coronafeirws ar sut y gallai defnyddwyr ddefnyddio ac elwa o'u cynnyrch. Gofynnwyd hefyd i gwmnïau helpu cwsmeriaid mewn trafferthion ariannol yn sgil y sefyllfa i gynnal eu darpariaeth yswiriant. Roedd hyn yn cynnwys opsiynau megis ystyried sut y gallai newidiadau i'w hyswiriant leihau premiymau parhaus neu, ar gyfer trefniadau cyllid premiwm, cynnig gohirio taliadau.

Mae enghreifftiau eraill o'r camau a gymerwyd gennym yn cynnwys:

- Gweithio ar yswiriant tarfu ar fusnesau. Roedd hyn mewn ymateb i bryderon eang am benderfyniadau rhai cwmnïau ynghylch a oedd polisiâu'n ymdrin â'r ymyriad a achoswyd gan coronafeirws. Aethom â sampl gynrychioliadol o achosion i'r llys i sicrhau eglurder i bawb dan sylw, deiliaid polisiâu ac yswiriwr fel ei gilydd, mewn sefyllfa ddigynsail.
- Ymgynghori ar ganllawiau ychwanegol i gwmnïau talu i gryfhau'r ffordd y maent yn gofalu am arian cwsmeriaid. Cyflwynwyd y gwaith hwn yn gynharach oherwydd y pwysau a roddodd coronafeirws ar gyllid cwmnïau.
- Ysgrifennu at gwmnïau llyfrau morgais caeedig yn eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb i adolygu cyfraddau o ystyried yr heriau ariannol presennol.
- Rhoi 6 mis ychwanegol i gwmnïau weithredu dilysiad cryf gan gwsmeriaid (SCA) ar gyfer e-fasnach er mwyn lleihau'r tarfu posibl ar ddefnyddwyr a masnachwyr.
- Gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth a Banc Busnes Prydain ar newidiadau i Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws y DU i gefnogi busnesau bach a lansio'r cynllun benthyciadau adfer (BBLs) gan gynnwys cyhoeddi datganiad ar sut yr oeddent yn gweithio gyda'n rheolau ni.

I gwmnïau a marchnadoedd, gwnaethom gynyddu ein gwaith o fonitro'r farchnad a'n hymgysylltiad â chwmnïau a chyrrff masnach i sicrhau bod marchnadoedd yn parhau i weithio'n dda. Ochr yn ochr â hyn, gwnaethom ohirio gweithgarwch rheoleiddiol arfaethedig arall fel y gallai cwmnïau ganolbwyntio ar ymateb i coronafeirws.

Er mwyn deall yr effaith ar wydnwch ariannol cwmnïau, rhagfynegi'n well natur fregus cwmnïau ac asesu'r effaith bosibl ar ddefnyddwyr, fe wnaethom gasglu ddata gan tua 13,000 o gwmnïau a reoleiddir yn unigol. Rhoesom hyblygrwydd i gwmnïau dros rai gofynion rheoliadol, gan gynnwys amynedd i gwmnïau ar adroddiadau gweithredu gorau.

Darparwyd amser ychwanegol i gwmnïau a reoleiddir yn unigol i gynnal yr asesiad cyntaf o'u Personau Ardystiedig gan ymestyn y dyddiad cau o 9 Rhagfyr 2020 i 31 Mawrth 2021. Er mwyn sicrhau bod terfynau amser gweithredu'r Gyfundrefn Uwch Reolwyr ac Ardystio (SM&CR) yn parhau'n gyson, estynnwyd y dyddiad i'r rheolau ymddygiad ddod i rym ac ar gyfer cyflwyniadau data ar gyfer y Cyfeiriadur yn unol â hynny.

Cyhoeddwyd cyfres o fesurau dros dro i helpu cwmnïau i godi cyfalaf cyfranddaliadau newydd tra'n cynnal lefel briodol o warchodaeth i fuddsoddwyr. Rydym wedi cynllunio'r mesurau newydd hyn yn benodol, sy'n cynnwys teilwra'r dull o ymdrin â datganiadau cyfalaf gweithio ac adolygu gofynion rheoleiddio ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol, i fynd i'r afael â heriau'r pandemig.

Yn ogystal â'r addasiadau polisi dros dro hyn, croesawodd y Datganiad Polisi ddatganiad hefyd gan y Grŵp Rhag-brynu ar lacio'r Canllawiau ar Ddyroddiadau An-ragataliol dros dro yn ystod argyfwng coronafeirws. Roedd hefyd yn atgoffa cyhoeddwy'r o'r prospectws symlach newydd, a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2019, fel opsiwn y gall cwmnïau ei ddefnyddio ar gyfer dyroddiadau eilaidd.

Rydym wedi cyhoeddi diweddariadau rheolaidd i gwmnïau rhestredig. Mae'r rhain wedi cynnwys caniatáu oedi wrth gyhoeddi chyfrifon ariannol rhagarweiniol ac wedyn rhyddhad dros dro ar gyfer cyhoeddi datganiadau ariannol blynyddol archwiledig a datganiadau ariannol bob hanner blwyddyn. Rydym hefyd wedi cyhoeddi datganiad ar y cyd â'r Cyngor Adrodd Ariannol (FRC) a PRA, yn nodi mesurau i sicrhau llif gwybodaeth amserol a chywir i fuddsoddwyr er mwyn sicrhau y gall marchnadoedd cyfalaf weithredu'n dda.

Fe wnaethom edrych yn fanwl ar ein cynlluniau gwaith ein hunain gan ohirio gweithgareddau nad oeddent yn hanfodol i warchod defnyddwyr a chyfanrwydd y farchnad yn y tymor byr, er mwyn rhoi amser a lle i gwmnïau gefnogi eu cwsmeriaid. Gwnaethom leihau ein rhaglen o gyswllt busnes arferol yn sylweddol, gan gysylltu â chwmnïau gyda cheisiadau a oedd yn hanfodol i fusnes yn unig neu am eu hymateb i'r sefyllfa bresennol.

Fe wnaethom ddewis parhau i ddiwygio'r rheoliadau, yn enwedig gweithio i helpu'r bobl fwyaf bregus a rhai rhaglenni newid hirdymor mawr, megis ein gwaith trawsnewid ein hunain. Fodd bynnag, gwnaethom ohirio'r rhan fwyaf o'n gweithgareddau polisi, gan gynnwys symud y terfynau amser ar gyfer pob ymgynghoriad agored a galw am fewnbwn (hyd at 1 Hydref 2020). Mae ein gwefan rhoi rhestr lawn o'r gwaith yr effeithir arno. Byddwn yn parhau i adolygu ein cynllunio yn y meysydd hyn.

Mae mwy o wybodaeth am y mesurau hyn ym mhenodau sector yr adroddiad hwn ac yn yr adran benodol ar coronafeirws ar ein gwefan.

3 Ymadael â'r UE ac ymgysylltu rhyngwladol

Rydym wedi ymrwmo i gynnal ein dylanwad fel rheoleidiwr byd-eang blaenllaw, ac i gryfhau ein hymgysylltiad rhyngwladol. Rydym wedi parhau i ymgysylltu a chydweithredu'n agos ag awdurdodau rheoleiddio rhyngwladol, awdurdodau cymwys cenedlaethol, a'r Awdurdodau Goruchwylio Ewropeaidd (o fewn telerau'r Cytundeb Ymadael ers mis Ionawr 2020).

Cydweithredu trawsffiniol

Rydym yn ceisio llunio'r agenda reoleiddio fyd-eang a pholisi rhyngwladol drwy ddatblygu perthynas waith agos ac adeiladol gyda rheoleiddwyr, llywodraethau a rhanddeiliaid eraill rhyngwladol.

Mae ein gwaith wedi cynnwys ymadael â'r UE a materion ehangach sy'n effeithio ar reoleiddio gwasanaethau ariannol trawsffiniol, gan gynnwys gwaith pwysig ar effaith coronafeirws. Ers i'r pandemig ddechrau, rydym wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â chyrrff rhyngwladol a chyrrff yr UE, yn ogystal â'n cymheiriaid byd-eang, i rannu gwybodaeth am ddatblygiadau yn y farchnad a chydlynu ein hymatebion rheoleiddiol yn ofalus. Lle bynnag y bo modd, rydym wedi pwysu am ymatebion rhyngwladol cydgysylltiedig, gan gynnwys sicrhau ymrwymiad cryf gan reoleiddwyr i gefnogi marchnadoedd agored a threfnus yn ystod y cyfnod hwn, ac i gefnogi buddiannau busnesau a defnyddwyr.

Mae'r ymateb domestig a rhyngwladol wedi cynnwys darparu hyblygrwydd goruchwylio lle y bo'n briodol, gohirio newidiadau rheolau a drefnwyd a fyddai wedi rhoi baich gweithredol ychwanegol ar gwmnïau, ac ail-flaenoriaethu gwaith nad yw'n hanfodol. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â chymheiriaid rhyngwladol i ddod i gytundeb ar bwyntiau fel goblygiadau posibl coronafeirws ar gyfer pontio LIBOR. Mae'r dulliau yr ydym ni a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus wedi'u defnyddio i adrodd rheoleiddiol, adroddiadau ariannol corfforaethol, a thriniaethau cyfrifyddu gohirio taliadau wedi'u cydgysylltu â chyrrff perthnasol yr UE a chyrrff rhyngwladol.

Yn ystod 2019/20, rydym hefyd unwaith eto wedi canolbwyntio ar gynnal a hyrwyddo safonau rhyngwladol effeithiol a fydd yn parhau i fod yn sail i drefn y DU, drwy ein hymgysylltiad rhyngwladol parhaus. Mae hyn wedi cynnwys cymryd rhan weithredol mewn gwaith sy'n cwmpasu nifer o sectorau FCA gan gyrff rhyngwladol fel IOSCO, Yr Awdurdod Sicrhau a Marchnadoedd Ewropeaidd, y Ffederasiwn Busnesau Bach a Chymdeithas Ryngwladol y Goruchwylwyr Yswiriant.

Ymadael â'r UE

Gadawodd y DU yr Undeb Ewropeaidd (UE) 31 Ionawr 2020 gyda Chytundeb Ymadael. Mae wedi dechrau ar gyfnod trosglwyddo sydd i fod i fod weithredu tan 31 Rhagfyr 2020. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Trysorlys a Banc Lloegr i ddod â deddfwriaeth yr UE sydd wedi dod i rym yn ystod y cyfnod trosglwyddo ar y tir a byddwn yn diwygio ein Llawlyfr yn unol â hynny.

Helpu cwmnïau llai i baratoi ar gyfer Brexit

Cyn y dyddiad ymadael ar 31 Ionawr 2020, rydym yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn barod ar gyfer pob senario. Yn ogystal â rhoi cyngor technegol i'r Llywodraeth, gwnaethom yn siŵr hefyd ein bod yn cyfathrebu'n glir â chwmnïau ar y camau yr oedd angen iddynt eu cymryd i baratoi ar gyfer amrywiaeth o ganlyniadau posibl, fel y gallent nodi a rheoli risgiau i ddefnyddwyr ac i farchnadoedd. Dangosodd Arolwg 2019 y Panel Ymarferwyr annibynnol fod ein cyfathrebu wedi cyrraedd cwmnïau mwy yn llwyddiannus, gyda 97% o gwmnïau mwy wedi cael gafael ar ein canllawiau ar baratoi ar gyfer ymadael â'r UE. Ond roeddem yn pryderu bod yr arolwg wedi canfod mai dim ond 50% o gwmnïau llai a oedd wedi gwneud hynny.

Cau'r bwch cyfathrebu

Er mwyn cau'r bwch hwn, gwnaethom gynyddu nifer y cyfathrebiadau â chwmnïau llai, a'r sianelau ar eu cyfer, gan roi iddynt y lefel o fanylion nad oedd ganddynt yr adnoddau i'w cael eu hunain yn brydlon o bosib.

Fe wnaethom ganolbwyntio ar y camau allweddol yr oedd angen i gwmnïau eu cymryd cyn ymadael, gan dynnu sylw at newidiadau rheoleiddiol a chyfundrefnau dros dro yn y DU. Lle'r oedd cwmnïau'n gwneud busnes yn yr UE, fe wnaethom eu hatgoffa i wirio cyfreithiau lleol awdurdodaethau eraill, ac i ystyried buddiannau eu cwsmeriaid bob amser. Gwnaethom gyflwyno sawl araith allweddol, a greodd sylw yn y cyfryngau a'r wasg fasnach. Gwnaethom gynyddu'r defnydd o sianelau sy'n bodoli eisoes, megis ein Crynodeb Rheoleiddio ar-lein – wedi'i e-bostio at gwmnïau – a chyfarfodydd y corff masnach i ledaenu negeseuon o fewn sectorau penodol. Crëwyd adran Brexit bwrrpasol hefyd ar ein gwefan i wneud gwybodaeth yn haws i ddod o hyd iddi, creu fideos ar-lein i esbonio'r goblygiadau a'r materion i gwmnïau, cynnal ymgyrch hysbysebu digidol wedi'i thargedu a defnyddio cyfathrebiadau sector-benodol i gyrraedd y cwmnïau hyn.

Mewn ymchwil a wnaed gan BritainThinks am farn rhanddeiliaid am ein heffeithiolrwydd, canmolodd y rhan fwyaf o randdeiliaid natur agored, cysondeb a phrydlondeb ein cyfathrebiadau am Brexit.

Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i sicrhau ein bod ni, cwmnïau a defnyddwyr mor barod â phosibl ar gyfer diwedd y cyfnod trosglwyddo a thu hwnt.



Rydym wedi bod yn cynorthwyo'r Llywodraeth ar amrywiaeth o faterion i helpu i sicrhau parhad i ddefnyddwyr, i gwmnïau sy'n gweithredu yn y DU ac i warchod cyfanrwydd marchnadoedd y DU cyn hired ag sy'n bosibl. Mae hyn yn cynnwys paratoi mesurau trosiannol, megis y Drefn Caniatadau Dros Dro (TPR) ar gyfer cwmnïau sy'n seiliedig yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) sy'n pasbortio i'r DU a'r Drefn Caniatadau Marchnata Dros Dro (TMPR) ar gyfer cronfeydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n cael eu marchnata i'r DU.

Cyn i'r DU adael yr UE, dywedodd dros 1,000 o gwmnïau o'r AEE wrthym eu bod am ddefnyddio'r TPR. Yn ogystal, dywedodd dros 600 o reolwyr cronfeydd wrthym y byddent am barhau i farchnata dros dro dros 9,000 o gronfeydd/is-gronfeydd buddsoddi sy'n huanu o'r AEE o dan y TMPR. I ddefnyddwyr, bydd y TPR, y TMPR a'r cyfundrefnau cysylltiedig yn helpu i osgoi tarfu ar gynhyrchion a gwasanaethau a ddarperir gan gwmnïau o'r AEE.

Mae'r Trysorlys bellach wedi cadarnhau y bydd y TPR a'r TMPR ar gael o ddiwedd y cyfnod trosglwyddo. Rydym yn parhau i baratoi hyn a mesurau wrth gefn eraill ar gyfer diwedd y cyfnod trosglwyddo. Rydym yn gweithio'n agos gyda hwy i sicrhau bod mesurau deddfwriaethol perthnasol i ddatrys unrhyw faterion sy'n deillio o ymadael â'r UE yn cael eu cyflawni.

Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r Trysorlys a Banc Lloegr, gan roi cyngor technegol am berthynas yr UE-DU yn y dyfodol.

Er na allwn ddileu'n llwyr y risg o darfu posibl ar ddiwedd y cyfnod trosglwyddo, mae ein gwaith wedi lleihau'r risg o niwed ac wedi hyrwyddo parhad marchnadoedd agored a sefydlog.

Ymgysylltu â diwydiant a monitro newid

Rydym wedi cynnal lefel uchel o ymgysylltu â diwydiant yn y cyfnod cyn i'r cyfnod trosglwyddo ddod i rym ac wedi hynny. Rydym wedi canolbwyntio ar annog parodrwydd cwmnïau a defnyddwyr ar gyfer newidiadau a fydd yn digwydd gyda diwedd y cyfnod trosglwyddo. Yn arolwg blynyddol 'BritainThinks' y llynedd o ystod eang o'n rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o ddiwydiant a grwpiau eraill, roedd Brexit yn amlwg fel un a oedd yn faes blaenoriaeth allweddol i'r FCA, a chanmolwyd ein gwaith yn y maes hwn am ei gydlyniant a'i gysondeb.

Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r diwydiant ar ein gweithgarwch rhyngwladol cydgysylltiedig ar coronafeirws, o ystyried rôl hanfodol y diwydiant o ran cefnogi defnyddwyr, busnes a'r economi yn ystod y cyfnod.

Byddwn yn parhau â'n hymgysylltiad agored â diwydiant a defnyddwyr yn y flwyddyn i ddod drwy amrywiaeth o gyfryngau.

4 Ein blaenoriaethau traws-sectorol

Nodwyd ein blaenoriaethau allweddol a'n gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2019/20 o dan 7 blaenoriaeth sy'n ymdrin â nifer o sectorau ariannol. Yn y bennod hon, rydym yn adrodd ar sut rydym wedi mynd i'r afael â'r materion hyn ac wedi monitro newidiadau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Diwylliant a llywodraethu cwmnïau

Mae diwyllianau iach yn chwarae rhan hollbwysig o ran lleihau'r potensial ar gyfer niwed gan gwmnïau i ddefnyddwyr a marchnadoedd. Gall diwyllianau iach ysgogi arloesedd a gwerth i ddefnyddwyr, elw cynaliadwy i gyfranddalwyr a gweithle boddhaus i weithwyr.

Er mwyn deall diwyllianau cwmnïau, rydym yn edrych ar ba mor effeithiol ydynt o ran lleihau'r niwed posibl o'u modelau a'u strategaethau busnes.

Disgwyliwn i gwmnïau y mae coronafeirws wedi effeithio arnynt barhau i adolygu eu trefniadau llywodraethu, ac mae hyn yn cynnwys dyrannu cyfrifoldebau am ymateb i coronafeirws yn y ffordd orau sy'n galluogi iddynt reoli'r risgiau y maent yn eu hwynebu.

Ein blaenoriaethau allweddol

- gweithio gyda chwmnïau i hyrwyddo a sefydlu diwyllianau iach, gan ganolbwyntio ar 4 sbardun ymddygiad – pwrpas, arweinyddiaeth, dull o wobrwyo a rheoli pobl, a llywodraethu
- cydnabyddiaeth ariannol – rydym yn adolygu trefniadau cydnabyddiaeth ariannol cwmnïau i nodi a ydynt yn annog staff i weithredu mewn ffyrdd a allai niweidio defnyddwyr neu farchnadoedd
- ehangu'r Gyfundrefn Uwch Reolwyr ac Ardystio (SM&CR) i bob cwmni sydd wedi'i awdurdodi gan FSMA, a dwyn unigolion i gyfrif o dan SM&CR pan fydd pethau'n mynd o chwith

Cefnogi trawsnewid diwylliant

in nod yw gwella ein dealltwriaeth gyfunol o'r ffactorau sy'n sbarduno diwyllianau iach ac annog cwmnïau i reoli eu diwyllianau'n weithredol, gan wneud newidiadau i leihau'r potensial ar gyfer niwed i ddefnyddwyr a marchnadoedd.

Rydym wedi parhau i weithio gyda chwmnïau a'r gymuned academaidd drwy archwilio pynciau allweddol sy'n effeithio ar ddiwyllianau iach.

Yn 2019/20, darlledwyd 3 drafodaeth panel ar ffurf gweminarau gyda phanelwyr arbenigol i dros 2,000 o gyfranogwyr. Cynhaliwyd 2 CultureSprints hefyd gyda chyfranogwyr yn cydweithio i gynllunio atebion arloesol i drawsnewid diwyllianol yr aethant â hwy'n ôl at eu cwmnïau i roi cynnig arni'n ymarferol wedyn. Mynychodd dros 200 o bobl ddigwyddiadau dilynol CultureSprint hefyd i rannu eu cynnydd, gan adrodd am effaith gadarnhaol o ran ysgogi gwell ymddygiadau a diwylliant.

Ym mis Gorffennaf 2019, lanswyd tudalen arddangos LinkedIn ar Drawsnewid Diwylliant i rannu adnoddau ar yrru diwyllianau iach gyda phob cwmni. Trefnwyd i'n hail Gynhadledd Trawsnewid Diwylliant gael ei chynnal ym mis Mawrth 2020. Mae hyn wedi'i ohirio oherwydd coronafeirws. Bydd yn digwydd yn awr yn 2020/21.

Y canlyniadau yr ydym yn ceisio'u cyflawni yw gwell diwylliant yn y diwydiant gwasanaethau ariannol a llai o achosion o gamymddwyn gan arwain at niwed gwirioneddol neu bosibl. Gellir defnyddio ymddiriedaeth y cyhoedd fel un mesur o'r rhain.

Dengys canlyniadau ein harolwg Financial Lives mai dim ond 35% o oedolion y DU yn 2020 sy'n cytuno â'r datganiad 'Rwy'n teimlo bod y rhan fwyaf o gwmnïau ariannol yn onest ac yn dryloyw yn y ffordd y maent yn fy nhrin.' A dim ond 42% o oedolion y DU sy'n cytuno â'r datganiad 'Mae gennyf hyder yn niwydiant gwasanaethau ariannol y DU.' Fodd bynnag, mae'r ddau ganlyniad wedi gwella ers 2017, o 31% a 38% yn y drefn honno. Gobeithiwn y bydd y ffaith y byddwn yn canolbwyntio'n ddi-baid ar yr angen i gwmnïau yrru a chynnal diwyllianau iachach yn un elfen a fydd yn cyfrannu at y gwelliant hwn, a gobeithiwn weld cynnydd parhaus mewn ymddiriedaeth a hyder mewn gwasanaethau ariannol.

Archwilio rôl 'pwrpas' wrth greu diwyllianau iach

Mae pwrpas cwmni yn ganolog i'w fodel busnes, ei strategaeth a'i ddiwylliant a dylai chwarae rhan sylfaenol yn y gwaith o leihau niwed posibl. Ein nod yw sicrhau bod cwmnïau a'u harweinyddwyr yn deall pwysigrwydd diffinio a chyflawni eu pwrpas eu hunain ac yn gwneud newidiadau cadarnhaol i'w diwyllianau o ganlyniad. Er mwyn cefnogi hyn, sefydlwyd gweithgor gennym i archwilio sut i yrru'r pwrpas yn y sector unigol a'r diwydiant yn ei gyfanrwydd.

Cyfarfu'r grŵp 5 gwaith rhwng mis Mai 2019 a mis Ionawr 2020, ac roedd yr aelodau'n cynnal cyfarfodydd ar gyfer eu sectorau eu hunain hefyd. Gwnaeth y trafodaethau hyn gyfraniad gwerthfawr i'r drafodaeth ac fe'u hadlewyrchwyd yn y Papur Trafod ar yrru diwyllianau pwrpasol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020 gyda'r nod o rannu mewnwelediad ac annog trafodaethau ehangach.

Gwerthuso arferion cydnabyddiaeth ariannol cwmnïau

Ar draws gwahanol sectorau, rydym wedi gweld enghreifftiau o drefniadau cymell sy'n canolbwyntio'n bennaf ar fesurau ariannol wrth asesu perfformiad staff – heb ystyried ffactorau ehangach fel ymarwedd, ymddygiad a chanlyniadau da i gwsmeriaid.

Disgwyliwn i gwmnïau reoli'r risgiau posibl o'u cynlluniau cymell a sut y maent yn rheoli perfformiad eu staff er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o niwed i ddefnyddwyr. Rydym yn parhau i asesu a gwerthuso arferion cydnabyddiaeth ariannol cwmnïau ac yn mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n arwain at niwed mewn cwmnïau.

Ymestyn y SM&CR i bob cwmni sydd wedi'u hawdurdodi gan FSMA

Ar 9 Rhagfyr 2019, estynnwyd y Weithdrefn Uwch Reolwyr ac Ardystio (SM&CR) i bron pob cwmni sydd wedi'i awdurdodi gan FSMA. Nod y SM&CR yw cryfhau cyfanrwydd y farchnad drwy system sy'n lleihau niwed i ddefnyddwyr drwy alluogi i gwmnïau a rheoleiddwyr ddwyn pobl i gyfrif. Mae'n rhan sylfaenol o'n hymgyrch i drawsnewid diwylliant mewn gwasanaethau ariannol.

Ei nod yw gwella ymddygiad drwy osod safonau sylfaenol ar gyfer pawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau ariannol a dod ag eglurder ynghylch pwy sy'n atebol am beth.

Rydym hefyd yn disgwyl lleihau niwed drwy:

- Cymhwyso'r Rheolau Ymddygiad, gofynion adrodd cysylltiedig ac asesiadau o addasrwydd unigolion.
- Hyrwyddo cystadleuaeth fwy effeithiol. Credwn fod cwmnïau sy'n gweithredu er lles gorau defnyddwyr yn fwy tebygol o gael busnes, gyrru cystadleuaeth gryfach a chynhyrchion gwell a rhatach i ddefnyddwyr.
- Cynyddu atebolrwydd. Dylai hyn arwain at wneud penderfyniadau gwell gan gwmnïau, torri costau ac arwain at gynhyrchion o ansawdd gwell.

Gwnaethom newidiadau hefyd i'r SM&CR a chyhoeddwyd yr eglurhad yr oedd cwmnïau wedi gofyn amdano. Roedd hyn yn cynnwys diwygio cwmpas y swyddogaeth ymdrin â chleientiaid ac egluro sut mae SM&CR yn berthnasol i'r swyddogaeth gyfreithiol. Ymgynghorwyd ar y rhain ym mis Ionawr 2019 a gwnaethom reolau terfynol ym mis Gorffennaf 2019.

Mae gan gwmnïau sydd newydd ddod yn destun y SM&CR gyfnod trosiannol i ddarparu hyfforddiant staff ar y Rheolau Ymddygiad, ac ardystio bod cyflogaion perthnasol yn addas ac yn briodol. Rydym yn parhau i gefnogi cwmnïau drwy gyfathrebu, ymgysylltu a hyfforddi. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gall cwmnïau gydymffurfio â gofynion y gyfundrefn.

Gwella'r Gofrestr

Y Gofrestr Gwasanaethau Ariannol yw'r system a ddefnyddiwn i wneud gwybodaeth am y cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio a'r unigolion y mae'r FCA a'r PRA wedi'u cymeradwyo yn gyhoeddus. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i lansio fersiwn newydd, gwell o'r Gofrestr, a gynlluniwyd i sicrhau mwy o eglurder a dealltwriaeth gan ddefnyddwyr a defnyddwyr eraill i sicrhau eu bod yn llai tebygol o gael eu niweidio gan gamymddwyn neu sgamiau.

Mae'r gwelliannau yn gwneud y Gofrestr yn haws i'w defnyddio, yn gwella ansawdd data ac yn darparu mwy o wybodaeth. Yn ystod 2020/21 bydd yn ofynnol i gwmnïau ddiweddarau eu data personau ardystiedig ac asessedig yn rheolaidd ar gyfeiriadur newydd.

Chwythu'r chwiban

Erys adroddiadau chwythu'r chwiban yn ffynhonnell wybodaeth hanfodol ac unigryw ar gyfer ein gwaith. Maent yn ein helpu i ddeall yn well ymddygiad y cwmnïau yr ydym yn eu rheoleiddio, i oruchwylio'n fwy effeithiol, ac yn ein camau gorfodi.

Er mwyn sicrhau bod chwythwyr chwiban yn cael eu trin yn gyson ac yn deg, rydym wedi cynyddu adnoddau yn ein tîm chwythu'r chwiban penodedig ac wedi cyflwyno hyfforddiant i sicrhau bod ein staff, sy'n ystyried gwybodaeth chwythu'r chwiban, yn gweithredu arno'n briodol. Rydym hefyd wedi parhau i adolygu a mireinio ein harferion, er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal cyfrinachedd chwythu'r chwiban, yn olrhain gwybodaeth chwythu'r chwiban wrth iddi gael ei rhannu ar draws yr FCA ac yn manteisio i'r eithaf ar y mewnwelediad a ddarperir.

Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020 llwyddwyd i reoli ac asesu 1,153 o adroddiadau chwythu'r chwiban. Roedd y rhain yn cynnwys 2,983 o honiadau ar wahân.

Ar ddiwedd mis Mehefin 2020 roedd y 1,153 o adroddiadau wedi arwain at y canlyniadau a ganlyn:

- mewn 8 achos, cymerwyd camau sylweddol i liniaru niwed
- mewn 210 o achosion, cymerwyd camau i liniaru niwed
- Helpodd 137 o achosion i lywio ein gwaith ac roeddent yn berthnasol i atal niwed, ond ni arweiniodd at unrhyw gamau penodol
- Nid ystyriwyd bod 107 o achosion yn berthnasol i atal niwed
- Mae 691 o achosion yn dal i gael eu hasesu i bennu eu canlyniad

Eiliadau bach sy'n sbarduno newid diwylliant

Er bod diwylliannau iach yn lleihau'r potensial ar gyfer niwed i ddefnyddwyr a marchnadoedd, gall deall sut i'w creu fod yn her. Mae llawer o gwmnïau'n aml yn gweld yr ateb fel un sy'n lansio rhaglenni newid diwylliant ar raddfa eang. Rydym am eu hannog i arbrofi gyda syniadau, a chanolbwyntio ar yr 'eiliadau' bach – annog newidiadau unigol i gael effaith fawr ar y cyd, yn hytrach na cheisio newid diwylliant ar yr un tro.

Mae ein rhaglen CultureSprints yn cyflwyno cyfres o ddigwyddiadau datrys problemau, gan ddod â chynrychiolwyr cwmnïau ac arbenigwyr o wahanol feysydd at ei gilydd i gydweithio. Byddant yn archwilio syniadau ac yn datblygu atebion ymarferol wedi'u targedu i heriau penodol i ddiwylliannau iach. Cytuna'r cyfranogwyr i fynd ag o leiaf un o'r atebion yn ôl i'w cwmnïau i arbrofi gyda hwy'n ymarferol ac adrodd yn ôl.

CultureSprints yn 2019/20

Mae'r modd y caiff staff eu cydnabod a'u gwobrwyo yn cael effaith fawr ar eu hymddygiad, ac mae'n anochel mai rheolwyr yw'r rhai sy'n gweithredu newid yn eu timau. Felly eleni, cynhaliwyd 2 CultureSprints yn archwilio sut i gefnogi a grymuso rheolwyr i drawsnewid diwylliant, a sut i yrru diwylliannau iach drwy gymhellion a chydabyddiaeth anariannol. Roedd y ddau wedi'u gordanysgrifio, cymerodd tua 30 o arweinwyr o gwmnïau ac 20 arbenigwr arall ran ym mhob Sprint, gan ddatblygu 17 o atebion i'w cymryd yn ôl a'u profi.

Rydym am i drafodaeth ar y pynciau hyn gyfrannu at feddwl a gweithredu ehangach ar draws gwasanaethau ariannol. Felly darlledwyd 2 weminar ar y themâu hyn hefyd, gyda thros 1,000 o bobl yn dysgu o fewnwelediad panel o arbenigwyr.

Hefyd, daeth y ddau ddigwyddiad dilynol a gynhaliwyd gennym eleni â chyfranogwyr o Sbrintiau blaenorol yn ôl i rannu eu cynnydd. Cyhoeddwyd rhai o'r atebion ar rymuso rheolwyr fel y gall pob cwmni elwa arnynt a byddwn yn cyhoeddi mwy eleni.

Mae adborth o'r digwyddiadau hyn yn galonogol. Mae'r cyfranogwyr yn adrodd am fanteision o'r atebion a ddatblygwyd ac o ddull newydd o newid diwylliant y gallant ei weithredu yn eu cwmnïau.

Rydym yn monitro sut mae diwylliant yn gwella drwy oruchwylio cwmnïau, gan ganolbwyntio ar ba mor effeithiol y mae'r 4 sbardun diwylliant - pwrpas, arweinyddiaeth, dull o wobrwyo a rheoli pobl, a llywodraethu – yn lleihau'r niwed posibl o fodelau a strategaethau busnes cwmnïau.



Gwytnwch gweithredol cwmnïau

Mae gwytnwch gweithredol yn rhan annatod o warchod system, sefydliadau a defnyddwyr ariannol y DU. Rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau eraill i geisio cynnal parhad gwasanaethau beth bynnag fo'r achos o darfu. Mae tarfu gweithredol yn digwydd. Rydym yn canolbwyntio ar barhad y cyflenwad o'r cynhyrchion a'r gwasanaethau ariannol y mae pobl, busnesau a'r economi ehangach yn dibynnu arnynt fwyaf.

Mae gwytnwch gweithredol wedi dod yn bwysicach fyth yn ystod y pandemig presennol, fel y gall gwasanaethau i fusnesau a defnyddwyr barhau ac i'r rhan fwyaf o staff cwmnïau sy'n gweithio gartref. Gan fod cwmnïau wedi gweithredu eu cynlluniau parhad busnes, mae seiberfwlio yn ceisio manteisio ar y sefyllfa.

Yn ystod yr ymateb i coronafeirws, a thu hwnt, rydym am weld system ariannol wydn sy'n gallu cyflenwi gwasanaethau pwysig yn well yn ystod digwyddiadau o darfu ac a all hefyd adfer yn effeithiol. Mae hyn yn golygu llai o ddigwyddiadau gweithredol ac amseroedd toriadau byrrach. Pan fydd pethau'n mynd o chwith dylai cwmnïau ymateb yn brydlon, gan gyfathrebu'n glir â chwsmeriaid a marchnadoedd. Drwy sicrhau parhad gwasanaethau hanfodol a lleihau colledion gwasanaeth, rydym yn lliniaru'r niwed a achosir i ddefnyddwyr a chyfranogwyr y farchnad.

Ein blaenoriaethau allweddol

- bod yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwyliwn gan gwmnïau drwy ein papurau ymgynghori a pholisi sy'n dilyn ein [Papur Trafod Gwytnwch Gweithredol](#)
- od yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwyliwn gan gwmnïau i wella'r ffordd y maent yn rheoli risgiau o ddefnyddio darparwyr gwasanaethau trydydd parti
- darganfod mwy am arferion rheoli newid cwmnïau a pham eu bod yn achosi lefel uchel o ddigwyddiadau a gofnodwyd
- asesu galluoedd seiber cwmnïau a mynd i'r afael â meysydd lle gall cwmnïau wella eu gwytnwch, gan gynnwys meysydd sy'n berthnasol i agenda troseddau economaidd y Llywodraeth

Ymateb Papur Trafod Gwytnwch Gweithredol

Ym mis Rhagfyr 2019, ynghyd â Banc Lloegr, fe wnaethom gyhoeddi [crynodeb polisi a Phapur Ymgynghori](#) on how firms can strengthen their operational resilience. These proposals will improve how firms can strengthen their operational resilience. Bydd y cynigion hyn yn gwella diogelwch defnyddwyr a chyfanrwydd y farchnad drwy wella'r ffordd y mae gwasanaethau busnes ar gael yn barhaus a chyflenwi gwasanaethau busnes newydd i ddefnyddwyr yn cael eu sicrhau, yn ogystal â helpu i feithrin gwytnwch y farchnad gwasanaethau ariannol er mwyn parhau i weithredu mor effeithiol â phosibl ar ôl digwyddiadau tarfu. Mae ein cynigion hefyd yn hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol gan y gallai defnyddwyr fod yn fwy tebygol o ddewis neu aros gyda chwmnïau sy'n fwy gwydn i ddigwyddiadau tarfu gweithredol.

O dan ein cynnig byddwn yn disgwyl i gwmnïau weithredu lle rydym yn nodi gwendidau mewn gwytnwch gweithredol, er enghraifft, drwy fuddsoddi mewn gwella prosesau, gwell seilwaith, mynd i'r afael â gwendidau mewn systemau etifeddol neu wella cynlluniau wrth gefn.

Gwyddom fod y sefyllfa bresennol yn golygu y bydd trefniadau presennol cwmnïau yn cael eu profi. Rydym wedi ymestyn y cyfnod ymgynghori hyd at 1 Hydref 2020 er mwyn caniatáu i gwmnïau ganolbwyntio ar y cymorth hanfodol sydd ei angen ar gwsmeriaid yn ystod y pandemig. Bydd hyn yn cael effaith gyfatebol ar pryd y byddwn yn cyhoeddi'r rheolau terfynol mewn Datganiad Polisi, sydd bellach yn debygol o symud i hanner cyntaf 2021.

Rydym wedi cwblhau ein cylch cyntaf o asesiadau o wytnwch technoleg a seiber y cwmnïau sy'n cael yr effaith fwyaf. Mae'r rhain yn rhoi gwaelodlin i fesur cynnydd y cwmnïau hyn. Mae'r ffordd y maent yn unioni gwendidau a adnabuwyd yn rhan o'n strategaeth ar gyfer goruchwylio cwmnïau.

Mae'r asesiadau hyn, ynghyd ag adroddiadau y cwmnïau eu hunain i ni, hefyd yn ein helpu i adnabod meysydd penodol o wendid a chryfder, a monitro tueddiadau sy'n benodol i sectorau. Yn ystod 2019/20, fe wnaethom adnabod 2 faes allweddol ar gyfer gwaith pellach: trydydd partion a rheoli newid.

Asesu defnydd cwmnïau o ddarparwyr gwasanaethau trydydd parti

Fe wnaethom adnabod mai materion gyda thrydydd partion oedd achos sylfaenol 16% o'r digwyddiadau a gofnodwyd yn 2019/20. Drwy ein gwaith asesu goruchwylio, rydym wedi gweithio i ddeall yn well arwyddocâd darparwyr gwasanaethau trydydd parti ac allanol, a'r ddibyniaeth arnynt, ar gyfer darparu gwasanaethau busnes pwysig.

Mae ein gwaith wedi dangos bod rhai cwmnïau yn rheoli eu darparwyr gwasanaethau trydydd parti yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw cwmnïau eraill yn gwneud hyn ac o ganlyniad, mae ganddynt wasanaethau llai gwydn a'r prif achosion o niwed yw:

- Goruchwyliaeth aneffeithiol gan gwmnïau o'u cyflenwyr gwasanaethau gan arwain at ddiffygion o fewn systemau a rheolaethau.
- Methiant cwmnïau i ddeall eu dibyniaeth yn llawn ar drydydd partion ar gyfer darparu gwasanaethau busnes pwysig ac i liniaru'r risgiau gweithredol cysylltiedig yn ddigonol.
- Methiannau mewn agweddau eraill ar ddarparu gwasanaethau disgwylidig gan gynnwys rheoli newid, trefniadau parhad busnes, goruchwylio'r gadwyn gyflenwi estynedig a seiberamddiffyn.

Rydym wedi canfod bod dibyniaeth gynyddol ar drydydd partion gyda chwmnïau newydd yn dibynnu'n drwm arnynt a dibyniaeth gynyddol ar nifer fach o ddarparwyr ar gyfer gwasanaethau penodol (e.e. meddalwedd rhaglenni safonol y diwydiant, gwasanaethau technoleg arbenigol, cyfrifiadura cwmwl). Mae'r tueddiadau hyn yn cynyddu cymhlethdod modelau busnes ac felly'n codi risg gweithredol mewn cwmnïau i lefelau newydd.

Mae ffocws ar bwysigrwydd contractio allan a darparu gwasanaethau trydydd parti eraill i ddarparu gwasanaethau busnes pwysig yn gadarn wedi'i ymgorffori yn y Papur Ymgynghori Gwytnwch Gweithredol. Dylai hyn annog cwmnïau i ymgysylltu'n well, sydd wedi'i dargedu'n well, gyda darparwyr gwasanaethau trydydd parti ar gontract allanol y mae'r gwasanaethau hynny'n dibynnu arnynt.

Adolygu ein disgwyliadau ar gyfer rheoli newid

Ein nod yw deall yn well pam mai rheoli newid yw'r achos mwyaf o ddigwyddiadau technoleg a adroddwyd i ni. Rydym wedi bod yn gweithio gyda sampl o gwmnïau i gasglu metrigau ansoddol a meintiol, ynghyd â holiadur cyfrinachol ar gyfer aelodau'r bwrdd.

Mae ein dadansoddiad cychwynol o'r data hwn wedi ein helpu i ddeall yn well pam bod cwmnïau wedi graddio eu hunain yn aeddfed yn y maes hwn. Erbyn diwedd 2020 bwriadwn gynnal cyfarfod gyda chyfranogwyr a chwmnïau technoleg blaenllaw i drafod yr heriau a adnabuwyd gan ein dadansoddiad a lledaenu arfer gorau. Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad fel y gall cwmnïau eraill ddeall yr hyn a ganfuwyd gennym a dysgu o hyn.

Hacio moesegol i brofi gwytnwch a gwaith goruchwylio ar seiberfwlio

Rhaid diogelu defnyddwyr a chyfranogwyr y farchnad rhag seiberfwlio a bod yn hyderus y gellir ymddiried mewn cwmnïau gyda'u data. Rydym am i gwmnïau adnabod eu hasedau allweddol yn well, deall eu bod yn agored i seiberfwlio a phenderfynu lle gellir gwneud gwelliannau pellach.

Ynghyd â Banc Lloegr, defnyddiwyd ein dull rheoleiddio CBEST i asesu'r cwmnïau sy'n cael yr effaith fwyaf. Byddwn yn profi 88 o gwmnïau dros gyfnod o 5 mlynedd ac, ar y cyd â'r PRA, rydym wedi cwblhau 18 o brofion CBEST hyd yma. Mae pandemig coronafeirws wedi effeithio ar brofion gyda rhywfaint o effaith ar amserlenni.

Rydym atal ein gwaith aml-gwmni arfaethedig i ddeall gwendidau cwmnïau'n well o ran adnabod eu hasedau allweddol, canfod seiberfwlio ar yr asedau hyn a sut y gallant wella gwytnwch. Byddwn yn adolygu'r penderfyniad hwn unwaith y bydd y galwadau ar gwmnïau o'r pandemig presennol wedi dod i ben.

Cyfathrebu â chwmnïau llai

Rydym am weld deilliant lle mae cwmnïau llai yn dod yn fwy gwydn yn weithredol, yn enwedig i seiberfwlio fel bod llai o niwed yn cael ei achosi i ddefnyddwyr a chyfranogwyr y farchnad. Rydym wedi parhau â'n gwaith cydweithredol gyda Chanolfan Genedlaethol Diogelwch Seiber (NCSC) i sicrhau bod cyfathrebu â chwmnïau llai yn gwneud ein disgwyliadau'n gliriach ac i roi arweiniad i gwmnïau ar seiberfwlio.

Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddwyd yr ail o'n dogfennau [Cyber Insights](#), gan rannu arfer gorau ar feysydd allweddol o wytnwch seiber. Cynhaliwyd gweminar hefyd ym mis Mawrth 2020 ar Wydnwch Gweithredol a phodlediad Diogelwch Seiber.

Ymateb i ddigwyddiadau mawr

Pan fydd seiberfwlio neu darfu ar wasanaethau'n digwydd, rydym yn gweithio gydag awdurdodau eraill i sicrhau ymateb cydgysylltiedig. Maent yn cynnwys Banc Lloegr, y PRA, y Trysorlys, yr NCSC, yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan ddefnyddio Fframwaith Ymateb yr Awdurdodau (ARF). Mae'r ARF wedi'i actifadu 5 gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys ar gyfer y pandemig presennol.

Adroddiadau Digwyddiad

Yn 2019/20 cawsom

824
o adroddiadau digwyddiad, roedd

109 yn ymwneud â seiber, 681 yn ymwneud â thechnoleg a 34 ddim yn ymwneud â thechnoleg

yn erbyn

849
o ddigwyddiadau a adroddwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol

(139 yn ymwneud â seiber, 685 yn ymwneud â thechnoleg a 25 ddim yn ymwneud â thechnoleg)

a

232
ar gyfer 2017/18.

(41 yn ymwneud â seiber, 172 yn ymwneud â thechnoleg a 19 ddim yn ymwneud â thechnoleg)

Mae nifer yr adroddiadau yn ymwneud â seiber a thechnoleg wedi gostwng. Gallai hyn fod yn arwydd bod cwmnïau yn gweithredu rheolaethau gwell. Fodd bynnag, byddem am weld y tueddiad hwn yn parhau am gyfnod hwy er mwyn dod i gasgliad.

Troseddau ariannol – Atal Gwyngalchu Arian (AML) a thwyll

Er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o droseddau ariannol, rydym yn sicrhau bod y cwmnïau a reoleiddir gennym yn sefydlu systemau a rheolaethau cadarn. Rydym yn cysoni ein gweithgarwch yn agos â phartneriaid y Llywodraeth a'r sector preifat ar droseddau economaidd.

Ein blaenoriaethau allweddol

- rhannu gwybodaeth â'r Llywodraeth ac asiantaethau perthnasol eraill.
- defnyddio gwybodaeth, data a thechnoleg i wella ein dulliau o ymdrin â gwyngalchu arian, llwgrwobrwyo a llygredd
- mynd i'r afael â thwyll drwy ddatblygu ein dealltwriaeth o'r risgiau mewn sectorau ariannol penodol a sicrhau bod cwmnïau wedi gweithredu mesurau diogelu priodol

Cryfhau partneriaethau ar fynd i'r afael â throseddau ariannol

Ein nod yw gwneud marchnadoedd ariannol y DU yn gadarn yn erbyn gweithgarwch troseddol. Un ffordd yr ydym yn gweithio i gyflawni hyn yw drwy gysoni ein gweithgarwch yn agos ag agenda gyffredinol y Llywodraeth ar fynd i'r afael â throseddau economaidd.

Mynd i'r afael â masnachu mewnol

Roedd Walid Choucair yn fasnachwr profiadol mewn gwarantau ariannol ac roedd Fabiana Abdel-Malik, cyfaill i'w deulu, yn uwch swyddog cydymffurfio yn y banc buddsoddi UBS AG. Rhoddodd rôl Ms Abdel-Malek fynediad anghyfyngiedig i systemau cyfrifiadurol cydymffurfio UBS iddi, gan gynnwys gwybodaeth fewnol am rôl cleientiaid UBS mewn trafodion masnachol. Defnyddiodd hi a Mr Choucair ffonau talu wrth fynd heb eu cofrestru i gadw mewn cysylltiad rheolaidd, er bod ganddynt rifau ffôn contract arferol dydd i ddydd ei gilydd hefyd. Pwrpas defnyddio'r rhifau ffôn heb eu cofrestru oedd trosglwyddo gwybodaeth fewnol a cheisio cuddio eu hymddygiad.

Daethom yn ymwybodol bod Mr Choucair yn masnachu mewn gwarantau yn fuan cyn i fanylion uno a chaffaeliadau a oedd yn ymwneud â'r cwmnïau perthnasol ddod yn gyhoeddus. Rhoddodd y wybodaeth fewnol a basiodd Ms Abdel-Malek iddo fantais annheg iddo dros weddill y farchnad.

Cefnogodd yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol yr FCA wrth arestio Mr Choucair a Ms Abdel-Malek, gan weithredu gwarantau chwilio yn eu cartrefi, a swyddfa Ms Abdel-Malek. Yn ystod y chwiliadau hyn, sicrhawyd tystiolaeth a oedd yn hanfodol i'r erlyniad.

Ym mis Mehefin 2019, erlynwyd Walid Choucair a Fabiana Abdel-Malek am ddelio mewnol. Cawsant eu collfarnu o 5 trosedd o ddelio mewnol, a dedfrydwyd y ddau i 3 blynedd o garchar. Gwnaeth Mr Choucair tua £1.4 miliwn o elw o'i fasnachu anghyfreithlon.

Ar hyn o bryd rydym hefyd yn mynd ar drywydd achosion atafaelu o dan y Ddeddf Enillion Troseddu yn erbyn y ddau amddiffynnydd. Maent wedi cael caniatâd i apelio yn erbyn eu collfarnau a disgwylir gwrandawriad o'u cais am apêl yn ystod 2020.



Rydym yn cydweithio'n agos â phartneriaid rhyngwladol a chyrrff sy'n gosod safonau fel y Tasglu Gweithredu Ariannol (FATF). Rydym wedi parhau i gyfrannu at y Ganolfan Troseddau Economaidd Genedlaethol (NECC), gan ganolbwyntio mwy ar dwyll, yn enwedig yn y sectorau taliadau a buddsoddi.

Yn 2019/20, buom yn gweithio gyda'r Llywodraeth i ddatblygu eu Cynllun Troseddau Economaidd (ECP). Mae'r ECP yn cynnwys cryfhau ein goruchwyliaeth atal gwyngalchu arian (AML), defnydd pellach o ddata a gwybodaeth, cyfrifoldebau newydd fel goruchwylwr AML ar gyfer busnesau sy'n ymgymryd â rhai gweithgareddau cryptoasedau a diweddarau ein goruchwyliaeth i adlewyrchu gofynion newydd sy'n gweithredu 5ed Cyfarwyddeb AML yr UE.

Rydym wedi cryfhau partneriaethau gydag asiantaethau eraill i gefnogi ymdrechion i

ddeall risg a bygythiadau ac ymateb yn unol â hynny. Mae hyn yn cynnwys:

- Secondio staff profiadol i'r NECC i weithio ar fygythiadau twyll a gwyngalchu arian.
- Drwy'r Swyddfa ar gyfer Goruchwyllo Atal Gwyngalchu Arian Cyrff Proffesiynol (OPBAS) rydym yn cynnal gweithdai gyda goruchwylwyr cyrff proffesiynol AML (PBSs). Mae'r canlyniadau wedi cynyddu dealltwriaeth o risg ac ymateb rhanbarthol y DU ac maent wedi bwydo i mewn i Asesiad Risg Cenedlaethol y Llywodraeth o Wyngalchu Arian a Chyllido Terfysgaeth sydd i'w gyhoeddi eleni.
- Sefydlu, drwy OPBAS, 2 Weithgor Arbenigol Rhannu Gwybodaeth AML. Mae un ar gyfer PBSs y sector cyfreithiol, ac un ar gyfer PBSs y sector cyfrifyddu gyda chyfranogiad gan y NECC, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a ni ein hunain fel rheoleiddwyr AML.
- Darparu aseswyr arbenigol i nifer o werthusiadau FATF, gan sicrhau bod safonau AML uchel yn cael eu gweithredu'n rhyngwladol ac yn cefnogi gwerthusiad gan yr OECD o atal llwgrwobrwyo a llygredd.
- Cynnal AML aml-bartner a TechSprint troseddau ariannol gyda chyfranogwyr o 16 o wledydd, i ddatblygu cysyniadau ar gyfer technolegau i ddiogelu preifatrwydd ac atal a chanfod troseddau ariannol yn well.

Cryfhau ein galluedd atal gwyngalchu arian

Ein nod yw lleihau nifer yr achosion o wyngalchu arian a chyllido terfysgaeth.

Rydym wedi gwella ein galluedd AML. Nod ein gwelliannau yw sicrhau y gallwn wneud defnydd doethach o ddata a gwybodaeth i gynyddu ein cyrhaeddiad, canolbwyntio ar feysydd lle mae'r risg fwyaf, a chynnal asesiadau rheoleiddiol manylach. Mae ein strategaeth ddata yn rhaglen waith hirdymor. Efallai y bydd pandemig coronafeirws yn newid y ffordd yr ydym yn goruchwyllo cwmnïau ond byddwn yn parhau i ddefnyddio data i leihau nifer yr achosion o wyngalchu arian a chyllido terfysgaeth. Bydd hyn yn ein galluogi i ragweld, monitro ac ymateb yn well i faterion cwmnïau a materion yn ymwneud â'r farchnad. Yn ystod 2019/20 rydym:

- Wedi dadansoddi'r ffurflenni troseddau ariannol gan tua 2,000 o gwmnïau, gan ddefnyddio'r data hwn i ddatblygu ein dull goruchwyllo. Rydym yn parhau i fonitro'r tueddiadau yn y data gan gwmnïau er mwyn mireinio ein dull seiliedig ar risg o oruchwyllo AML er mwyn ei wneud yn fwy pwrpasol, hyblyg, wedi'i dargedu a manwl. Mae hyn yn golygu bod ansawdd cyflwyniadau cwmnïau yn bwysig a byddwn yn dilyn i fyny gyda chwmnïau lle byddwn yn dod o hyd i unrhyw faterion. Byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad o dueddiadau o'r 3 blynedd cyntaf o ddata troseddau ariannol yn ail hanner 2020 ac yn ymgynghori ar opsiynau i ymestyn y ffurflenni cyn gynted ag y bydd y sefyllfa'n caniatáu.
- Wedi gwella ein modiwlau goruchwyllo AML craidd, a datblygu prawf o gysyniadau ar gyfer offer newydd a fydd yn ein galluogi i brofi'n fwy effeithiol pa mor gadarn yw systemau cwmnïau wrth ganfod troseddau ariannol.
- Wedi cynyddu nifer yr ymchwiliadau gorfodi AML sydd ar y gweill i 65.
- Wedi cynnal 30 o ymweliadau ar y safle a 151 o adolygiadau desg. Yn ystod 2019/20 cyhoeddwyd 17 Hysbysiadau gofyniad Person Medrus, ceisiwyd 3 ardystiad a dechrau 5 ymchwiliad gorfodi ar gyfer systemau troseddau ariannol a methiannau rheoli.

Ar 10 Ionawr 2020, daethom yn oruchwyllydd ariannol atal gwyngalchu arian a chyllido gwrthderfysgaeth busnesau cryptoasedau y DU, o dan Reoliadau Gwyngalchu

Arian 2017 (MLRs) ac yn unol â Safonau diweddaraf y Tasglu Gweithredu Ariannol rhyngwladol.

Cryfhau goruchwylloeth gan y corff proffesiynol

Sefydlwyd OPBAS yn 2018 i leihau'r niwed a achosir gan droseddau ariannol a gyflawnir gan alluogwyr proffesiynol. Mae'n gweithio i gyflawni hyn drwy safonau uwch o oruchwylloeth AML cyrff proffesiynol a gwell gwybodaeth a rhannu gwybodaeth. Mae'n gweithio i godi safonau goruchwyllo AML a gyflawnir gan PBSs sy'n rhan allweddol o'r amddiffyniad ar draws y system yn erbyn gwyngalchu arian.

Yn ystod 2019/20 rydym wedi:

- Orlhain ac asesu cynnydd pob PBSs o ran datblygu a gweithredu strategaethau i fynd i'r afael â meysydd o wendid.
- Defnyddio pwerau cyfarwyddo OPBAS, gan gynnwys pennu terfynau amser i gwmnïau gwblhau camau gweithredu, a defnyddio mwy o fesurau cyfarwyddo a chyfyngu. Er enghraifft, atal PBS rhag derbyn aelodau newydd nes eu bod wedi cwblhau camau gweithredu penodol.
- Gweithio'n agos gyda'r Trysorlys a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i sicrhau bod ein holl safonau a disgwyliaid goruchwyllo yn gyson, gan ganolbwyntio'n benodol ar y sector cyfrifyddu.
- Cyhoeddi adroddiad llawnach ar ganfyddiadau OPBAS o'i ail flwyddyn o waith goruchwyllo a'i weithgareddau i hyrwyddo rhannu gwybodaeth. Mae hyn yn adnabod ystod eang o feysydd lle mae'r rhan fwyaf, os nad pob un, o'r cyrff proffesiynol wedi gwella yn ogystal â meysydd lle mae rhai bellach ar ei hôl hi'n sylweddol.
- Defnyddio'r canfyddiadau hyn i gynllunio cam nesaf gwaith goruchwyllo OPBAS a rhannu arfer da mewn gweithdai yng Nghaeredin a Belfast.

Deall a mynd i'r afael â mathau allweddol o dwyll a sgamiau

Gall troseddau ariannol arwain at golli defnyddwyr yn uniongyrchol. Dywedodd ein [harolwg Financial Lives](#) wrthym fod cyfran sylweddol o oedolion y DU wedi profi dulliau digymell a allai fod wedi bod yn rhyw fath o dwyll neu sgam yn y 12 mis blaenorol. Mae un o bob deg (10%) o oedolion yn y DU wedi profi cyswllt digymell yn ystod y 12 mis diwethaf megis galwadau, negeseuon e-bost neu negeseuon testun sy'n honni eu bod yn cynnig cyngor pensiwn a allai fod wedi bod gyda bwriad twyllodrus neu beidio.

Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar sicrhau bod cwmnïau'n bodloni ein gofynion i gael systemau a rheolaethau effeithiol i ganfod troseddau ariannol, tarfu arnynt a'u lleihau. Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid i fynd i'r afael â gwahanol fathau o dwyll. Yn benodol, rydym yn gweithio i sicrhau bod sefydliadau ariannol yn cymryd y camau cywir i atal twyll ac i reoli effaith twyll ar eu cwsmeriaid. Rydym hefyd yn:

- asesu digonolrwydd systemau a rheolaethau cwmnïau fel mater o drefn
- ymchwilio a gosod sancsiynau ar gwmnïau rheoleiddiedig nad ydynt yn bodloni'r safonau angenrheidiol

- helpu i amddiffyn defnyddwyr rhag niwed gan gwmnïau anawdurdodedig sy'n honni eu bod yn cyflawni gweithgareddau a reoleiddir drwy rybuddion cyhoeddus rheolaidd

ScamSmart

Mae ein hymgyrch ScamSmart yn canolbwyntio ar liniaru niwed i ddefnyddwyr sy'n deillio o sgamiau. Mae'n elfen graidd o warchod defnyddwyr rhag sgamiau buddsoddi a phensiwn.

Rydym yn rhoi'r wybodaeth a'r offer i ddefnyddwyr sydd mewn perygl i'w hatal rhag dioddef twyll ariannol. Rydym yn defnyddio amrywiaeth o fecanweithiau gan gynnwys teledu, print, radio, hysbysebu digidol a gwefan ScamSmart. Rydym hefyd yn defnyddio gweithgarwch yn y wasg a chyfathrebu â phartneriaid i feithrin ymwybyddiaeth o dwyll. Mae'r wefan yn rhoi cyngor i ddefnyddwyr ar sut i adnabod y technegau a ddefnyddir gan dwyllwyr ac yn cynnal Rhestr Rhybudd yr FCA. Mae hwn yn arf i helpu defnyddwyr i wirio a yw cyfle buddsoddi yn sgam ac yn caniatáu iddynt chwilio am restr o gwmnïau y gwyddom eu bod yn gweithredu heb ein hawdurdod.

Ym mis Mai 2019, lanswyd ymgyrch ScamSmart, wedi'i thargedu at sgamiau buddsoddi a wneir drwy lwyfannau masnachu ar-lein. Roedd hyn yn annog defnyddwyr i fod yn fwy amheus o fasnachu 'get rich quick' a gaiff ei hyrwyddo ar-lein. Targedwyd pobl 21 – 55 oed, gan eu bod yn wynebu'r risg fwyaf, a defnyddiwyd Facebook, Instagram, a'r un peiriannau chwilio â thâl a ddefnyddir gan sgamwyr. Cynhyrchodd ein hymgyrch dros 324,000 o olygfeydd fideo ar Facebook ac Instagram a gyrru dros 16,000 o bobl i'n tudalen [we wrpasol](#). Fe wnaethom hefyd ymddangos ar Rip Off Britain a Radio'r BBC.

Triniaeth deg i gwsmeriaid presennol

Mae gwerth teg i ddefnyddwyr yn allweddol i gystadleuaeth iach ac mae'n sail i ymddiriedaeth defnyddwyr mewn gwasanaethau ariannol. Mae ein hymchwiliadau diweddar i arferion prisio mewn Yswiriant Cyffredinol, Arbedion Arian Parod a Morgeisi yn dangos bod marchnadoedd weithiau'n methu â sicrhau gwerth teg i ddefnyddwyr, y mae rhai ohonynt yn talu cosb deyrngarwch. Gallai'r risgiau hyn o niwed gael eu gwaethygu gan yr ansicrwydd economaidd byd-eang a achosir gan goronafeirws. Rydym am warchod y defnyddwyr hyn, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed.

Rydym wedi gweld mwy o ddigideiddio o'r cwmnïau yr ydym yn eu rheoleiddio, a gallwn ddisgwyl i'r newidiadau cymdeithasol sy'n cael eu gyrru gan goronafeirws gyflymu datblygiad marchnadoedd digidol. Rhaid i ni sicrhau bod gennym y sgiliau a'r ffocws angenrheidiol i oruchwylio cwmnïau'n effeithiol mewn oes o Ddata Mawr, ond hefyd harneisio'r manteision i ddefnyddwyr drwy ein defnydd ni a defnydd cwmnïau o'r data hwn. Mae angen i ni hefyd fod yn ymwybodol o'r effaith anghymesur bosibl ar ddefnyddwyr sy'n agored i niwed, y gallai rhai ohonynt fod ymhlith y rhai sydd wedi'u 'difreinio'n ddigidol'. Yr ydym am i ddefnyddwyr elwa o arloesi a chystadleuaeth ddigidol, tra'n mynd i'r afael ag unrhyw broblemau. Mae angen hyder ar ddefnyddwyr eu bod yn cael mynediad, pris ac ansawdd teg.

Rydym wedi gwneud Gwerth Teg mewn Oes Ddigidol yn un o'n meysydd blaenoriaeth ar gyfer yr 1 i 3 blynedd nesaf. Rydym yn egluro yn ein [Cynllun Busnes ar gyfer 2020/21](#) y canlyniadau yr ydym yn eu targedu a sut y byddwn yn mesur llwyddiant. Isod rydym yn

nodi ein cyflawniadau allweddol mewn perthynas â'n blaenoriaethau ar gyfer 2019/20 i sicrhau bod cwsmeriaid presennol yn cael eu trin yn deg.

Ein blaenoriaethau allweddol

- parhau i weithio gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wrth i ni ystyried sut i weithredu ar ei argymhellion, yn dilyn yr uwch-gŵyn gan Cyngor ar Bopeth ynghylch pryderon am y 'gosb deyrngarwch' a wynebir gan gwsmeriaid hirsefydlog
- bwrw ymlaen â gwaith ar arbedion arian parod, morgeisi ac arferion prisio yswiriant cyffredinol – gan edrych ar sut i wella canlyniadau i ddefnyddwyr

Er mwyn sicrhau y gall pob cwsmer elwa o fwy o gystadleuaeth ac arloesedd, edrychwyd yn ddiweddar ar nifer o farchnadoedd i archwilio arferion prisio'n agosach. Mae ein gwaith yn y marchnadoedd Yswiriant Cyffredinol, Arbedion Arian Parod a Morgeisi yn enghreifftiau o'n hymrwymiad parhaus i sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwerth teg am y cynhyrchion y maent yn eu prynu.

Tegwch o ran prisio a gwerth cynnyrch

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddwyd Datganiad Adborth i'n Papur Trafod ar Brisio Teg mewn Gwasanaethau Ariannol. Ynddo, rydym yn egluro mwy am sut rydym yn bwriadu barnu pryd y mae arferion prisio yn annheg gan ddefnyddio fframwaith cwestiynau a nodi pryd y caiff hyn ei weithredu. Mae'r datganiad hefyd yn crynhoi'r ymatebion a gawsom.

Astudiaeth Marchnad Arferion Prisio Yswiriant Cyffredinol

Ym mis Hydref 2019, cyhoeddwyd yr [adroddiad interim o'n hastudiaeth o'r farchnad](#). Mae hyn yn rhan o becyn gwaith i wneud i farchnadoedd yswiriant cyffredinol weithio'n dda i ddefnyddwyr a sicrhau nad yw cwsmeriaid hirsefydlog yn cael eu trin mewn ffordd sy'n arwain at ganlyniadau gwaeth. Mae manylion y gwaith hwn wedi'u cynnwys yn yr adran ar Yswiriant a Gwarchodaeth Cyffredinol.

Gwahaniaethu prisiau yn y farchnad arbedion arian parod

Ym mis Ionawr 2020, cyhoeddwyd ein [Papur Ymgynghori ar gyflwyno Cyfraddau Mynediad Hawdd Sengl \(SEARs\) ar gyfer arbedion arian parod](#). Mae manylion y gwaith hwn i'w gweld yn yr adran ar Fancio a Thaliadau Manwerthu.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith yn y farchnad forgeisi yn yr adran Benthycia Manwerthu.

Arloesi, data a moeseg data

Mae gwasanaethau ariannol yn newid yn gyflym. Mae llawer o'r newid hwn wedi'i ysgogi gan y chwyldro data a datblygiadau mewn technoleg, megis y cwmwl, dadansoddiadau uwch, deallusrwydd artifisial a data mawr. Mae hyn i gyd yn golygu bod cwmnïau

bellach yn gwybod mwy am eu cwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid nag erioed o'r blaen. Gall hyn leihau costau ac arwain at fwy o gyfranogiad a all fod o fudd i ddefnyddwyr. Ond mae ganddo hefyd y potensial i amlygu pobl i niwed.

Ein nod yw sicrhau bod arloesi, ynghyd â datblygiadau mewn technoleg a defnyddio data, yn gweithio er budd defnyddwyr.

Ein blaenoriaethau allweddol

- adeiladu ar ein gwybodaeth am arloesi ym marchnadoedd gwasanaethau ariannol y DU – dylanwadu ar yr ymateb byd-eang i arloesedd ariannol (FinTech) a datblygu ein dull strategol o ymdrin â thechnoleg reoleiddiol (RegTech)
- ystyried a ddylem roi fframweithiau polisi ar waith ar gyfer sut mae cwmnïau'n casglu ac yn defnyddio data, i ddiogelu defnyddwyr a chryfhau cyfanrwydd y farchnad
- ystyried lle mae angen ymateb byd-eang i ddiogelu'r rhai sy'n defnyddio ein marchnadoedd – tra'n sicrhau nad yw'n llesteirio'n ddiangen y manteision posibl o arloesi ddwy

Cyllid agored

Yr ydym am i'r chwyldro data sicrhau manteision i'r farchnad a defnyddwyr, heb waethygu materion mynediad na chystadleuaeth. Mae datblygu cyllid agored yn rhoi cyfle parhaus i ni a'r diwydiant ddefnyddio data i gefnogi mwy o fynediad.

Mae cyllid agored yn caniatáu i gwsmeriaid rannu eu data a gedwir gan sefydliadau ariannol gyda phartion eraill ac i weld eu cynnyrch ariannol mewn un lle. Mae ganddo'r potensial i drawsnewid y ffordd y mae defnyddwyr a busnesau'n defnyddio gwasanaethau ariannol. Gallai ei gwneud yn haws cymharu nodweddion prisiau a chynnyrch a newid cynnyrch neu ddarparwr. Gallai hefyd helpu i ehangu mynediad at gyngor a chymorth wrth wneud penderfyniadau. Mae ganddo'r potensial i wella cystadleuaeth ymhlith darparwyr gwasanaethau ariannol, ysgogi arloesedd, datblygu gwasanaethau newydd a galw cynyddol.

Ein nod yw datblygu fframwaith clir ar gyfer ein dull o ymdrin â chyllid agored. Cyhoeddwyd [Galwad am Fewnbwn](#) gennym ym mis Rhagfyr 2019 i archwilio'r cyfleoedd a'r risgiau. Rydym am ddeall yr hyn sydd ei angen i sicrhau bod cyllid agored yn datblygu er lles gorau defnyddwyr, a pha rôl y dylem ei chwarae.

Dechreuwyd trafodaeth y dylai cwmnïau allu cael gafael ar ddata defnyddwyr gyda chydysyniad penodol, drwy ryngwynebau rhaglennu defnydd (APIs). Bydd hyn yn cefnogi arloesedd drwy sicrhau bod data'n cael ei rannu ar draws sectorau a thrwy wella diogelwch ar draws y diwydiant. Adnabuwyd cyfleoedd hefyd o rannu data i wella iechyd ariannol defnyddwyr a busnesau.

Gall materion moesegol godi ynghylch caniatâd defnyddwyr, hawliau data, yn ogystal â defnyddio dysgu peirianyddol a Gwybodaeth Artiffisial (AI). Cynigiwn y dylai defnyddwyr gael rheolaeth dros eu data, a bod unrhyw ailddefnyddio gan ddarparwyr eraill yn digwydd mewn amgylchedd diogel a moesegol, gyda chydysyniad gwybodus gan ddefnyddwyr. Daw'r Alwad am Fewnbwn i ben ar 1 Hydref 2020, (wedi'i ymestyn yng ngoleuni coronafeirws) ac ar ôl hynny byddwn yn cyhoeddi Datganiad Adborth.

Moeseg data

Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod data'n grymuso defnyddwyr yn hytrach na rhwystro gwerth neu'n eu heithrio rhag cael gafael ar gynhyrchion a gwasanaethau allweddol.

Yn ystod 2019/20, rydym wedi datblygu dealltwriaeth ddyfnach o sut mae gwasanaethau ariannol yn defnyddio AI a data. Ym mis Hydref 2019, cyhoeddwyd ein [harolwg ar y cyd a wnaethom gyda Banc Lloegr](#).

Rydym wedi dechrau prosiect ar y cyd â Sefydliad Alan Turing i fynd i'r afael â thryloywder wrth ddefnyddio AI. Bydd hyn yn helpu i egluro'r rôl y gall moeseg data ei chwarae wrth ddylunio, defnyddio a monitro AI.

Ynghyd â Banc Lloegr rydym hefyd wedi sefydlu [Fforwm Cyhoeddus-Preifat AI](#) ti'n helpu i ddeall yn well sut mae dysgu peirianyddol/AI yn sbarduno newidiadau mewn marchnadoedd ariannol ac i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ystod eang o weithgarwch a meddwl yn y maes hwn. Bydd y fforwm hwn yn dechrau gweithio ym mis Hydref 2020 ac yn rhannu ei waith yn rheolaidd.

Mae ein gwasanaethau Arloesi yn parhau i gefnogi cynhyrchion a gwasanaethau arfaethedig sydd â'r nod o wella cystadleuaeth neu ddatblygu offer, gwasanaethau a mynediad newydd drwy Fancio Agored. Mae Arloesi hefyd wedi rhoi cipolwg ar y niwed posibl o reolaethau gwael neu oruchwyliaeth o'r defnydd o'r data hwn – gan gynnwys sut y gellir ei ddefnyddio i drin rhagfarn defnyddwyr a diffyg rheolaethau ar gyfer mynediad. Gall y rhain niweidio hawliau defnyddwyr i breifatrwydd neu ddiogelwch eu data.

Mae ein gwaith goruchwyllo hefyd yn edrych ar sut mae cwmnïau'n defnyddio data a'u llywodraethu presennol dros ei ddefnydd.

Cryptoasedau

Ein nod yw darparu fframwaith rheoleiddio clir a chymesur i leihau niwed o cryptoasedau. Rydym yn gweithio i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu, bod cyfanrwydd y farchnad yn cael ei gynnal a bod cystadleuaeth yn gweithio'n dda er budd defnyddwyr.

Rydym hefyd am sicrhau bod y sector gwasanaethau ariannol mewn sefyllfa dda i harneisio potensial Technoleg Ledjer wedi'i Ddosbarthu (DLT). Mae DLT yn gyfres o atebion technolegol sy'n galluogi un cofnod o weithgarwch wedi'i ddilyniannu, ei safoni a'i sicrhau'n griptograffig i gael ei ddosbarthu'n ddiogel i rwydwaith o gyfranogwyr amrywiol, a gweithredu arno. Gallai cofnod gynnwys trafodion, daliadau asedau neu ddata adnabod. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â system gyfriflyfr ganolog draddodiadol, sy'n eiddo i un endid y gellir ymddiried ynddo ac yn cael ei weithredu ynddo.

Rydym yn aelod o Dasglu Cryptoasedau y DU, menter ar y cyd rhyngom ni, y Trysorlys a Banc Lloegr, sy'n gweithio i asesu effaith bosibl cryptoasedau a DLT yn y DU ac i ystyried ymatebion polisi priodol. Rydym wedi cyfrannu at raglenni rhyngwladol allweddol i asesu manteision a risgiau posibl cryptoasedau, gan gynnwys stablecoins. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda Sefydliad Rhyngwladol Comisiynau'r Gwarantau (IOSCO), drwy ei Rwydwaith FinTech.

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddwyd canllawiau ar weithgareddau cryptoasedau i helpu cwmnïau i ddeall a yw eu gweithgareddau'n dod o dan ein rheoliad. Mae hyn yn galluogi i gwmnïau gael gwell dealltwriaeth o ba un a oes angen eu hawdurdodi a beth sydd angen iddynt ei wneud i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n gofynion.

Dylanwadu ar yr ymateb byd-eang i FinTech

Rydym yn cadeirio'r Rhwydwaith Arloesi Ariannol Byd-eang (GFIN). Yn ystod 2019/20 mae hyn wedi tyfu o 29 i 57 o gyfranogwyr, yn cynnwys rheoleiddwyr gwasanaethau ariannol a chyrrff byd-eang.

Pwrpas y GFIN yw annog rhannu gwybodaeth ac arfer gorau ar oblygiadau arloesi mewn marchnadoedd ariannol. Nod treialon trawsffiniol yw darparu ffordd fwy effeithlon i gwmnïau arloesol ryngweithio â rheoleiddwyr byd-eang, gan eu helpu i lywio rhwng gwledydd wrth iddynt geisio ehangu a phrofi syniadau newydd. Bydd profion trawsffiniol yn caniatáu i gwmnïau arloesol yn y DU ehangu dramor tra'n darparu mwy o fynediad i gwmnïau arloesol o'r tu allan i'r DU i farchnad y DU heb danseilio diogelwch defnyddwyr a chyfanwydd y farchnad. Gall y gystadleuaeth gynyddol hon yn ei thro annog darparwyr presennol i wella eu cynigion.

Ym mis Mai 2019, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol cyntaf GFIN. Daeth hyn â 33 o wahanol sefydliadau o bob cwr o'r byd at ei gilydd am ddiwrnod o drafodaethau ar y strategaeth ar gyfer y Rhwydwaith, cynnydd treialon trawsffiniol a sut y gall y Rhwydwaith gefnogi gwell cydweithredu ymhlith rheoleiddwyr. Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd y GFIN Adroddiad 'Blwyddyn yn Ddiweddarach' a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ers i'r Rhwydwaith gael ei drafod gyntaf fel y cysyniad 'blwch tywod byd-eang'.

RegTech

Gallai Adrodd Rheoleiddio Digidol (DRR) drawsnewid yn sylfaenol sut mae'r diwydiant yn deall, dehongli ac adrodd am wybodaeth reoleiddiol. Gallai helpu i leihau rhwystrau i fynediad drwy leihau cost cydymffurfio i gwmnïau. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar wella'r rhyngwyneb rhyngom ni, rheoleiddwyr eraill a chwmnïau a reoleiddir er mwyn sicrhau bod gennym fynediad at wybodaeth gyson o ansawdd uchel yn gyflym.

Canolbwyntiodd ein gwaith blaenorol ar awtomeiddio'r broses adrodd reoleiddiol. Mae grŵp prosiect wedi'i sefydlu i archwilio'r potensial ar gyfer adroddiadau rheoleiddiol y gellir eu gweithredu gan beiriant a chreu safonau a diffiniadau data cyffredin y diwydiant. Gallai diffiniadau cyffredin rhwng cwmnïau a'r rheoleiddiwr wneud dehongli rheoleiddiol yn fwy cyson a gallai rheoleiddwyr wella ansawdd data gan gwmnïau.

Cyhoeddwyd Asesiad Hyfywedd o'r ffactorau technolegol ac economaidd a allai effeithio ar y symudiad tuag at fwy o awtomeiddio mewn adroddiadau rheoleiddiol. Tynnodd yr asesiad hwn sylw at y rhwystrau niferus y mae angen eu goresgyn er mwyn symud i ddyfodol mwy awtomataidd. Rydym bellach yn gweithio ar nifer o fentrau, gan ddefnyddio ein strategaeth data i helpu i drawsnewid sut rydym yn casglu, storio, dychmygu a dadansoddi'r data a gasglwn gan gwmnïau.

Ym mis Gorffennaf 2019, cynhaliwyd TechSprint Atal Gwyngalchu Arian Throseddau Ariannol Byd-eang a oedd yn wythnos o hyd. Ein pwrpas oedd ceisio dod o hyd i ffyrdd

gwell o ganfod ac atal troseddau ariannol. Canolbwyntiodd y digwyddiad ar sut y gall technegau amgryptio alluogi rhannu gwybodaeth am wyngalchu arian a phryderon troseddau ariannol, tra'n parhau i gydymffurfio â chyfreithiau diogelwch data.

Newid demograffig

Mae newid demograffig, datblygiadau yn y marchnadoedd cyflogaeth a thai a chyfnod hir o gyfraddau llog isel oll wedi cael effaith ar anghenion ariannol pobl. Mae gwahaniaethau sylweddol o ran cyfoeth ac anghenion ariannol ar draws gwahanol genedlaethau.

Rhaid i wasanaethau ariannol addasu i ddiwallu'r anghenion newidiol hynny, fel y mae'n rhaid i ni, er mwyn sicrhau bod ein rheoliad yn adlewyrchu gwir anghenion gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr.

Ein blaenoriaethau allweddol

- Gwahaniaethau sy'n pontio'r cenedlaethau – dyfnhau ein dealltwriaeth o anghenion gwahanol genedlaethau ar gyfer gwasanaethau ariannol.
- Bregusrwydd – gall hyn fod yn amlwg neu'n gudd, yn barhaol neu dros dro, ac mae'n dibynnu ar amgylchiadau unigol. Rydym am wneud ein disgwyliadau o gwmnïau'n gliriach ac rydym yn datblygu canllawiau iddynt ar sut i ystyried y materion cymhleth hyn, a sicrhau eu bod yn diwallu anghenion ariannol defnyddwyr bregus.
- Deall anghenion defnyddwyr – byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i ddyfnhau ein dealltwriaeth o anghenion defnyddwyr a sicrhau eu bod yn gwneud penderfyniadau ar sail y mewnwelediad diweddaraf i ddefnyddwyr.

Gwahaniaethau sy'n pontio'r cenedlaethau

Rydym am sicrhau bod ein dull rheoleiddio a'n rhagdybiaethau yn adlewyrchu anghenion newidiol defnyddwyr ar draws cenedlaethau, ac y gall defnyddwyr o bob cenedlaeth gael gafael ar gynnyrch a gwasanaethau sy'n cynnig gwerth teg. Ein nod yw cynyddu nifer y cynhyrchion a'r gwasanaethau sy'n cynnig gwerth teg i'r gwahanol grwpiau hyn o ddefnyddwyr a mynediad a'r gwasanaethau sy'n cynnig gwerth teg i'r gwahanol grwpiau hyn o ddefnyddwyr.

Ym mis Mai 2019, cyhoeddwyd ein Papur Trafod r wahaniaethau sy'n pontio'r cenedlaethau. Rhoddodd ein dadansoddiad cychwynnol o sut mae ffactorau economaidd-gymdeithasol penodol wedi newid anghenion ac amgylchiadau gwahanol genedlaethau. Yn dilyn adborth gan randdeiliaid a dadansoddiad pellach, ym mis Gorffennaf 2020 cyhoeddwyd ein Datganiad Adborth.

Fe wnaethom adnabod 3 maes allweddol yn ein canfyddiadau lle mae gennym rôl i'w chwarae:

- Rhaid i ddefnyddwyr gael gwell cymorth i reoli mwy o gyfrifoldeb, yn enwedig o ran rheoli cynilo a chael gafael ar eu hincwm pensiwn ac ymddeol, ac amlygiad ychwanegol i risg.

- Rhaid i ddefnyddwyr gael mwy o gynhyrchion hybrid a hyblyg i ddiwallu eu hanghenion sy'n esblygu. Wrth iddynt ymgymryd â mwy o gyfrifoldeb am ddewisiadau ariannol byddent yn elwa o gynhyrchion hybrid, megis y Pension Sidecar sy'n cael ei dreialu gan Nest Insight, sy'n caniatáu i wahanol anghenion gael eu diwallu ar yr un pryd.
- Ni all rhai grwpiau o ddefnyddwyr gael mynediad i'r cynhyrchion benthyca sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu nodau ariannol. Canfu ein harolwg Financial Lives 2020 fod cynnyrch neu wasanaeth ariannol wedi'i wrthod i 6% o oedolion y DU yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn yn fwyaf difrifol gyda chynhyrchion credyd, yn enwedig cardiau credyd.

Rydym yn ymateb i'n canfyddiadau gan gynnwys drwy waith a amlinellir yn ein Cynllun Busnes i sicrhau y gall defnyddwyr wneud penderfyniadau buddsoddi effeithiol a bod marchnadoedd credyd defnyddwyr yn gweithio'n dda.

Bregusrwydd

Mae defnyddiwr bregus yw rhywun sydd, oherwydd ei amgylchiadau personol, yn arbennig o agored i niwed, yn enwedig pan nad yw cwmni'n gweithredu gyda lefelau priodol o ofal. Yn ôl ein harolwg Financial Lives, mae 46% o oedolion y DU yn arddangos un neu fwy o nodweddion bregusrwydd. Gwarchod defnyddwyr bregus yw un o'n blaenoriaethau. Rydym am weld cwmnïau'n trin defnyddwyr bregus yn deg ac yn rhan annatod o'u diwylliant.

Pan fydd defnyddwyr mewn amgylchiadau bregus, gall effeithio ar y ffordd y maent yn ymgysylltu â gwasanaethau ariannol. Mae canlyniadau ein harolwg Financial Lives 2020 yn dweud wrthym fod un o bob pump (20%) o oedolion yn y DU sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol parhaus wedi cael problemau gyda dyled neu eu gallu i reoli arian oherwydd eu hiechyd. Mae un o bob chwech (16%) o oedolion yn y DU sydd â gallu ariannol isel wedi mynd i ddyled ac yn teimlo y gallai fod wedi bod yn anochel pe baent wedi deall eu hopsiynau'n well.

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddwyd ein hymgyngoriad cyntaf ar ganllawiau drafft, yn nodi sut y mae ein Hegwyddorion ar gyfer Busnesau yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau drin defnyddwyr bregus yn deg. Ei nod yw sicrhau canlyniadau cyson i ddefnyddwyr bregus, waeth beth fo'r sector y mae cwmni'n gweithredu ynddo.

Yn ogystal â gweithio gyda rhanddeiliaid cynrychioliadol i ddatblygu'r canllawiau drafft, cynhaliwyd digwyddiadau hefyd i gwmnïau, cyrff masnachu a grwpiau defnyddwyr i drafod ein dull gweithredu. Hefyd, cynhaliwyd arolwg o gwmnïau a gweithdy i gynrychiolwyr defnyddwyr gael gwybodaeth am y costau a'r manteision posibl.

Mae ail ymgynghoriad wedi'i ohirio oherwydd coronafeirws. Byddwn yn cyhoeddi hwn yn ddiweddarach yn 2020 ochr yn ochr â rhywfaint o ymchwil ansoddol rydym wedi'i wneud gyda defnyddwyr bregus.

Dyfodol Rheoleiddio

Mae technoleg ac arloesi, anghenion newidiol defnyddwyr a modelau a gwasanaethau busnes newydd yn parhau i drawsnewid gwasanaethau ariannol. Mae ymadael â'r UE a coronafeirws wedi tanlinellu'r angen i sicrhau bod y ffordd yr ydym yn rheoleiddio yn

cyd-fynd ag amgylchiadau sy'n newid. Yn ein Cynllun Busnes 2019/20, dywedasom y byddem yn adolygu ein dull o weithredu er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i heriau rheoleiddio presennol a newydd.

Yn ystod 2019/20 rydym wedi archwilio beth yw rhai o'r heriau mwyaf arwyddocaol a sut rydym yn ymateb, gan gynnwys drwy ganolbwyntio'n gryfach ar reoleiddio sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Mae ein gwaith wedi amlygu'r angen i sicrhau bod gennym y fframwaith rheoleiddio cywir i gefnogi ein gwaith ac i wneud y defnydd gorau o'n pecyn cymorth rheoleiddio, er mwyn sicrhau canlyniadau da. Byddwn yn dweud mwy am sut yr ydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'n syniadau maes o law.

Ein blaenoriaethau allweddol

- Adolygu'r gost reoleiddio i gwmnïau o gydymffurfio â Llawlyfr yr FCA. Rydym am ddeall sut mae cwmnïau'n dehongli ac yn rhyngweithio â'n safonau rheoleiddio, gan ganolbwyntio ar ble mae cwmnïau'n mynd i gost ac archwilio'r cyfleoedd y mae technoleg yn eu cynnig i leihau'r costau hyn.
- Datblygu dulliau o fynd i'r afael â niwed i ddefnyddwyr sy'n digwydd ar neu o amgylch perimedr yr hyn a wnawn ac nad ydym yn ei reoleiddio, yn enwedig pan fo cwmnïau a defnyddwyr yn aneglur ynghylch ein rôl ar gyfer gweithgareddau penodol.

Dyletswydd defnyddwyr

Ein bwriad yw hyrwyddo trafodaeth agored am rinweddau posibl egwyddor defnyddwyr newydd sydd gan gwmnïau tuag at eu cwsmeriaid. Rhaid i ni hefyd sicrhau ein bod yn deall canlyniadau unrhyw newidiadau y gallwn eu gwneud.

Fel rhan o hyn, fe wnaethom gyhoeddi Datganiad Adborth ar ddyletswydd gofal a dulliau amgen posibl. Yn hyn o beth, rydym wedi ymrwmo i adolygu sut rydym yn cymhwyso'r fframwaith rheoleiddio, yn enwedig yr Egwyddorion ar gyfer Busnesau, a sut y gallai Egwyddorion newydd neu ddiwygiedig gryfhau ac egluro dyletswyddau cwmnïau i ddefnyddwyr. Mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio oherwydd coronafeirws ond bwriadwn ymgynghori ar opsiynau posibl ar gyfer newid pan allwn ni.

Llawlyfr yr FCA

Rydym hefyd wedi dechrau rhywfaint o ymchwil i ddeall yn well brofiadau defnyddwyr o'n Llawlyfr a sut y gellid ei wella. Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu bod y Llawlyfr yn rhy gymhleth o ran ei iaith, ei strwythur a sut i'w lywio. Byddwn yn ystyried y canfyddiadau hyn wrth i ni weithio i wella'r Llawlyfr.

Mae ein gwaith ar Lawlyfr yr FCA hefyd wedi'i gynnwys yn yr adran Ymadael â'r UE ac ymgysylltu rhyngwladol.

Adroddiad Perimedr

Y llynedd, fe wnaethom gyhoeddi ein Hadroddiad Perimedr blynyddol cyntaf. Mae'r perimedr yn bwysig gan ei fod yn pennu pa weithgareddau y mae cwmnïau yn ymgymryd â nhw sydd angen eu hawdurdodi, ac yn aml mae'n effeithio ar faint o warchodaeth y gall defnyddwyr ei disgwyl ar gyfer y gwasanaethau a'r cynhyrchion

ariannol y maent yn eu prynu.

Eglurodd ein hadroddiad ein rôl, sut rydym yn rheoli materion ar gyrion ein perimedr ac yn ymateb i faterion penodol o flynyddoedd blaenorol. Mae'r adroddiad hefyd yn trafod a oes unrhyw faterion o fewn y perimedr a allai fod angen newidiadau deddfwriaethol neu newidiadau eraill. Tynnwyd sylw hefyd at yr anawsterau sy'n wynebu defnyddwyr yn y sector buddsoddi mewn manwerthu a'r hyn yr ydym yn ei wneud i fynd i'r afael â'r rhain.

Bwriadwn gyhoeddi adroddiad perimedr dilynol yn ddiweddarach eleni.

Newid yn yr hinsawdd a chyllid gwyrdd

Bydd yr effaith y mae newid yn yr hinsawdd yn ei chael ar y blaned yn cael effaith gynyddol hanfodol ac eang ei chwmpas ar economi'r DU, marchnadoedd gwasanaethau ariannol ac, yn y pen draw, defnyddwyr. Yn wyneb yr her fyd-eang hon, ein rôl yw sicrhau bod ein fframwaith rheoleiddio yn caniatáu i bawb mewn marchnadoedd ariannol, a'r rhai sy'n eu defnyddio, ymateb i'r risgiau cynyddol o newid yn yr hinsawdd a chefnogi'r newid angenrheidiol i economi wyrddach. Mae buddsoddwyr a defnyddwyr am ddeall sut mae eu buddsoddiadau'n effeithio ar yr amgylchedd a pha effaith ehangach sydd ganddynt mewn cymdeithas.

Ein nod yw bod yn rhagweithiol wrth sicrhau bod cwmnïau'n darparu mwy o dryloywder o ran sut mae cynhyrchion 'gwyrdd' yn gweithio mewn gwirionedd ac yn cael eu dal yn atebol am labelu a gwerthu cynhyrchion a gwasanaethau o'r fath.

Bydd y newid hwn yn bellgyrhaeddol ac yn effeithio ar bopeth o gost ac argaeledd yswiriant i'r ffordd y caiff cronfeydd pensiwn eu buddsoddi, yn ogystal â datblygu cynhyrchion a gwasanaethau gwyrdd newydd.

Ein blaenoriaethau allweddol

- gwella datgeliadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd
- sicrhau bod cwmnïau'n ystyried risgiau a chyfleoedd ariannol materol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd
- gwella mynediad defnyddwyr at gynhyrchion a gwasanaethau ariannol gwyrdd

Gwella datgeliadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Ym mis Mawrth 2020, fe wnaethom gynnig rheol ddatgelu newydd i wella datgeliadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd sy'n cyd-fynd ag argymhellion Tasglu'r Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD). Mae'r papur ymgynghori hefyd yn cynnwys, er mwyn gwneud sylwadau, Nodyn Technegol drafft i egluro rhwymedigaethau datgelu presennol cyhoeddwy ar gyfer risgiau newid yn yr hinsawdd.

Bydd ein newidiadau arfaethedig yn helpu i wella cyfanrwydd y farchnad drwy wella tryloywder, ansawdd a chysondeb datgeliadau. Bydd hyn yn helpu i roi i farchnadoedd y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i asesu pa mor dda y mae cwmnïau'n addasu i

risgiau a chyfleoedd newid yn yr hinsawdd ac asedau prisiau gwell. Yn y pen draw, bydd gwella datgeliadau yn helpu i wella cystadleuaeth ymhlith darparwyr cynhyrchion a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd ac yn galluogi i fuddsoddwyr wneud dewisiadau mwy gwybodus ynghylch ble i ddyrannu eu cyfalaf, gan gefnogi'r newid i economi carbon isel.

Rydym wedi ymestyn y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion hyn hyd at 1 Hydref 2020. Yn dibynnu ar yr adborth, ein nod yw cyhoeddi Datganiad Polisi, y rheolau terfynol a'r Nodyn Technegol yn gynnar yn 2021.

Rydym hefyd wedi cyfrannu'n weithredol at dasglu traws-reoleiddwyr o dan arweiniad y llywodraeth sy'n ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o weithredu'r ffordd fwyaf effeithiol o weithredu datgeliadau sy'n ymwneud â'r hinsawdd sy'n gysylltiedig â TCFD ar draws yr holl sectorau anariannol ac ariannol allweddol, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Sicrhau bod cwmnïau'n ystyried risgiau a chyfleoedd ariannol materol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Disgwylwn i gwmnïau a reoleiddir ystyried risgiau a chyfleoedd sylweddol o ran newid yn yr hinsawdd pan fyddant yn gwneud penderfyniadau busnes, buddsoddi a risg.

Er mwyn cefnogi gwell dealltwriaeth o'r risgiau hyn a gwella ymateb y sector, sefydlwyd y Fforwm Risg Ariannol Hinsawdd a arweinir gan y diwydiant yn gynnar yn 2019 ynghyd â'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA). Ym mis Mehefin 2020, cyhoeddodd y CFRF ei ganllawiau ymarferol ar y diwydiant i helpu cwmnïau i asesu a rheoli risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Byddwn yn parhau i gefnogi'r CFRF wrth iddo geisio adeiladu ar y gwaith hwn.

Fe wnaethom gyhoeddi Datganiad Adborth ym mis Hydref 2019 yn nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud i helpu i fynd i'r afael â rhwystrau i stiwardiaeth buddsoddwyr effeithiol. Gall stiwardiaeth dda gan berchnogion asedau a rheolwyr asedau annog cwmnïau sy'n buddsoddi i fynd i'r afael â risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a chreu gwerth cynaliadwy, hirdymor i gleientiaid a buddiolwyr. I'r perwyl hwn, cynhaliwyd gweithdy diwydiant gennym ym mis Chwefror 2020 i hyrwyddo trefniadau stiwardiaeth mwy effeithiol rhwng perchnogion asedau, rheolwyr asedau a darparwyr gwasanaethau. Rydym yn ymgysylltu'n agos â mentrau'r diwydiant i ddatblygu camau gweithredu sy'n deillio o'r gweithdy.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom gwblhau newidiadau i reolau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Llywodraethu Annibynnol oruchwylio ac adrodd ar bolisïau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu a stiwardiaeth darparwyr cynlluniau pensiwn mewn perthynas â phensiynau personol a llwybrau buddsoddi yn y gweithle.

Bydd y newidiadau hyn yn helpu i warchod defnyddwyr drwy ddarparu cadw cydbwysedd i sicrhau bod cwmnïau'n ystyried risgiau ESG yn briodol wrth wneud penderfyniadau buddsoddi, ystyried anghenion a dewisiadau defnyddwyr, ac annog stiwardiaeth dda o fuddsoddiadau. Cyhoeddwyd ein canfyddiadau ar effeithiolrwydd IGCs ym mis Mehefin 2020.

Cynhyrchion a gwasanaethau ariannol gwyrdd

Rydym am i ddefnyddwyr allu dewis cynhyrchion a gwasanaethau ariannol gwyrdd sy'n diwallu eu hanghenion a'u dewisiadau. Wrth wneud hynny, mae angen i ddefnyddwyr gael gwybodaeth a chyngor priodol i'w galluogi i wneud dewisiadau gwybodus. Mae hyn yn gysylltiedig â'n hamcanion gweithredol o warchod defnyddwyr a hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr.

Rydym wedi bod yn cynnal ymchwil polisi i ddeall yn well sut y caiff cynhyrchion buddsoddi cynaliadwy eu cynllunio a'u darparu, ac a yw'r datgeliadau y mae cwmnïau'n eu gwneud ar y cynhyrchion hyn yn adlewyrchu eu nodweddion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd (a chynaliadwyedd ehangach) yn gywir ac yn ddigonol i alluogi i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau effeithiol.

Byddwn yn defnyddio'r mewnwelediadau hyn i lywio gwaith parhaus gyda'r Trysorlys yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth y DU yn y Strategaeth Cyllid Gwyrdd i gyd-fynd ag uchelgais amcanion Cynllun Gweithredu Cyllid Cynaliadwy'r UE.

5 Blaenoriaethau ein sector

Marchnadoedd cyfanwerthu ac ariannol

Mae marchnadoedd ariannol cyfanwerthu iach yn golygu y gall cwmnïau a llywodraethau gael gafael ar gyfalaf, rhoi cyfleoedd i fuddsoddwyr manwerthu a sefydliadol fuddsoddi, galluogi masnach ddomestig a rhyngwladol ac ariannu twf.

Mewn ymateb i coronafeirws, rydym wedi gweithio i sicrhau bod marchnadoedd yn parhau'n agored ac yn drefnus. Er ein bod wedi gweld amrywiadau mewn prisiau, nifer fawr o fasnachu mewn rhai marchnadoedd a llai o hylifedd mewn eraill, rydym o'r farn bod marchnadoedd y DU wedi aros yn drefnus drwyddo draw.

Disgwyliwn i farchnadoedd cyfalaf ecwiti a dyledion chwarae rhan hanfodol wrth (ail) ariannu busnesau i'w galluogi i adfer o'r effaith ariannol sylweddol a achosir gan y pandemig.

Ym mis Ebrill 2020, fe wnaethom gyhoeddi cyfres o fesurau dros dro mewn Datganiad Polisi, i helpu cwmnïau i godi cyllid newydd tra'n cynnal gwarchodaeth buddsoddwr. Rydym yn rhoi rhagor o wybodaeth am y Datganiad Polisi hwn a'r mesurau eraill a gymerwyd mewn ymateb i'r pandemig yn yr adran ar goronafeirws.

Ein blaenoriaethau allweddol

- Marchnadoedd glân sy'n ei gwneud yn anodd cyflawni cam-drin y farchnad – mae cam-drin y farchnad yn achosi niwed drwy alluogi cyflawnwyr i elwa'n annheg ar draul cyfranogwyr eraill y farchnad. Mae hyn yn bygwth hyder a chyfranogiad mewn marchnadoedd cyfanwerthu.
- Dylai trosglwyddo'n drefnus o LIBOR – trosglwyddo o LIBOR i feincnodau cyfradd llog di-risg, yn y tymor hir, gynyddu cyfanwydd y farchnad drwy symud marchnadoedd i feincnodau mwy cadarn. Mae'n bwysig bod y newid hwn yn digwydd mewn ffordd drefnus a bod cwmnïau'n rheoli'r risgiau o drosglwyddo, gan gynnwys risgiau ymddygiad.
- Gwrthdaro buddiannau – mae hwn yn risg ymddygiad allweddol mewn marchnadoedd cyfanwerthu. Mae adnabod ac atal neu reoli'r rhain yn helpu i sicrhau bod cwmnïau'n gweithredu er lles gorau eu cleientiaid ac yn eu trin yn deg.

Blaenoriaethau trawsbynciol – mae ein gwaith yn ystod 2019/20 wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau sy'n torri ar draws sectorau, gan gynnwys troseddau ariannol, llywodraethu, gwytnwch gweithredol, ac ymadael â'r UE. Ceir manylion y gweithgareddau hyn yn yr adrannau traws-sectorol.

Ein gweithgareddau penodol

Hyrwyddo marchnadoedd ariannol glân

Y canlyniad cyffredinol rydym yn ceisio'i gyflawni yw marchnadoedd glân sy'n ei gwneud yn anodd cyflawni cam-drin y farchnad a throseddau ariannol..


Mewn marchnadoedd cyfanwerthu, gall bygythiadau i gyfanrwydd y farchnad ddod o ystod eang o fodolau busnes – o fanciau buddsoddi rhyngwladol hyd at froceriaid bach ac ar draws marchnadoedd sylfaenol ac eilaidd.

Gwella ansawdd adroddiadau trafodion cwmnïau

Rhaid i gwmnïau adrodd am drafodion mewn marchnadoedd ariannol i ni. Mae pob un o'r adroddiadau trafodion hyn yn rhoi manylion yr offeryn ariannol a fasnachwyd, y pris, y prynwr a'r gwerthwr a dyddiad ac amser y trafodyn. Rydym yn defnyddio'r adroddiadau hyn i adnabod ac ymchwilio i gam-drin posibl yn y farchnad, sy'n ei gwneud yn hanfodol eu bod yn gyflawn ac yn gywir. Rydym yn monitro ansawdd yr adroddiadau hyn yn ofalus, wedi'u hategu gan dechnoleg a all asesu miliynau o adroddiadau trafodion a chreu rhybuddion, fel y gallwn nodi materion ansawdd data. Rydym yn defnyddio'r rhybuddion hyn i adnabod cwmnïau sy'n anfon data a allai fod yn anghywir ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gywiro'r holl wallau a hepgoriadau.

Un agwedd ar ein ffocws eleni fu'r maes prisiau, sy'n hanfodol ar gyfer pennu gwerth trafodyn ac mae'n allweddol wrth ymchwilio i gam-drin y farchnad. Mae un o'n rhybuddion prisiau yn tynnu sylw at adroddiadau trafodion sy'n cynnwys gwerth ym maes prisiau sydd y tu allan i'r amrediad dyddiol ar gyfer yr offeryn masnachu, gan awgrymu y gallai'r adroddiad fod yn anghywir. Wedi adnabod hyn fel mater posibl yn Ch1 2019, rydym wedi bod yn cysylltu â chwmnïau sy'n cyflwyno data prisiau sydd y tu allan i ystod yr offeryn a fasnachwyd. O ganlyniad, eleni rydym wedi gweld gwelliant sylweddol yn ansawdd y data.

Mae'r gwaith hwn i wella ansawdd data adrodd ar drafodion yn cael effaith uniongyrchol ar ein gallu i gynnal gwell gwyladwriaeth ar gam-drin y farchnad a helpu i sicrhau cyfanrwydd ein marchnadoedd. of our markets.



Rydym wedi gweithredu rhybuddion ansawdd data adrodd trafodion newydd ac wedi defnyddio ein cyhoeddiad 'Market Watch', rhifyn 59 a 62, i roi cyhoedduswydd i wallau cyffredin i gwmnïau. O ganlyniad, mae cwmnïau wedi cywiro nifer fawr o adroddiadau trafodion (gweler yr astudiaeth achos uchod am ragor o fanylion). Bu cynnydd hefyd yn nifer y cwmnïau sy'n gofyn am samplau o'u data adrodd trafodion i wella eu gwaith monitro ansawdd data eu hunain. Mae gwell ansawdd y set ddata hon yn ein helpu i ganfod ac ymchwilio i gam-drin posibl yn y farchnad.

Buom yn gweithio gyda chwmnïau sy'n darparu gwasanaethau noddi a brocera corfforaethol i gryfhau eu rheolaethau dros y wybodaeth fewnol sydd ganddynt yn eu rôl yn cynghori cwmnïau rhestredig. Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau eisoes wedi gwella eu rheolaethau mewn ymateb i'n hadborth ac mae'r lleill wrthi'n gwneud hynny. Disgwylw

i hyn gryfhau ymhellach fframweithiau rheoli ar gyfer gwybodaeth fewnol a lleihau'r risg o gam-drin y farchnad.

Yn ystod 2019/20 cawsom gyfanswm o 5,336 o Adroddiadau Trafodion a Threfn Amheus gan y diwydiant a 788 o hysbysiadau allanol eraill am gam-drin posibl yn y farchnad. O ganlyniad, agorwyd 415 o adolygiadau rhagarweiniol o gam-drin y farchnad. O'r rhain, rydym wedi dechrau 53 o ymchwiliadau gorfodi a 102 o gamau nad ydynt yn rhai gorfodi, gan gynnwys ymyriadau goruchwylio a chyhoeddi llythyrau addysg.

Er na ellir defnyddio'r lefel hon o weithgarwch fel procsi ar gyfer lefel cam-drin y farchnad ym marchnadoedd ariannol y DU, mae'n dangos ein ffocws ar ganfod ac ymchwilio i gam-drin y farchnad, atal camweddau ac addysgu cyfranogwyr y farchnad am y niwed y mae cam-drin y farchnad yn ei achosi i'r economi.

Ystadegau glendid y farchnad

Rydym yn nodi nifer o ddangosyddion glendid y farchnad bob blwyddyn. Rydym hefyd yn parhau â'n gwaith i ehangu'r ystod o ddangosyddion a gyhoeddir gennym. Yn ystod 2019/20 rydym wedi datblygu metrig newydd o'r enw 'Cymhareb Masnachu Anrheolaidd Posibl (PATR)'. Mae ein diweddariad diweddaraf ar Ystadegyn Glendid y Farchnad, metrig Swm Masnachu Annormal a'r canlyniadau ar gyfer y PATR i'w gweld ar ein [gwefan](#).

Cefnogi'r broses o drosglwyddo o LIBOR

Ochr yn ochr â Banc Lloegr, rydym wedi gweithio gyda chwmnïau i gefnogi cyfnod trosglwyddo trefnus o LIBOR ac i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg ac yn rhannu manteision y trosglwyddiad hwn..

Yn dilyn ein llythyr Annwyl Brif Swyddog Gweithredol LIBOR, at fanciau ac yswirwyr mwyaf y DU, yn 2018/19, ym mis Mehefin 2019 rhoesom adborth unigol i'r cwmnïau hyn ar eu cynnydd. Cyhoeddwyd [datganiad adborth](#) gennym hefyd y gallai pob cwmni ei ystyried ar gyfer eu cynllunio trosglwyddo. Gwnaethom egluro ein disgwiliadau gan gwmnïau, gan gynnwys drwy gyhoeddi atebion i [gwestiynau allweddol](#) ar risg ymddygiad a [llythyr ar y cyd](#) â'r PRA at uwch reolwyr cwmnïau. Buom hefyd yn gweithio gyda diwydiant, gan gynnwys y Gymdeithas Cyfnewid a Deilliadau Rhyngwladol, ar ddatblygu anfanteision cadarn ar gyfer contractau LIBOR.

Er bod coronafeirws yn debygol o effeithio ar amseriad rhai agweddau ar raglenni trosglwyddo llawer o gwmnïau, y dybiaeth ganolog o hyd yw na all cwmnïau ddibynnu ar LIBOR ar ôl diwedd 2021. Dylai hyn barhau i fod yn ddyddiad targed i gwmnïau.

Lliniaru gwrthdaro buddiannau

Cyflwynodd MiFID II ofynion newydd i gwmnïau sy'n tanysgrifennu a gosod busnes i reoli gwrthdaro, gan gynnwys gwrthdaro rhyngddynt hwy a'u cleientiaid cyhoeddwr. Ym mis Ebrill 2019, fe wnaethom gyhoeddi [canfyddiadau](#) ein hadolygiad o sut mae cwmnïau wedi cymhwyso'r gofynion hyn.

Effeithiolrwydd Marchnadoedd Sylfaenol

Y canlyniad rydym yn ceisio'i gyflawni yw sicrhau bod ein Rheolau Rhestru yn parhau i annog cwmnïau i godi cyfalaf yn y DU a darparu cyfleoedd buddsoddi i fuddsoddwyr, tra'n sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli mewn ffordd effeithiol a chymesur.

Ym mis Mawrth 2020, fe wnaethom [gyhoeddi](#) ein hymgyngoriad ar gyfer cyfundrefn

restru fwy cymesur ar gyfer cwmnïau buddsoddi penagored (OEICs). Dylai'r newidiadau arfaethedig hyn sicrhau bod rhwymedigaethau OEICs yn y Rheolau Rhestru yn fwy cymesur ac wedi'u teilwra'n fwy i'w modelau busnes. Bydd hyn yn golygu nad oes rhaid i'r cyhoeddwr ysgwyddo costau ychwanegol i gydymffurfio â gofynion nad ydynt yn ychwanegu gwerth sylweddol i fuddsoddwyr. Rydym wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'n hymgynghoriad hyd at 1 Hydref 2020.

Gweithredu Rheoliad Prosbectws yr UE

Daeth Rheoliad Prosbectws yr UE i rym ym mis Gorffennaf 2019. Mae'n mireinio'r drefn prosbectws sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau sicrhau bod gan fuddsoddwyr y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau buddsoddi gwybodus a helpu cwmnïau i godi cyfalaf yn effeithlon ar farchnadoedd a reoleiddir yn y DU.

Adroddiadau corfforaethol yn y Fformat Electronig Sengl Ewropeaidd (ESEF)

Rydym wedi gweithio i weithredu'r rheolau Ewropeaidd ar gyfer cyhoeddi a ffeilio electronig o adroddiadau ariannol blynyddol ar ffurf y gellir ei darllen gan beiriant ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau o fis Ionawr 2020. Nod y diwygiadau hyn yw gwella pa mor hawdd y mae buddsoddwyr yn gallu gwerthuso perfformiad cwmnïau sydd â gwarantau a dderbynnir i fasnachu ar farchnad a reoleiddir. Ers hynny, rydym wedi lansio ymgynghoriad sy'n cynnig oedi o flwyddyn i adroddiadau gorfodol ar ffurf ESEF. Mae hyn yn sgil coronafeirws a'n hawydd i leddfu'r beichiau rheoleiddio ar hyn o bryd. Gall cwmnïau barhau i adrodd yn wirfoddol ar ffurf ESEF, ac rydym yn parhau i ddatblygu'r seilwaith i dderbyn yr adroddiadau hyn.

Cymryd camau yn erbyn torri ein Rheolau Egwyddorion Rhestru a Datgelu

Mae marchnadoedd tryloyw yn dibynnu ar y cyhoeddwr gan sicrhau eu bod yn darparu datgeliadau i'r farchnad sy'n amserol, yn gywir ac nad ydynt yn cynnwys unrhyw wybodaeth gamarweiniol. Fel rhagofyniad, mae angen i'r cyhoeddwr fod â gweithdrefnau, systemau a rheolaethau digonol ar waith i fodloni eu rhwymedigaethau datgelu. Dylai hyn olygu bod holl gyfranogwyr y farchnad, gan gynnwys buddsoddwyr presennol a darpar fuddsoddwyr, yn derbyn y wybodaeth sydd ei hangen arnynt a ffurfio prisiau'n effeithiol.

Ar 28 Mehefin 2019, cafodd cwmni rhestredig premiwm, Cathay International Holdings Limited (Cathay), ddirwy o £411,000, a 2 o'i gyfarwyddwyr £214,300 a £40,200.

Gwelsom fod Cathay wedi torri ein Rheolau Egwyddorion Rhestru a Datgelu a Rheolau Tryloywder, a bod y 2 gyfarwyddwr yn ymwneud yn fwriadol â rhai o'r achosion hyn o dorri'r rheolau.

Gwaethygodd perfformiad ariannol Cathay yn ystod 2015. Fodd bynnag, roedd methiannau difrifol mewn gweithdrefnau, systemau a rheolaethau yn golygu nad oedd Cathay yn monitro effaith lawn materion ar ei berfformiad ariannol disgwylidig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2015 o gymharu â disgwyliadau'r farchnad. O ganlyniad i'r methiannau hyn, bu Cathay yn ddi-hid wedyn wrth beidio â datgelu i'r farchnad, cyn gynted ag y dylai fod wedi gwneud hynny, newid sylweddol yn ei berfformiad gwirioneddol a disgwylidig o gymharu â disgwyliadau'r farchnad.

Yn ogystal, penderfynwyd nad oedd Cathay yn 2016 yn delio â'r FCA mewn modd agored a chydweithredol wrth ymateb i gais am wybodaeth.

Mynediad at ddata a'r defnydd ohono mewn marchnadoedd ariannol cyfanwerthol

Mae'r cyflenwad o ddata ar y farchnad yn hanfodol i weithrediad marchnadoedd ariannol cyfanwerthu. Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddwyd Galwad am Fewnbwn (CFI) ar 'Gael gafael ar ddata cyfanwerthu a'i ddefnyddio' er mwyn deall yn well sut mae cwmnïau'n cael gafael ar ddata ac yn ei ddefnyddio a dadansoddiadau uwch. Roeddem hefyd am asesu'r gwerth a gynigir i gyfranogwyr y farchnad ac a yw data'n cael ei werthu a'i brisio'n gystadleuol. Mae hyn yn rhan o'n hymdrechion parhaus i sicrhau bod marchnadoedd cyfanwerthu yn darparu amrywiaeth o gynhyrchion a gwasanaethau gwerth da o ansawdd uchel i gyfranogwyr y farchnad. Awgrymodd adborth o'n hastudiaethau blaenorol efallai na fydd lleoliadau masnachu a gweinyddwyr meincnod yn wynebu digon o bwysau cystadleuol, gan ganiatáu iddynt godi prisiau uchel ar gleientiaid a chystadleuwyr. Rydym am wybod a yw hyn yn wir, pa ddefnyddwyr sy'n cael eu heffeithio a pham. Bydd y dystiolaeth a gawn gan y CFI hwn yn ein galluogi i benderfynu a oes angen i ni wneud rhagor o waith i fynd i'r afael ag unrhyw niwed, yn ogystal â sicrhau nad yw ein rheoliadau'n llesteirio arloesedd.

Tryloywder masnach a hylifedd y farchnad

Rydym yn monitro cyfrannau'r masnachau a wneir ar leoliadau sydd â lefelau datgelu masnach amrywiol a lefelau hylifedd y farchnad. Rydym yn rhoi mwy o fanylion am y dangosyddion hyn ar ein gwefan.

Rheoli buddsoddiadau

Mae'r sector rheoli buddsoddiadau yn cwmpasu rheoli asedau, gwasanaethau cyfryngwr sefydliadol a chynghori, a gwasanaethau gweinyddu cystodaeth a buddsoddi. Ein nod yw cael sector sy'n weithredol wydn sy'n darparu amrywiaeth o gynhyrchion gwerth da i fuddsoddwyr sefydliadol a manwerthu mewn marchnad lân a threfnus.

Wynebodd y sector heriau oherwydd y lefelau uchel o ansfydlogrwydd yn y farchnad ac adbrynu buddsoddwyr yn dilyn yr achosion o goronafeirws. Mae'r sefyllfa economaidd ddilynol hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cwmnïau sy'n sicrhau bod y cynhyrchion y maent yn eu cynnig i gwsmeriaid yn bodloni disgwyliadau ac yn cynnig gwerth da. Mae canlyniadau blaenoriaeth yn cynnwys:

- Priso ac ansawdd: dylai rheolwyr cronfeydd weithio i ddarparu cynhyrchion sy'n cynnig gwerth da er gwaethaf yr amodau economaidd.
- Gwytnwch gweithredol: mae mwy o anwadalrwydd ac aflonyddwch yn cyflwyno heriau o ran sicrhau parhad gwasanaeth i gwsmeriaid, yn ogystal â monitro a goruchwyllo.

Ein blaenoriaethau allweddol

- Gwerth cynhyrchion – ein nod yw sicrhau bod gan ddefnyddwyr fynediad at amrywiaeth o gynhyrchion sy'n werth da ac sy'n diwallu eu hanghenion buddsoddi.
- Mae ein gwaith traws-sectorol ar wytnwch gweithredol hefyd yn arbennig o berthnasol i'r sector hwn. Ceir rhagor o fanylion yn yr adran ar wytnwch gweithredol.

Ein gweithgareddau penodol

Astudiaeth o'r Farchnad Rheoli Asedau (AMMS)

Y maes allweddol sy'n peri pryder i ni yw cynhyrchion a gwasanaethau rheoli asedau gwerth gwael. Rydym am i ddefnyddwyr allu cael gafael ar amrywiaeth o gynhyrchion sy'n werth da a'u dewis o amrywiaeth o gynhyrchion sy'n werth da ac sy'n diwallu eu hanghenion buddsoddi. Adnabu'r AMMS lawer o broblemau sy'n achosi niwed i ddefnyddwyr. Roedd y rhain yn cynnwys cystadleuaeth prisiau gwan mewn sawl rhan o'r diwydiant rheoli asedau, sy'n golygu nad oedd buddsoddwyr bob amser yn cael cynhyrchion gwerth da.

Yn ystod 2019/20 rydym wedi gwneud sawl newid i'n Llawlyfr, gan gynnwys:

- rheolau sy'n gwahardd rheolwyr cronfeydd rhag gwneud elw bocs di-risg ar gronfeydd deuol
- ei gwneud yn ofynnol i reolwyr cronfeydd egluro pam neu sut mae eu harian yn defnyddio meincnodau penodol a'u defnyddio'n gyson
- ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau gyfrifo ffioedd perfformiad yn seiliedig ar berfformiad y cynllun ar ôl didynnu'r holl ffioedd eraill
- ei gwneud yn ofynnol i Reolwyr Cronfeydd Awdurdodedig gynnal asesiad blynyddol o bob cronfa yn erbyn rhestr benodol o ffactorau gwerth, cyhoeddi crynodeb o'r canlyniadau ac unrhyw gamau a gymerwyd
- ei gwneud yn ofynnol i AFMs benodi 2 gyfarwyddwr annibynnol (neu 25%) o gorff llywodraethu pob AFM

Mae'r mesurau hyn yn gwneud costau'n fwy tryloyw, yn gwneud amcanion y gronfa yn gliriach ac yn gwella'r broses o adrodd ar berfformiad. Maent yn galluogi i fuddsoddwyr ddod o hyd i well gwerth, ysgogi pwysau cystadleuol ar reolwyr asedau a gwella effeithiolrwydd cyfryngwyr.

Amcangyfrifodd y gwerthusiad fod defnyddwyr wedi arbed rhwng £39m a £330m y flwyddyn oherwydd y newidiadau hyn. Gosodir hyn yn erbyn costau o tua £4m y flwyddyn i gwmnïau.

Credwn fod hyn o ganlyniad i:

- Ffocws cynyddol cwmnïau ar arferion adnewyddu – nid yw premiymau a gynigir wrth adnewyddu ar gyfer yswiriant cartref a moduron wedi cynyddu cymaint ag y byddent wedi'i wneud heb ein hymyriad.
- Defnyddwyr yn gwneud penderfyniadau mwy gweithredol drwy ymgysylltu a siopa o gwmpas. Arweiniodd ein hymyriadau at fwy o ddefnyddwyr yn trafod neu'n newid i adnewyddu yswiriant moduron ac anifeiliaid anwes, ond llai mewn yswiriant cartref.

Camau yn erbyn Triton Insurance Brokers Limited (Triton) – Ar 17 Chwefror 2020, fe wnaethom ddileu caniatâd Triton i gynnal busnes a reoleiddir. Cymerasom y camau hyn oherwydd dywedodd Triton wrth gwsmeriaid ei fod wedi adnewyddu eu polisiâu yswiriant mewn amgylchiadau lle na chaniatawyd hynny ac ni throsglwyddodd breimiymau yswiriant cwsmeriaid i yswirwyr gan eu gadael heb bolisi yswiriant dilys. Ni wnaeth Triton ymateb dro ar ôl tro i'n gohebiaeth. Roedd angen i Triton ad-dalu'r cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt a chyhoeddwyd [rhybudd](#) i bob cwsmer a brynodd bolisi yswiriant drwy Triton.

Buddsoddiadau Manwerthu

Mae'r sector buddsoddiadau manwerthu yn cwmpasu dosbarthu cynhyrchion buddsoddi i ddefnyddwyr drwy amrywiaeth o sianeli gwahanol, gan gynnwys cynghorwyr ariannol, rheolwyr a llwyfannau cyfoeth.

Mae cyfraddau llog isel parhaus wedi lleihau elw mewn dosbarthiadau asedau mwy diogel, gan arwain at lawer o ddefnyddwyr yn penderfynu cymryd mwy o risg wrth chwilio am gynnyrch uwch. Mae wedi arwain at demtio rhai gan enillion a addawyd o fuddsoddiadau risg uchel, ac weithiau twyllodrus.

Mae ansefydlogrwydd y farchnad a achosir gan goronafeirws wedi cynyddu'r potensial ar gyfer colledion o fuddsoddiadau risg uchel. Mae hefyd wedi effeithio ar hylifedd buddsoddiadau manwerthu. Rydym wedi bod mewn cysylltiad cyson â chwmnïau i'w helpu i roi'r cymorth a'r gwasanaeth sydd eu hangen ar eu cwsmeriaid. Mae'r pandemig hefyd wedi cynyddu'r perygl i ddefnyddwyr. Gall hyn arwain at rai defnyddwyr yn gorfod ildio eu buddsoddiadau, oherwydd yr angen dybryd am y cyfalaf, tra bod gwerth y buddsoddiadau hyn yn isel.

Ein blaenoriaethau allweddol

- Cynhyrchion buddsoddi risg uchel – mae'r niwed mwyaf arwyddocaol i ddefnyddwyr wedi deillio'n uniongyrchol o amlygiad cynyddol defnyddwyr i risg buddsoddi, yn enwedig lle maent wedi buddsoddi mewn cynhyrchion a oedd yn eu hamlygu i fwy o risg nag y gallent ei oddef neu ei fforddio.
- Addasrwydd y cyngor – mae hyn wedi parhau i fod yn ffocws allweddol i'n gwaith goruchwyllo, gan gynnwys cryfhau ein ffocws ar gynghorwyr. Nod ein gwaith yma yw atal unigolion sydd wedi'u gwahardd neu unigolion troseddol rhag symud o amgylch y diwydiant a sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg cyn i gwmni ymadael â'r farchnad.
- Mynd i'r afael â sgamiau mewn buddsoddiadau manwerthu – rydym wedi parhau â'n hymgyrch ScamSmart gan ddefnyddio hysbysebion teledu, radio ac ar-lein i roi'r arwyddion rhybudd i ddefnyddwyr i helpu i weld pryd mae cyfle buddsoddi neu bensiynau arfaethedig yn sgam.

Ein gweithgareddau penodol

Cynhyrchion buddsoddiadau manwerthu risg uchel

Mae 9% o ddefnyddwyr y DU wedi buddsoddi mewn asedau amgen ar hyn o bryd, gydag amcangyfrif o 1.2% o oedolion ym Mhrydain yn dal bondiau bach manwerthu. Mae'r cynhyrchion hyn yn aml yn cael eu marchnata'n uniongyrchol i ddefnyddwyr manwerthu, yn aml gyda chyfathrebu gwael am y risgiau gwirioneddol. Mae'r cynhyrchion hyn wedi bod yn ffocws sylweddol i ni yn 2019/20. Rydym am sicrhau bod cynhyrchion yn cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion defnyddwyr, yn sicrhau gwerth am arian, ac yn cael eu marchnata mewn ffordd deg, glir ac nid mewn ffordd gamarweiniol.

Fe wnaethom gyhoeddi cyfyngiad dros dro ar gynnyrch ar farchnata bondiau bach hapfasnachol i'r rhan fwyaf o gwsmeriaid manwerthu. Daeth hyn i rym ar 1 Ionawr 2020 a bydd yn para am 12 mis wrth i ni ymgynghori ar wneud rheolau parhaol. Lanswyd ymgrych gyfathrebu i wella ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r risgiau ac i ddweud wrthynt

yr hyn y dylent ei ystyried cyn buddsoddi mewn buddsoddiadau risg uchel.

Ym mis Gorffennaf 2019, gwnaethom osod cyfyngiadau oar sut y gellid gwerthu Contractau ar gyfer Gwahaniaethau (CFDs) i gleientiaid manwerthu. Bydd y cyfyngiadau hyn yn lleihau niwed i ddefnyddwyr manwerthu drwy sicrhau nad yw'r opsiynau CFDs a thebyg i CFDs hyn yn cael eu gwerthu gyda nodweddion risg gormodol, tra'n parhau i ganiatáu gwerthiant i'r rhai sy'n deall y risgiau ac sy'n gallu ysgwyddo'r colledion posibl. Cynlluniwyd y cyfyngiadau gennym i sicrhau bod cwmnïau'r DU yn cystadlu er lles gorau defnyddwyr manwerthu, yn hytrach na thrwy ostwng safonau ymddygiad a/neu gynnig cynhyrchion neu wasanaethau i ddefnyddwyr manwerthu nad ydynt yn briodol ar eu cyfer.

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddwyd canllawiau gennym hefyd i egluro'r mathau o cryptoasedau sy'n dod o fewn ein rheoliad ac ymgyngorwyd ar waharddiad ar gynhyrchion buddsoddi sy'n cyfeirio at cryptoasedau (fel deilliadau). Nod y cynigion ymgynghori oedd lleihau'r niwed i ddefnyddwyr manwerthu a achoswyd drwy werthu deilliadau a Nodiadau Masnach Cyfnewid sy'n cyfeirio at cryptoasedau.

Ym mis Medi 2019, cyflwynwyd rheolau newydd gennym ar asedau anghyfreithlon a ddelir o fewn cronfeydd penagored. Rydym yn rhoi manylion am hyn yn yr adran rheoli buddsoddi. Roedd nifer o waharddiadau ar y gronfa eiddo ym mis Mawrth 2020 oherwydd ansefydlogrwydd y farchnad a achoswyd gan goronafeirws. Buom yn gweithio'n agos gyda chwmnïau a ataliodd gronfeydd eiddo i sicrhau bod y cau hwn yn cael ei reoli'n briodol a bod cwmnïau'n cyfathrebu'n brydlon â defnyddwyr.

Asesu addasrwydd cyngor a datgelu

Rydym am sicrhau bod defnyddwyr yn cael cyngor addas a bod y cynhyrchion a argymhellir yn gweddu i'w hanghenion. Rydym yn parhau i fynd i'r afael â chyngor trosglwyddo Buddiannau Diffiniedig anaddas drwy oruchwyllo cwmnïau cynghori sy'n rhoi cyngor trosglwyddo. Rydym wedi cymryd camau gorfodi lle'r ydym wedi nodi camymddwyn difrifol. Rydym yn rhoi rhagor o fanylion yn yr adran bensiynau.

Rydym wedi oedi ein gwaith dilynol ar asesu addasrwydd cyngor, a oedd yn canolbwyntio ar gyngor incwm ymddeol, i alluogi i gwmnïau flaenoriaethu ymateb i argyfwng coronafeirws.

Tan 31 Ionawr 2020, cymerwyd rhan yn Ymgynghoriad ar y Cyd Awdurdodau Goruchwyllo Ewropeaidd (ESA) yr UE ar PRIIPS. Mae'r ESA yn adolygu safonau technegol rheoleiddio PRIIPs i'w alluogi'n well i gyflawni ei swyddogaeth graidd o ddarparu gwybodaeth dryloyw a dealladwy am gynhyrchion buddsoddi i fuddsoddwyr manwerthu.

Adolygiad ôl-weithredu o ganlyniadau RDR a FAMR

Nod yr Adolygiad Dosbarthu Manwerthu (RDR) a'r Adolygiad o'r Farchnad Cyngor Ariannol (FAMR) oedd gwella canlyniadau defnyddwyr o gyngor ac chyfarwyddyd ariannol. Rydym yn adolygu eu heffaith ar y farchnad hyd yma, ac yn asesu sut y gallai'r farchnad ddatblygu, er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion defnyddwyr yn awr ac yn y dyfodol. Byddwn yn cyhoeddi canlyniad ein hadolygiad yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Astudiaeth marchnad llwyfannau buddsoddi

Nododd Adroddiad Terfynol ein hastudiaeth o'r farchnad ein pryderon bod defnyddwyr yn aml yn canfod ei bod yn anodd symud o un llwyfan i'r llall, oherwydd amser, cymhlethdod a chost. Rhwystrau i newid cystadleuaeth gyfyngedig yn y farchnad. Rydym am sicrhau bod defnyddwyr yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus a newid i ddarparwyr sy'n diwallu eu hanghenion yn well.

Ym mis Rhagfyr 2019, cyflwynwyd rheolau newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i lwyfannau gynnig trosglwyddiadau uniongyrchol o asedau (trosglwyddo mewn-manylion) lle bo hynny'n bosibl. Bydd y rhain yn sicrhau nad yw defnyddwyr yn cael eu gorfodi i ddiddymu eu daliadau i newid llwyfannau'n ddiangen a byddant yn annog mwy o gystadleuaeth drwy gael gwared ar y rhwystrau i newid. Rydym wedi oedi cyn gweithredu tan fis Chwefror 2021 oherwydd coronafeirws.

Pensiynau ac incwm ymddeol

Mae'r sector cynilon pensiynau ac incwm ymddeol yn chwarae rhan hollbwysig o ran galluogi i filiynau o bobl gynilo ar gyfer eu dyfodol ac ariannu eu hymddeoliad. Mae ein data Financial Lives 2020 yn dangos bod gan 74% o oedolion y DU ddarpariaeth pensiwn preifat naill ai drwy gynilo i bensiwn neu ar ôl cael un yn 2020, gan gynyddu o 66% yn 2017. Mae rhyddid pensiynau 2015 y Llywodraeth, a'r newid o bensiynau Budd Diffiniedig (DB) i gyfraniadau diffiniedig (DC), wedi rhoi mwy o gyfrifoldeb ar ddefnyddwyr am benderfyniadau buddsoddi cymhleth. Wrth gau cynlluniau DB, y buddsoddiadau hyn yw'r rhan fwyaf arwyddocaol o gyfanswm cyfoeth ariannol defnyddwyr.

Pan nad yw'r sector hwn yn gweithio'n dda, gall colledion defnyddwyr, naill ai drwy daliadau uchel, penderfyniadau buddsoddi amhriodol neu gyngor anaddas, gael effaith drychinebus. Er y bydd effaith coronafeirws yn amrywio yn dibynnu ar y math o bensiwn ac asedau sylfaenol, mae ansefydlogrwydd y farchnad a achosir gan coronafeirws yn cynyddu'r risgiau hyn. Er enghraifft, gallai defnyddwyr sy'n newid neu'n casio eu buddsoddiadau pensiynau grisialu colledion, gan arwain at incwm ymddeol parhaol is.

Rydym wedi bod mewn cysylltiad cyson â chwmnïau i'w helpu i roi'r cymorth a'r gwasanaeth sydd eu hangen ar eu cwsmeriaid. Ym mis Ebrill 2020, cyhoeddwyd [canllawiau](#) gennym i gwmnïau yn tynnu sylw at sut gallant ddarparu gwybodaeth i'w cwsmeriaid a'u cefnogi drwy'r ansefydlogrwydd hwn yn y farchnad, heb grwydro i gyngor a reoleiddir.

Ein blaenoriaethau allweddol

- Helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau pensiynau gwell – rydym yn parhau i bryderu am gyngor trosglwyddo pensiwn buddiannau diffiniedig anaddas. Rydym wedi canolbwyntio ar wella canlyniadau trosglwyddiadau pensiwn DB fel bod mwy o ddefnyddwyr yn cael cyngor addas.
- Gwerth am arian – rydym am sicrhau nad yw defnyddwyr yn dioddef niwed oherwydd pwysau cystadleuol gwan. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio i greu fframwaith ar gyfer Pwyllgorau Llywodraethu Annibynnol (IGCs) i asesu gwerth am arian y cynlluniau gweithle y maent yn eu goruchwylio, er mwyn hyrwyddo dull cyson rhwng IGCs ac ymddiriedolwyr.

Ein gweithgareddau penodol

Gweithredu ein rhwymedïau Adolygu Canlyniadau Ymddeol (ROR)

ar gyfer cyflwyno llwybrau buddsoddi, y mae'n rhaid i ddarparwyr sy'n tynnu i lawr eu cynnig i ddefnyddwyr nad ydynt yn cael eu cynghori. Y nod yw helpu defnyddwyr nad ydynt yn cael eu cynghori i dynnu i lawr i ddewis cynnyrch buddsoddi sy'n cyfateb i'w hamcanion ymddeol.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â gwerth gwael am arian. Gwnaeth rhwymedïau ROR hi'n ofynnol i ddarparwyr pensiynau hefyd roi gwybodaeth flynyddol i ddefnyddwyr am y costau a'r taliadau y maent wedi'u talu. Rhaid mynegi'r rhain fel un ffigur o bunnoedd a cheiniogau, fel y gall defnyddwyr deall yn hawdd y taliadau y maent yn eu talu.

Gohiriwyd gweithredu tan fis Chwefror 2021 oherwydd coronafeirws.

Cystadleuaeth effeithiol mewn pensiynau nad ydynt yn ymwneud â'r gweithle

Gall cystadleuaeth rhwng darparwyr pensiwn fod yn sbardun pwysig i ddefnyddwyr o ran gwerth. Gall mwy o dryloywder wella pwysau cystadleuol yn y farchnad gan ddefnyddwyr a gall ei gwneud yn haws i arsylwyr y diwydiant, rheoleiddwyr, grwpiau defnyddwyr a sylwebyddion marchnad, graffu ar gynhyrchion. Y canlyniadau rydym am eu cyflawni yn y sector hwn yw: diogelu defnyddwyr nad ydynt neu na allant ymgysylltu â'u penderfyniad buddsoddi; gwneud taliadau'n fwy tryloyw a hawdd eu deall.

Canfu ein gwaith ar bensiynau nad ydynt yn ymwneud â'r gweithle fod ymgysylltu gwael â defnyddwyr, ynghyd â chynhyrchion a thaliadau cymhleth a dryslyd, wedi arwain at ddiffyg pwysau cystadleuol yn y farchnad bensiynau nad ydynt yn ymwneud â'r gweithle. Mewn ymateb, cyhoeddwyd [datganiad adborth](#) ym mis Gorffennaf 2019 yn awgrymu pecyn o fesurau posibl. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried cyflwyno atebion buddsoddi diodyn tebyg i'r rhai mewn pensiynau yn y gweithle a mesurau i leihau cymhlethdod a gwella gweledd taliadau parhaus.

Bwriadwn gyhoeddi papur ymgynghori yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Gwaith goruchwylio ar bensiynau personol hunan-fuddsoddedig (SIPP)

Parhaodd ein gwaith ar weithredwyr SIPP i ganolbwyntio ar gwmnïau sydd â lefelau uchel o asedau ansafonol yn eu cynlluniau. Buom yn gweithio'n agos gyda gweithredwyr SIPP i sicrhau eu bod yn gallu bodloni eu rhwymedigaethau ariannol wrth iddynt fod yn ddyledus. Mae'r pwysau hyn a ffactorau eraill wedi arwain at nifer o weithredwyr SIPP yn dechrau ansolfedd neu'n gwerthu eu llyfr cefn i gwmni arall. Buom yn gweithio gyda chwmnïau ac ymarferwyr ansolfedd i sicrhau bod asedau'n cael eu diogelu'n ddiogel a sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg.

Mynd i'r afael â throsglwyddiadau pensiwn anaddas

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar wella canlyniadau trosglwyddiadau pensiwn DB fel bod mwy o ddefnyddwyr yn cael cyngor addas. Mae hyn wedi cynnwys gwaith goruchwylio sylweddol ar gwmnïau sy'n achosi niwed i ddefnyddwyr, gan gynnwys asesiadau ac ymweliadau pellach â chwmnïau. Fel rhan o hyn, rydym wedi ymweld â'r rhan fwyaf o gwmnïau trosglwyddo DB gyda'r effaith fwyaf ac wedi ysgrifennu at dros 1,500 o'r cwmnïau effaith is.

Ym mis Gorffennaf 2019, ymgynghorwyd hefyd ar [newidiadau i'r rheolau](#) ar gyngor trosglwyddo pensiynau, gan gynnwys gwaharddiad arfaethedig ar godi tâl amodol.

Bwriad hyn yw mynd i'r afael â'r gwrthdaro buddiannau a grëir gan daliadau cyngor parhaus. Cyhoeddwyd ein datganiad polisi gennym ar 5 Mehefin 2020 sy'n nodi rheolau a chanllawiau newydd ar gyngor trosglwyddo pensiynau, yn enwedig buddiannau diffiniedig (DB) i drosglwyddiadau cyfraniadau diffiniedig.

Sgamiau

Mae diogelu defnyddwyr rhag sgamiau yn parhau i fod yn ffocws sylweddol. Rydym wedi parhau â'n hymgyrch ScamSmart gan ddefnyddio hysbysebion teledu, radio ac ar-lein i roi'r arwyddion rhybudd i ddefnyddwyr i helpu i weld pan fydd cyfle pensiynau arfaethedig yn sgam. Ceir rhagor o fanylion yn adran buddsoddiadau manwerthu'r ddogfen hon.

Ymestyn cylch gwaith y Pwyllgor Llywodraethu Annibynnol (IGC) ac adolygu effeithiolrwydd yr IGC

Ym mis Hydref 2019, cyhoeddwyd Datganiad Adborth gennym a oedd yn nodi ein dull o wella'r ffordd y mae marchnadoedd buddsoddi yn mesur ac yn datgelu ffactorau newid yn yr hinsawdd a ffactorau cyllid gwyrdd. Ein bwriad yw sicrhau y gall defnyddwyr wneud penderfyniadau effeithiol am 'gynhyrchion gwyrdd'. Bydd datgelu ac ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn effeithiol, yn ogystal â gwybodaeth am gynnyrch a gwasanaeth, hefyd yn helpu i alluogi dewis mwy effeithiol i ddefnyddwyr.

Yn dilyn hyn, newidiwyd ein rheolau i ymestyn cylch gwaith yr IGCs. Bydd yn rhaid iddynt yn awr ystyried ac adrodd ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu a goruchwylio gwerth am arian atebion llwybrau buddsoddi ar gyfer tynnu pensiwn i lawr. Ein rheolau newydd i ymestyn cylch gwaith IGCs i lwybrau buddsoddi yw rhan olaf ein pecyn o fesurau yn dilyn ein Hadolygiad o Ganlyniadau Ymddeol i wella canlyniadau i ddefnyddwyr nad ydynt yn cael eu cynghori i gael gafael ar eu cynilion pensiwn drwy dynnu i lawr.

Rydym wedi parhau i weithio i wneud costau'n fwy tryloyw ar draws y diwydiant pensiynau. Mae hyn yn cynnwys annog cwmnïau i fabwysiadu dulliau cyffredin ar gyfer datgelu costau a thaliadau. Rydym wedi adolygu effeithiolrwydd IGCs a Phwyllgorau Cynghori ar Lywodraethu (GAAs). Buom yn gweithio gydag 19 o gwmnïau i ystyried a oedd IGCs/GAAs wedi'u strwythuro'n briodol, wedi'u darparu a bod ganddynt y prosesau cywir ar waith i weithredu er budd aelodau'n effeithiol. Ym mis Mehefin 2020, cyhoeddwyd canfyddiadau ein Hadolygiad Effeithiolrwydd ar yr IGC. Ar yr un pryd, lansiodd ymgynghoriad gennym ar sut mae IGCs a GAAs yn cymharu gwerth am arian cynhyrchion a gwasanaethau pensiwn ac yn helpu i sicrhau gwerth i aelodau'r cynllun pensiwn. Ein nod yw gwneud y gymhariaeth hon yn haws.

Adolygiad o contractau allanol yn y sector yswiriant bywyd

Mae contractio allan yn arfer eang yn y sector bywyd a phensiynau. Rydym am sicrhau bod cwmnïau'n rheoli'n ddigonol y risgiau sy'n gysylltiedig â hyn er mwyn lleihau'r potensial ar gyfer niwed i ddefnyddwyr. Gwnaethom waith i asesu'r risgiau o niwed a allai ddeillio o ddiffyg gwytnwch gweithredol mewn cwmnïau a rheolaethau annigonol dros contract allanol. Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddwyd canfyddiadau'r adolygiad hwn gennym. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o fethiant eang i reoli'r risgiau i gwsmeriaid rhag rhoi contractau allanol, ond adnabuwyd rhai meysydd lle'r oedd angen i gwmnïau wella eu systemau a'u rheolaethau.

Cymryd camau yn erbyn gwerthiannau annheg o flwydd-daliadau heb eu cynghori

Ym mis Gorffennaf 2019 a mis Medi 2019, rhoddwyd dirwy o £30.8 miliwn Standard Life Assurance Limited (StandardLife) a £23.9 miliwn i The Prudential Assurance Company Limited (Prudential) am fethiannau a oedd yn gysylltiedig â gwerthu blwydd-daliadau heb eu cynghori. Nid oedd y cwmnïau hyn yn dweud yn gyson wrth gwsmeriaid a oedd yn agosáu at ymddeol gyda rhai amodau iechyd a/neu ffordd o fyw y gallent gael gwell blwydd-dal pe baent yn siopa o gwmpas. Gall y dewis o flwydd-dal effeithio ar gwsmeriaid am weddill eu hoes. Felly, achosodd methiannau'r cwmnïau niwed pellgyrhaeddol posibl.

O ganlyniad i'n camau gweithredu, talwyd iawndal o tua £25.3 miliwn i 15,302 o gwsmeriaid gan Standard Life. Cynigiodd Prudential tua £110 miliwn a oedd yn cynnwys taliadau blynyddol parhaus i tua 17,240 o gwsmeriaid.

6 Ein datganiad adran 172

Mae'r adran a ganlyn yn disgrifio sut y mae'r cyfarwyddwyr wedi rhoi sylw i'r materion a nodir yn adran 172(1)(a) i (f) o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Ymgysylltu â'n rhanddeiliaid

Mae'r Bwrdd yn dal yr FCA yn atebol am y ffordd y mae'n gweithio. Mae ganddo ddyletswydd i sicrhau bod yr FCA yn cyflawni ei amcanion statudol o sicrhau: bod y marchnadoedd perthnasol yn gweithio'n dda; ein bod yn gwarchod defnyddwyr; ein bod yn gwarchod marchnadoedd ariannol; a'n bod yn hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, mae'r Bwrdd yn ystyried buddiannau ein rhanddeiliaid mewnol ac allanol ac yn cydnabod bod ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid yn allweddol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae rhanddeiliaid allweddol yr FCA yn cynnwys ei gyflogeion, ei ddefnyddwyr, ei seneddwyr, ei reoleiddwyr rhyngwladol a domestig, ei fusnesau a'i unigolion a reoleiddir, ei gyflenwyr a'r cymunedau y mae'n gweithredu ynddynt.

Mae'r FCA yn gorff cyhoeddus annibynnol, sy'n atebol i'r Trysorlys ac sy'n gyfrifol am reoleiddio sector sy'n chwarae rhan hollbwysig ym mywydau pawb yn y DU. Mae hyn yn golygu bod ei rhanddeiliaid yn disgwyl iddo gyflawni ei amcanion statudol fwyfwy mewn byd ansicr sy'n newid yn gyflym, a gwneud hynny'n gyflymach fyth. Nod y Bwrdd yw cyflawni hyn drwy:

- Sicrhau ei fod yn ymgysylltu'n llawn â rhanddeiliaid i gael dealltwriaeth o'r materion sy'n bwysig iddynt.
- Darparu arweinyddiaeth strategol o fewn fframwaith o lywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol gadarn; gosod y diwylliant, y gwerthoedd a'r safonau sydd wedi'u gwreiddio ym mhob rhan o'r FCA ac chefnogi'r FCA i gyflawni er budd y cyhoedd.
- Ymrwymo i gyrraedd a chynnal safonau uchel o ymddygiad busnes. Mae ein datganiad Llywodraethu Corfforaethol ym Mhennod 8 yn rhoi rhagor o fanylion.

Yn y tabl isod rydym wedi esbonio'n fanylach yr ymgysylltu y mae'r Bwrdd wedi'i gael gyda rhanddeiliaid yn ystod 2019/20 a sut mae'r ymgysylltu hwn wedi helpu'r FCA i sicrhau gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau ariannol.

Grŵp rhanddeiliaid	Pam yr ydym yn ymgysylltu a'r hyn a ddywedodd ein rhanddeiliaid wrthym	Enghreifftiau o sut y gwnaethom ymgysylltu ac ymateb yn 2019/20
Ein pobl	<p>Ein gweithwyr yw'r allwedd i'n llwyddiant fel rheoleiddiwr. Rydym yn ceisio creu gweithle amrywiol a chynhwysol sy'n rhydd o wahaniaethu a rhagfarn fel y gall ein gweithwyr berfformio ar eu gorau a gallwn gyflawni'n well fel rheoleiddiwr. Un o'n gwerthoedd yw 'gweithio'n gynhwysol' ac un ffordd rydym yn cefnogi hyn yw drwy ein rhwydweithiau gweithwyr amrywiol. Mae gan y rhwydweithiau rôl bwysig ar ein hagenda amrywiaeth a chynhwysiant ac mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â'r grwpiau hyn i gefnogi'r gwaith hwn. Rydym hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Amrywiaeth blynyddol.</p> <p>Y materion allweddol i'n gweithwyr o ganlyniadau ein harolwg cyflogeion yn 2020 oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ein diben: eu balchder yn y gwaith rydym yn ei wneud a'r ymrwymiad parhaus i gyflawni Cenhadaeth ac amcanion yr FCA • cyfrifoldeb corfforaethol: deall sut rydym yn cyfrannu at gymdeithas ac yn ystyried effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol ein gweithredoedd • amrywiaeth: adlewyrchu'n well y gymdeithas a wasanaethwn a chan gynnwys barnau a safbwyntiau amrywiol yn ein gwaith • ein heffeithiolrwydd: mesur pa mor dda rydym yn cyflawni ein hamcanion statudol <p>Rydym yn ymgysylltu â llawer o grwpiau buddiant a sefydliadau anlywodraethol i'n helpu i adeiladu gweithlu mwy ymroddedig ac amrywiol. Mae hyn yn cynnwys bod y grŵp cyntaf i lofnodi Siarter Menywod mewn Cyllid y Llywodraeth, aelod o Fenywod ar Fyrddau, Stonewall, Cynghrair Iechyd Meddwl y Ddinas, Cyflogwyr Cynhwysol, Fforwm Anabledd Busnes, PurpleSpace, The Gender Network (We are The City gynt) a Chyflogwyr ar gyfer Gofalwyr.</p>	<p>Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n llawn â'n gweithwyr gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwahodd aelodau'r tim rheoli i gyflwyno'r materion sy'n cael eu trafod a chyfrannu atynt • Adolygu canlyniadau arolygon cyflogeion a monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu sy'n codi • Cael cyfarwyddwr anweithredol penodol, Catherine Bradley, sy'n gweithredu fel Hyrwyddwr Chwythu'r Chwiban mewnol yr FCA. Mae'r rôl hon yn cynnwys bod yn gyfrifol yn gyffredinol am sicrhau a goruchwyllo cyfanrwydd, annibyniaeth ac effeithiolrwydd ein polisi chwythu'r chwiban, gan gynnwys diogelu chwythwyr chwiban, ac mae'n darparu llinell adrodd ddiennw ar gyfer codi pryderon yn uniongyrchol gyda'r Bwrdd • Derbyn diweddariadau rheolaidd gan y Pwyllgor Ymgynghorol Staff (SCC) i drafod materion sy'n bwysig i staff yr FCA a gwahodd cynrychiolydd o'r SCC i fynychu cyfarfod o'r Bwrdd i drafod materion sy'n peri pryder i staff. Mae'r SCC, y mae'r Bwrdd yn ei ystyried yn banel cynghori ffurfiol ar y gweithlu, yn un o linellau cyfathrebu pwysigaf yr FCA gyda'i gyflogeion ac mae'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd hefyd yn cyfarfod o bryd i'w gilydd â Chynrychiolwyr Staff i drafod materion staff • Cynnal 'sesiynau coffi' anffurfiol rheolaidd gyda'r Prif Weithredwr a grwpiau bach o weithwyr i gynnal sesiynau holi ac ateb a chasglu adborth gan weithwyr ar bob agwedd ar weithio yn y FCA • Cyfarwyddwyr yn cyfrannu erthyglau blog ar gyfer y fewnrwyd, er mwyn hysbysu ac ymgysylltu â'n gweithwyr

Grŵp rhanddeiliaid	Pam yr ydym yn ymgysylltu a'r hyn a ddywedodd ein rhanddeiliaid wrthym	Engbreiffiau o sut y gwnaethom ymgysylltu ac ymateb yn 2019/20
Defnyddwyr a sefydliadau defnyddwyr	<p>Fel corff cyhoeddus, ein rôl ni yw gwasanaethu budd y cyhoedd a gwneud gwahaniaeth i ddefnyddwyr. Mae ein penderfyniadau'n effeithio'n uniongyrchol ar les pobl, busnesau ac economi'r DU felly mae'n bwysig ein bod yn ymgynghori'n weithredol â defnyddwyr a chyrrff defnyddwyr.</p> <p>Mae'r prif ddefnyddwyr yr ydym am eu gwarchod yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> defnyddwyr manwerthu sy'n prynu cynhyrchion neu wasanaethau ariannol at eu defnydd neu eu budd eu hunain (fel morgaeisi, benthyciadau personol, ISAs neu gyngor buddsoddi) buddsoddwyr manwerthu mewn offerynnau ariannol (fel cyfranddaliadau a bondiau) busnesau bach sy'n prynu cynnyrch neu wasanaethau ariannol <p>Y prif bryderon a godwyd gan ddefnyddwyr gyda ni yn ystod 2019/20 oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> beth mae coronafeirws yn ei olygu i'w cyllid a'r cymorth sydd ar gael iddynt mynediad, ansawdd, fforddiadwyedd a dewis cynhyrchion a gwasanaethau ariannol derbyn triniaeth deg gan ddarparwyr gwasanaethau ariannol cost teyrngarwch wrth brynu cynhyrchion a gwasanaethau ariannol cyfathrebu clir ac effeithiol gan ddarparwyr gwasanaethau ariannol deall sut y gallai Brexit effeithio arnynt, yn enwedig os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb <p>Darllenwch fwy am y camau rydym wedi'u cymryd mewn ymateb yn ystod 2019/20 ym Mhenodau 2-5.</p>	<p>Mae'r Bwrdd yn ystyried barn defnyddwyr wrth wneud penderfyniadau mewn nifer o ffyrdd. Mae'n cael gwybodaeth a metrigau rheolaidd am ba mor dda yr ydym yn cyflawni ein hamcan gwarchod defnyddwyr ac yn lleihau niwed i ddefnyddwyr. Mae hefyd yn derbyn gwybodaeth am ymchwil defnyddwyr rydym wedi'i wneud. Mae ffynonellau gwybodaeth eraill yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Adborth gan Banel Defnyddwyr y Gwasanaethau Ariannol. Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau gan Gadeirydd y panel ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gynigion polisi gael eu trafod gyda'r panel Adolygu adborth i Bapurau Ymgynghori cyn cadarnhau rheolau newydd neu ddiwygiedig Cysylltiadau â sefydliadau defnyddwyr ac ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr ac elusennau fel Cyngor ar Bopeth a Stepchange Rhoi cyfle i randdeiliaid holi'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ynghylch sut y mae'r FCA wedi cyflawni yn erbyn ei amcanion strategol yn y Cyfarfod Cyhoeddus Blynyddol; Cyfarfod ac adolygu adroddiadau gan y Comisiynydd Cwynion ynghylch gweithrediad ein Cynllun Cwynion yn effeithiol. <p>Mae aelodau o'n tîm gweithredol hefyd yn cyfarfod yn uniongyrchol â defnyddwyr drwy ymweliadau rhanbarthol rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau a fforymau eraill gyda sefydliadau defnyddwyr.</p>

Grŵp rhanddeiliaid	Pam yr ydym yn ymgysylltu a'r hyn a ddywedodd ein rhanddeiliaid wrthym	Engbreiffiau o sut y gwnaethom ymgysylltu ac ymateb yn 2019/20
Cwmnïau ac unigolion a reoleiddir	<p>Mae ymddygiad a diwylliant y cwmnïau yr ydym yn eu rheoleiddio, a'r unigolion sydd â rolau allweddol yn y cwmnïau hynny, yn llywio'r canlyniadau i ddefnyddwyr a marchnadoedd. Nod ein hymgysylltiad â chwmnïau yw adnabod niwed posibl fel y gallwn ei leihau neu ei atal yn gynnar.</p> <p>Y materion a oedd yn bwysig i gwmnïau ac unigolion a reoleiddir yn seiliedig ar ganfyddiadau arolwg ar y cyd gan yr FCA a'r Panel Ymarferwyr yn 2019 oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ymadael â'r UE: derbyn canllawiau clir ar ofynion rheoliadol a diweddariadau rheolaidd Baich rheoleiddio: y swm a'r costau cysylltiedig i gwmnïau o geisiadau am wybodaeth Dealltwriaeth o gwmnïau: goruchwylwyr yn cael y profiad a'r wybodaeth gywir i arfer barn dda <p>Darllenwch fwy am y camau rydym wedi'u cymryd mewn ymateb yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ym Mhenodau</p> <p>Darllenwch fwy am y camau rydym wedi'u cymryd mewn ymateb yn 2019/20 ym Mhenodau 2-5.</p>	<p>Mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd am ein hymgysylltiad â chwmnïau ac unigolion a reoleiddir. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau ymgynghori â rhanddeiliaid a reoleiddir ar gyfer newidiadau polisi a chanfyddiadau gweithgarwch goruchwyllo megis adolygiadau thematig.</p> <p>Mae timau ar draws y sefydliad yn defnyddio ystod eang o ffynonellau i lywio penderfyniadau'r Bwrdd – mae hyn yn cynnwys data a gwybodaeth gan gwmnïau a'u cymdeithasau masnach, mewnwelediad a rennir gan sefydliadau rheoleiddio eraill, gwybodaeth gan ASau a chan chwythwyr chwiban. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth o ddigwyddiadau ac arolygon diwydiant i'n helpu i ddeall y materion y mae cwmnïau'n eu hwynebu.</p> <p>Ym mis Ebrill, fe wnaethom sefydlu Uned Busnesau Bach i gydgyssylltu ein gweithgareddau ar draws materion busnesau bach. Mae'r Uned yn sicrhau bod cwmnïau a reoleiddir yn cael eu cefnogi drwy'r heriau a achosir gan argyfwng coronafeirws, yn casglu gwybodaeth ac yn darparu ymateb cydgyssylltiedig i unrhyw faterion a adnabuwyd. Mae ein Cadeirydd hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Ffederasiwn Busnesau.</p> <p>Mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â'r Panel Ymarferwyr, y Panel Ymarferwyr Busnes Llai, y Panel Ymarferwyr Marchnadoedd a Phanel Cynghori'r Awdurdod Rhestru, i ddeall eu barn a barn y rhai y maent yn eu cynrychioli.</p> <p>Mae'r Bwrdd yn ystyried yn ofalus ganlyniadau'r Arolwg Rhanddeiliaid blynyddol a'r Arolwg Panel Ymarferwyr/FCA ar y cyd o gwmnïau, sy'n galluogi cymharu cynnydd yr FCA yn erbyn canlyniadau blynyddoedd blaenorol. Mae'r gweithgaredd hwn hefyd yn gwella dealltwriaeth y Bwrdd o ganfyddiadau rhanddeiliaid o'r FCA a meysydd gwaith blaenoriaeth canfyddedig ar gyfer y flwyddyn i ddod.</p>

Grŵp rhanddeiliaid	Pam yr ydym yn ymgysylltu a'r hyn a ddywedodd ein rhanddeiliaid wrthym	Enghreifftiau o sut y gwnaethom ymgysylltu ac ymateb yn 2019/20
Senedd a seneddwyr	<p>Rydym yn rheoleiddiwr annibynnol, yn atebol i'r Trysorlys, sy'n gyfrifol am system ariannol y DU, ac i'r Senedd. Er mwyn cyflawni ein hamcanion, rydym yn ymgysylltu'n rhagweithiol â Gweinidogion, ASau ac adrannau'r llywodraeth. Rydym hefyd yn ymgysylltu ag aelodau Senedd yr Alban, Senedd Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Cynulliad Llundain a'u cyrff gweithredol cysylltiedig. Mae ein gwaith hefyd yn cynnwys trafodaethau gyda chyrrff a rhanddeiliaid gwleidyddol eraill.</p> <p>Mae'r Trysorlys yn penodi ein Bwrdd, sy'n rheoli ac yn herio ein tîm gweithredol, yn helpu i'n dwyn i gyfrif ac yn helpu i bennu ein cyfeiriad fel sefydliad.</p>	<p>Mae ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr yn rhoi tystiolaeth gerbron Pwyllgor Dethol y Trysorlys fel rhan o'i waith craffu parhaus ar ein gwaith mewn gwrandawriad atebolrwydd cyffredinol ddwywaith y flwyddyn. Rydym hefyd yn rhoi tystiolaeth yn rheolaidd i bwyllgorau seneddol eraill.</p> <p>Fel rhan o'n hatebolrwydd i'r Senedd, rydym yn ymateb i geisiadau am wybodaeth gan ASau ac arglwyddi drwy lythyrau, cwestiynau seneddol a thystiolaeth i Grwpiau Seneddol Hollbleidiol.</p> <p>Mae ein Bwrdd yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a wnawn i'r Senedd yn nodi'r cynnydd rydym wedi'i wneud o ran cyflawni ein hamcanion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad Perimedr blynyddol cyntaf hefyd ym mis Mehefin 2019 yn esbonio sut y byddwn yn parhau i weithio gyda'r Trysorlys a'r Senedd ar yr heriau sy'n gysylltiedig â'r perimedr rheoleiddio presennol.</p>
Rheoleiddwyr a phartneriaid rheoleiddio eraill	<p>Er mwyn cyflawni ein hamcanion – o fudd i ddefnyddwyr a marchnadoedd – rhaid i ni gydweithio â rheoleiddwyr eraill. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i rannu gwybodaeth ac arfer gorau, gwella ffyrdd o weithio ac archwilio materion trawsbynciol. Yn rhyngwladol, ceisiwn lunio'r agenda reoleiddio fyd-eang a pholisïau ariannol rhyngwladol.</p> <p>Darllenwch fwy am ein hymgysylltiad â chyrrff rheoleiddio yn ystod 2019/20 ym Mhennod 1.</p>	<p>Mae'r Bwrdd yn goruchwyllo'r gweithgareddau cydweithredu a chydgyssylltu a wnawn gyda chymheiriaid rheoleiddio ar draws y DU ac yn rhyngwladol.</p> <p>Enghraifft o'r gwaith hwn yw'r Pwyllgor Goruchwyllo, sy'n cyfarfod yn rheolaidd i roi cymorth a chynghor i'r Bwrdd ar ei berthynas â Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol a'r Cynllun lawndal Gwasanaethau Ariannol.</p>

Grŵp rhanddeiliaid	Pam yr ydym yn ymgysylltu a'r hyn a ddywedodd ein rhanddeiliaid wrthym	Enghreifftiau o sut y gwnaethom ymgysylltu ac ymateb yn 2019/20
Ein cyflenwyr	<p>Er mwyn cyflawni ein hamcanion yn effeithlon ac yn effeithiol, rydym yn dibynnu ar tua 1,000 o gyflenwyr, gan ddarparu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau. Mae sut rydym yn dewis ein cyflenwyr a sut rydym yn meithrin ein perthynas â hwy yn hanfodol wrth ein galluogi i berfformio ar ein gorau. Rhaid inni allu dangos bod popeth a gaffaelwn yn cyflawni Gwerth am Arian (Gwerth am Arian) ar gyfer yr FCA a'i rhanddeiliaid. Yn ogystal, rydym yn Awdurdod Contractio o dan y Rheoliadau Contract Cyhoeddus 2015 ac ar hyn o bryd maent yn ddarostyngedig i Gyfarwyddebau Caffael yr UE.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Bwrdd yn dirprwyo'r holl faterion sy'n ymwneud â chaffael a rheoli cyflenwyr i'r Prif Swyddog Gweithredu (COO). Mae'r COO yn sicrhau: • bod ein harferion caffael yn cydymffurfio â deddfwriaeth briodol • ein bod yn prynu'n gyfrifol ac yn glynu wrth ein Polisi Caffael Moesegol • bod prosesau caffael yn cael eu hadeiladu o gwmpas asesu yn erbyn meini prawf gwerth am arian • ceisir adborth gan ac mae'n cael ei roi i gyflenwyr cyn, yn ystod ac ar ôl prosiectau caffael • bod telerau ac amodau'n cael eu hadolygu yn rheolaidd er mwyn gallu cyflawni Gwerth am Arian • bod yr ymddygiadau a'r safonau a ddisgwyliar gan gyflenwyr i'r FCA wedi'u nodi'n glir yn ein Cod Ymddygiad Cyflenwyr • bod dull strwythuredig o ymdrin â fframwaith Rheoli Cyflenwyr, yn seiliedig ar bwysigrwydd cymharol a phroffil risg pob perthynas

Grŵp rhanddeiliaid	Pam yr ydym yn ymgysylltu a'r hyn a ddywedodd ein rhanddeiliaid wrthym	Enghreifftiau o sut y gwnaethom ymgysylltu ac ymateb yn 2019/20
Ein cymuned a'r Amgylchedd	<p>Mae dinasyddiaeth gorfforaethol dda a chyfrifoldeb corfforaethol yn rhannau pwysig o'n hunaniaeth, fel cyflogwr ac fel rheoleiddiwr. Fel cyflogwr cyfrifol, rydym yn ystyried effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol ein penderfyniadau a'n gweithredoedd ac yn anelu at gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach a'n hamgylchedd.</p> <p>Drwy ein gwaith Cyfrifoldeb Corfforaethol mae gennym raglenni Ymgysylltu â'r Gymuned yn Llundain a Chaeredin sy'n caniatáu i gydweithwyr gymryd absenoldeb i wirfoddoli a chodi arian ar ran ein partneriaid Elusennol. Mae'r rhaglenni gweithgarwch yn eang eu cwmpas o'n rhaglenni blaenllaw, Inspiring Futures yn Llundain a Mentora yng Nghaeredin, gweithio gyda phobl ifanc mewn sesiynau Career Insight, gwirfoddoli fel aelodau'r bwrdd ac yn ystod Covid-19 gwirfoddoli i Ambiwlans Sant Ioan.</p> <p>Rydym wedi ymrwmo i ddod yn sefydliad mwy cynaliadwy a lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y meysydd lle gallwn gael yr effaith fwyaf megis ynni, gwastraff, dŵr a defnydd papur. Arweiniodd newidiadau i'n harferion gwaith mewn ymateb i Covid-19 at leihad sylweddol yn ein heffeithiau amgylcheddol, yn enwedig allyriadau o deithio ar fusnes.</p> <p>Cynlluniwyd ein hadeilad yn Stratford gyda chynaliadwyedd mewn golwg a dyfarnwyd sgôr rhagoriaeth BREEAM iddo. Rydym hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'n cyflenwyr gyflawni ein hymrwymiad i arferion amgylcheddol cadarn a'u hannog i ddatblygu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i helpu i wella perfformiad amgylcheddol.</p> <p>Darllenwch fwy am ein gwaith Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ein Hadroddiad Amrywiaeth Blynyddol. Mae ein Hadroddiad Cynaliadwyedd, yn atodiad 4, yn esbonio mwy am ein gweithgareddau amgylcheddol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Bwrdd, ynghyd â'n Pwyllgor Gweithredol, yn goruchwyllo ein strategaethau ymgysylltu â'r gymuned, amrywiaeth a chynhwysiant a chynaliadwyedd. Mae'r Bwrdd yn cefnogi'n gryf gyfrifoldeb corfforaethol sydd wrth wraidd yr FCA gan ei fod yn ymgorffori gwerthoedd y sefydliad ac yn grymuso ein pobl yn ogystal â'r gymuned ehangach.

Penderfyniadau'r Bwrdd ac ystyried barn rhanddeiliaid

Prosesau gwneud penderfyniadau'r Bwrdd

Fe wnaeth y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr ystyried barn a buddiannau ystod eang o randdeiliaid yn ystod 2019/20. Yn yr adran flaenorol, fe wnaethom adnabod y rhanddeiliaid hyn ac fe wnaethom esbonio rhai o'r ffyrdd yr oedd y Bwrdd wedi ymgysylltu. Mae cael mynediad at ystod lawn o

safbwyntiau yn rhan bwysig o'r ffordd y mae Bwrdd yr FCA yn gwneud penderfyniadau. Mae Deddf Gwasanaethau a Ariannol Marchnadoedd 2000 (FSMA) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ymgynghori'n gyhoeddus â'r diwydiant, defnyddwyr a phartion eraill â diddordeb ar ein rheolau a'n canllawiau cyn i'r Bwrdd gymeradwyo ein rheolau a'n canllawiau ac fe'u cyhoeddwr yn ein Llawlyfr. Er mwyn llywio ein proses o wneud penderfyniadau, bydd unrhyw newid i'n Llawlyfr yn cynnwys dadansoddiad cost a budd er mwyn asesu'r costau a'r manteision a ddisgwyliwn o'r newid. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw faich neu gyfyngiad a osodwn yn gymesur â'r manteision a ddisgwyliwn o ganlyniad.

Mae FSMA hefyd yn mynnu bod y Bwrdd yn ystyried egwyddorion rheoleiddio da wrth gyflawni ei waith.

Penderfyniadau allweddol gan y Bwrdd yn ystod 2019/20

Penderfyniad y Bwrdd	
<p>Alinio cyllideb yr FCA a gweithgareddau yn y dyfodol i fynd i'r afael â meysydd o niwed mewn gwasanaethau ariannol</p> <p>Cymeradwyo cyllidebau sefydliadol a chynlluniau busnes y Rheoleiddiwr Systemau Talu, Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol a'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol</p>	<p>Ym mis Mehefin 2019, cytunodd y Bwrdd ar y ffioedd a'r ardollau ar gyfer 2019/20. Ystyriodd y Bwrdd yn ofalus gytuno ar gynnydd craidd yn y gyllideb i'r sefydliad, gan gydbwysu'r angen i sicrhau mwy o fuddsoddiad ar gyfer ein trawsnewid yn erbyn y costau rheoleiddio uwch i gwmnïau.</p> <p>Ystyriodd y Bwrdd flaenoriaethau busnes a chynigion cyllideb y PSR, FOS a'r FSCS yn ofalus ar gyfer 2020/21 ym mis Chwefror a mis Mawrth 2020. Cytunodd y Bwrdd ar y cyllid angenrheidiol i sicrhau bod pob un o'r sefydliadau hyn yn gallu parhau i weithredu a chyflawni eu hamcanion.</p>
<p>Rheoli effaith ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar ddefnyddwyr a chwmnïau gwasanaethau ariannol</p>	<p>Yn y cyfnod cyn mis Ionawr 2020 a'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, bu'r Bwrdd yn goruchwyllo'r paratodau i sicrhau bod yr FCA a sector gwasanaethau ariannol y DU wedi'u paratoi'n dda. Roedd hyn yn cynnwys, ym mis Hydref 2019, gytuno i wneud newidiadau i reolau a chanllawiau'r Llawlyfr ar gyfer y Drefn Caniatadau Dros Dro pe na chytunwyd ar estyniad i gyfnod Erthygl 50.</p> <p>Darllenwch fwy am ein gwaith ar Ymadael â'r UE ym Mhennod 3.</p>
<p>Cymeradwyo camau gweithredu i fynd i'r afael â materion allweddol sy'n ymwneud â niwed i ddefnyddwyr</p>	<p>Ym mis Mai 2019, cymeradwyodd y Bwrdd reolau mewn perthynas â rhywfaint o'n gwaith Credyd Cost Uchel ar Orddrafftiau a'r trefniadau Prynu'n Awr Talu'n Ddiweddarach.</p> <p>Ym mis Medi 2019, cymeradwyodd y Bwrdd gyhoeddi'r adroddiad interim o'n hastudiaeth o'r farchnad Arferion Priso Yswiriant Cyffredinol.</p> <p>Ym mis Mawrth 2020 ac wedi hynny, cymerodd y Bwrdd nifer o benderfyniadau i gefnogi defnyddwyr a busnesau bach drwy bandemig coronafeirws.</p>
<p>Trawsnewid diwylliannol a data FCA</p>	<p>Ym mis Mehefin 2019, cytunodd y Bwrdd ar ein strategaeth ddata newydd gan ganolbwyntio ar sut y byddwn yn defnyddio datblygiadau newydd mewn technoleg, megis dadansoddi uwch. Mae'r strategaeth ddata yn rhan o'n rhaglen drawsnewid gyffredinol sy'n sbarduno gwelliannau sylweddol i'r ffordd rydym yn gweithio.</p>



Christopher Woolard
 Prif Weithredwr Dros Dro